

Agenda – Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Fideo gynadledda drwy Zoom	Gareth Williams
Dyddiad: Dydd Llun, 9 Tachwedd 2020	Clerc y Pwyllgor
Amser: 10.00	0300 200 6565
	SeneddDCC@senedd.cymru

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, penderfynodd y Cadeirydd wahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu’n fyw ar www.senedd.tv

Rhag-gyfarfod anffurfiol (09.30–10.00)

- 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau
10.00
- 2 Offerynnau negyddol arfaethedig nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3B
10.00–10.05 (Tudalennau 1 – 2)
CLA(5)–32–20 – Papur 1 – Offerynnau statudol negyddol arfaethedig sydd ag adroddiadau clir
- 2.1 pNeg(5)33 – Rheoliadau Maeth (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â’r UE) 2020
- 2.2 pNeg(5)35 – Rheoliadau Pysgodfeydd a Rheoli Morol (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â’r UE) 2020



3 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

10.05–10.10

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

3.1 SL(5)640 – Rheoliadau Rheolaethau Swydddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) (Diwygio) 2020

(Tudalennau 3 – 17)

CLA(5)–32–20 – Papur 2 – Adroddiad

CLA(5)–32–20 – Papur 3 – Rheoliadau

CLA(5)–32–20 – Papur 4 – Memorandwm Esboniadol

3.2 SL(5)644 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 17) 2020

(Tudalennau 18 – 36)

CLA(5)–32–20 – Papur 5 – Adroddiad

CLA(5)–32–20 – Papur 6 – Rheoliadau

CLA(5)–32–20 – Papur 7 – Memorandwm Esboniadol

CLA(5)–32–20 – Papur 8 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, 30 Hydref 2020

CLA(5)–32–20 – Papur 9 – Datganiad ysgrifenedig, 29 Hydref 2020

4 Offerynnau statudol y mae angen i'r Senedd gydsynio â hwy (Memoranda Cydsyniad Offeryn Statudol)

10.10–10.15

4.1 SICM(5)36 – Rheoliadau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2020

(Tudalennau 37 – 69)

CLA(5)–32–20 – Papur 10 – Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol

CLA(5)–32–20 – Papur 11 – Rheoliadau

CLA(5)–32–20 – Papur 12 – Memorandwm Esboniadol

CLA(5)–32–20 – Papur 13 – Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 27 Hydref 2020

CLA(5)–32–20 – Papur 14 – Datganiad ysgrifenedig

CLA(5)–32–20 – Papur 15 – Sylwebaeth

4.2 SICM(5)38 – Rheoliadau Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (Addasiadau Canlyniadol) (Ymadael â'r UE) 2020

(Tudalennau 70 – 108)

CLA(5)–32–20 – Papur 16 – Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol

CLA(5)–32–20 – Papur 17 – Rheoliadau

CLA(5)–32–20 – Papur 18 – Memorandwm Esboniadol

CLA(5)–32–20 – Papur 19 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, 2 Tachwedd 2020

CLA(5)–32–20 – Papur 20 – Datganiad ysgrifenedig

CLA(5)–32–20 – Papur 21 – Sylwebaeth

5 Datganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C

10.15–10.25

5.1 WS–30C(5)191 – Rheoliadau Cyd–drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2020

(Tudalennau 109 – 116)

CLA(5)–32–20 – Papur 22 – Datganiad ysgrifenedig

CLA(5)–32–20 – Papur 23 – Sylwebaeth

5.2 WS–30C(5)192 – Rheoliadau Cyd–drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2020

(Tudalennau 117 – 122)

CLA(5)–32–20 – Papur 24 – Datganiad ysgrifenedig

CLA(5)–32–20 – Papur 25 – Sylwebaeth

5.3 WS–30C(5)193 – Rheoliadau Glanedyddion (Diwygiadau) (Ymadael â'r UE) 2020

(Tudalennau 123 – 126)

CLA(5)–32–20 – Papur 26 – Datganiad ysgrifenedig

CLA(5)-32-20 – Papur 27 – Sylwebaeth

**5.4 WS-30C(5)195 – Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Rhywogaethau Goresgynnol
Estron (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020**

(Tudalennau 127 – 131)

CLA(5)-32-20 – Papur 28 – Datganiad ysgrifenedig

CLA(5)-32-20 – Papur 29 – Sylwebaeth

**5.5 WS-30C(5)197 – Rheoliadau Cynhyrchion Amaethyddol, Bwyd a Diod
(Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020**

(Tudalennau 132 – 139)

CLA(5)-32-20 – Papur 30 – Datganiad ysgrifenedig

CLA(5)-32-20 – Papur 31 – Sylwebaeth

**5.6 WS-30C(5)198 – Rheoliadau Mewnforio a Masnachu Cynhyrchion Anifeiliaid
(Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2020**

(Tudalennau 140 – 146)

CLA(5)-32-20 – Papur 32 – Datganiad ysgrifenedig

CLA(5)-32-20 – Papur 33 – Sylwebaeth

6 Papurau i'w nodi

10.25-10.30

**6.1 Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig: Bil
Pysgodfeydd y DU**

(Tudalennau 147 – 149)

CLA(5)-32-20 – Papur 34 – Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a
Materion Gwledig, 30 Hydref 2020

**6.2 Gohebiaeth gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol: Bil Llywodraeth Leol ac
Etholiadau (Cymru)**

(Tudalennau 150 – 157)

CLA(5)-32-20 – Papur 35 – Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, 30 Hydref 2020

CLA(5)-32-20 – Papur 36 – Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 30 Hydref 2020

6.3 Gohebiaeth gyda'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol: Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Preswyl: Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) 2020

(Tudalennau 158 – 168)

CLA(5)-32-20 – Papur 37 – Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, 3 Tachwedd 2020

CLA(5)-32-20 – Papur 38 – Llythyr at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, 22 Hydref 2020

CLA(5)-32-20 – Papur 39 – Ymateb Llywodraeth Cymru

CLA(5)-32-20 – Papur 40 – Adroddiad

6.4 Llythyr gan y Prif Weinidog: Y Cyngor Prydeinig– Gwyddelig

(Tudalennau 169 – 170)

CLA(5)-32-20 – Papur 41 – Llythyr gan y Prif Weinidog, 3 Tachwedd 2020

7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

10.30

8 Trafodaeth ar Femoranda Cydsyniad Offeryn Statudol

10.30–10.35

(Tudalennau 171 – 176)

CLA(5)-32-20 – Papur 42 – Llythyr gan y Prif Weinidog, 4 Tachwedd 2020

CLA(5)-32-20 – Papur 43 – Llythyr at y Prif Weinidog, 23 Hydref 2020

CLA(5)-32-20 – Papur 44 – Llythyr gan y Llywydd, 7 Mai 2019

9 Papur briffio ar y trefniadau ar gyfer Etholiadau'r Senedd 2021

10.35–10.40

(Tudalennau 177 – 187)

CLA(5)-32-20 – Papur 45 – Papur briffio

10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Masnach

10.40–10.55

(Tudalennau 188 – 204)

CLA(5)–32–20 – Papur 46 – Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol

CLA(5)–32–20 – Papur 47 – Nodyn Cyngor Cyfreithio

CLA(5)–32–20 – Papur 48 – Llythyr gan Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol, 11 Medi 2020

11 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Marchnad Fewnol y

DU: Trafod yr adroddiad drafft

10.55–11.15

CLA(5)–32–20 – Papur 49 – Adroddiad drafft

Dyddiad y cyfarfod nesaf – 16 Tachwedd 2020

Negyddol Arfaethedig Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir

9 Tachwedd 2020

Pn(5)33 – Rheoliadau Maethiad (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

Gweithdrefn: Negyddol Arfaethedig

Bwriedir gwneud y Rheoliadau hyn o dan baragraff 1(1) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, er mwyn ymdrin â diffygion sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau'n gwneud mân ddiwygiadau technegol i Reoliadau Maethiad (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019, megis disodli cyfeiriadau at y DU gyda chyfeiriadau at Brydain Fawr er mwyn adlewyrchu Protocol Gogledd Iwerddon. Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau yn cadarnhau nad yw'r Rheoliadau'n gwneud unrhyw newidiadau polisi.

Cafodd y Rheoliadau hyn eu gosod at ddibenion sifftio o dan Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018 yn unol â Rheol Sefydlog 27.9A.

Rhiant-Ddeddf: Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

Bodlonwyd Gofynion y Sifft: Ie

Pn(5)35 – Rheoliadau Pysgodfeydd a Rheoli Morol (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

Gweithdrefn: Negyddol Arfaethedig

Diben Rheoliadau Pysgodfeydd a Rheoli Morol (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 ("y Rheoliadau") yw sicrhau bod cyfraith yr UE a ddargedwir yn gweithredu'n effeithiol unwaith y bydd y DU yn gadael yr UE.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Pysgodfeydd a Rheoli Morol (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 ("Rheoliadau 2019").



Mae Rheoliad 3 yn diwygio Rheoliadau 2019, sydd yn eu tro yn diwygio Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) 2011 er mwyn cywiro gwall mewn cyfeiriadau.

Mae Rheoliad 4 yn diwygio Rheoliadau 2019, sydd yn eu tro yn diwygio Rheoliadau Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (Grantiau) (Cymru) 2016. Bydd y cynllun a chyllid Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop yn parhau i gael eu llywodraethu gan yr UE hyd nes y bydd y rhaglenni a'r gweithgareddau hynny'n cau, fel y nodir yn Erthygl 138 o'r Cytundeb Ymadael. Bydd cyfraith berthnasol yr Undeb Ewropeaidd yn parhau i fod yn berthnasol yn uniongyrchol yn y DU ac ni fydd yn dod yn rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir, o ganlyniad i adran 7A ac adran 3(2)(bi) o Ddeddf Ymadael â'r UE 2018, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf yr UE (Y Cytundeb Ymadael) 2020. Gwneir diwygiadau, felly, i Rheoliadau 2019, sy'n ymwneud â Rheoliadau 2016, i adlewyrchu'r sefyllfa bod deddfwriaeth yr UE y cyfeirir ati yn Rheoliadau 2016 yn cael effaith yn rhinwedd y Cytundeb Ymadael, a Deddf yr UE (Ymadael).

Cafodd y Rheoliadau hyn eu gosod at ddibenion sifftio o dan Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018 yn unol â Rheol Sefydlog 27.9A.

Rhiant-Ddeddf: Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

Bodlonwyd Gofynion y Sifft: Ie



SL(5)640 – Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn diwygio Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/206) (Cy.48) sy'n cynnwys mesurau i atal plâu ac afiechydon sy'n niweidiol i blanhigion rhag cael eu cyflwyno a'u lledaenu.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018 a Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) 2019.

Diben y Rheoliadau hyn yw cynnal bioddiogelwch.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio Atodlen 3 i Rheoliadau 2020 o ran rheolau ar gyfer yr achosion pan ganiateir cynnal gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol ar nwyddau penodol wrth bwyntiau rheoli a phan ganiateir cynnal gwiriadau dogfennol ar bellter oddi wrth safleoedd rheoli ar y ffin, ac o dan ba amodau y caniateir gwneud hynny.

Gweithdrefn

Negyddol.

Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3 (i) - ei fod yn codi tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru neu ei fod yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud i'r Gronfa honno neu i unrhyw ran o'r llywodraeth neu awdurdod lleol neu gyhoeddus er mwyn cydnabod unrhyw drwydded, cydsyniad neu unrhyw wasanaethau sydd i'w rhoi, neu ei fod yn rhagnodi swm unrhyw dâl neu daliad o'r fath.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Ffioedd Iechyd Planhigion sy'n daladwy i Weinidogion Cymru.

Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd



Bydd y Rheoliadau hyn yn rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (h.y. diwedd y cyfnod gweithredu, ar 31 Rhagfyr 2020).

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

3 Tachwedd 2020



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament

Legislation, Justice and Constitution Committee

Tudalen y pecyn 4

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 1134 (Cy. 259)

**IECHYD PLANHIGION,
CYMRU**

**Rheoliadau Rheolaethau
Swyddogol (Iechyd Planhigion ac
Organeddau a Addaswyd yn Enetig)
(Cymru) (Diwygio) 2020**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/206) (Cy. 48) ("Rheoliadau 2020"), sy'n rhoi effaith i—

- (a) Rheoliad (EU) 2016/2031 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch mesurau i ddiogelu rhag plâu planhigion (OJ Rhif L 317, 23.11.2016, t. 4), a
- (b) Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir y gyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ar iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion i ddiogelu planhigion, i'r graddau y mae'n gymwys i'r rheolau y cyfeirir atynt yn Erthygl 1(2)(g) (OJ Rhif L 95, 7.4.2017, t. 1).

Mae rheoliad 2(3) a (7) yn diweddarau'r cyfeiriadau yn Rheoliadau 2020 at—

- (a) Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2017/198 o ran mesurau i atal *Pseudomonas syringae* pv. *actinidiae* Takikawa, Serizawa, Ichikawa, Tsuyumu & Goto (OJ Rhif L 31, 4.2.2017, t. 29) rhag cael ei gyflwyno i'r Undeb a lledaenu ynddo, sydd wedi ei ddiddymu a'i ddisodli gan Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2020/885 o ran mesurau i atal *Pseudomonas syringae* pv. *actinidiae* Takikawa, Serizawa, Ichikawa, Tsuyumu & Goto (OJ Rhif L 205, 29.6.2020,

t. 9) rhag cael ei gyflwyno i'r Undeb a lledaenu ynddo, a

- (b) Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1615 yn sefydlu mesurau brys i atal Firws ffrwythau crychlyd coch tomatos (OJ Rhif L 250, 30.9.2015, t. 91) rhag cael ei gyflwyno i'r Undeb a lledaenu ynddo, sydd wedi ei ddiddymu a'i ddisodli gan Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2020/1191 yn sefydlu mesurau i atal Firws ffrwythau crychlyd coch tomatos (OJ Rhif L 262, 12.8.2020, t. 6) rhag cael ei gyflwyno i'r Undeb a lledaenu ynddo.

Mae rheoliad 2(5) yn diwygio rheoliad 21 o Reoliadau 2020 er mwyn caniatáu i'r awdurdod priodol awdurdodi defnyddio plâu planhigion cwarantín posibl at ddibenion profion swyddogol, dibenion gwyddonol neu addysgol, treialon, dewis neu fridio amrywogaethau.

Mae rheoliad 2(6) yn diwygio Atodlen 3 i Reoliadau 2020 er mwyn galluogi Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/2123 yn ategu Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran rheolau ar gyfer yr achosion pan ganiateir cynnal gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol ar nwyddau penodol wrth bwytiau rheoli a phan ganiateir cynnal gwiriadau dogfennol bellter oddi wrth safleoedd rheoli ar y ffin, ac o dan ba amodau y caniateir gwneud hynny, (OJ Rhif L 321, 12.12.2019, t. 64) i gael ei orfodi o 14 Rhagfyr 2020 (y dyddiad y bydd y darpariaethau yn y Rheoliad hwnnw yn gymwys i blanhigion, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau eraill penodol).

Mae rheoliadau 2(2) a (4), 3 a 4 yn gwneud diwygiadau canlyniadol a mân ddiwygiadau eraill.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 1134 (Cy. 259)

**IECHYD PLANHIGION,
CYMRU**

**Rheoliadau Rheolaethau
Swyddogol (Iechyd Planhigion ac
Organeddau a Addaswyd yn Enetig)
(Cymru) (Diwygio) 2020**

Gwnaed *16 Hydref 2020*

Gosodwyd *gerbron* *Senedd*
Cymru *20 Hydref 2020*

Yn dod i rym *13 Tachwedd 2020*

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(1) (“Deddf 1972”) mewn perthynas â’r polisi amaethyddol cyffredin(2).

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 2(2) o Ddeddf 1972, a pharagraff 1A o Atodlen 2 iddi, a chyda cysyniad y Trysorlys, drwy arfer y pwerau a

-
- (1) 1972 p. 68. Diddymwyd Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (“Deddf 1972”) gan adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) (“Deddf 2018”) ac mae hynny’n cael effaith o’r diwrnod ymadael. Mae “exit day” wedi ei ddiffinio yn adran 20 o Ddeddf 2018 fel 31 Ionawr 2020 am 11pm. Er gwaethaf y diddymiad hwnnw mae Deddf 1972 yn parhau i gael effaith gydag addasiadau tan ddiwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu, yn rhinwedd adran 1A o Ddeddf 2018. Mewnosodwyd adran 1A gan adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1) (“Deddf 2020”). Mae “IP completion day” wedi ei ddiffinio yn adran 1A fel 31 Rhagfyr 2020 am 11pm (yr ystyr a roddir yn adran 39 o Ddeddf 2020). Diwygiwyd adran 2(2) o Ddeddf 1972 yn flaenorol gan adran 27(1) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) a chan adran 3(3) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7) a Rhan 1 o’r Atodlen iddi.
- (2) O.S. 2010/2690, sydd wedi ei ddirymu’n rhagolygol gan O.S. 2018/1011 o ddiwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu.

roddir gan adran 56(1) o Ddeddf Cyllid 1973(1) sydd bellach wedi eu breinio ynddynt hwy(2).

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf 1972 ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i'r cyfeiriadau at offerynnau'r Undeb Ewropeaidd a grybwyllir yn rheoliad 2(3)(b) gael eu dehongli fel cyfeiriadau at yr offerynnau hynny fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) (Diwygio) 2020 a deuant i rym ar 13 Tachwedd 2020.

RHAN 1

Diwygio Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol
(Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd
yn Enetig) (Cymru) 2020

Diwygio Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020

2.—(1) Mae Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020(3) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1), ym mharagraff (c) o'r diffiniad o "pla planhigion a reolir", ar y diwedd mewnosoder " , gan gynnwys pla planhigion cwarantín posibl o fewn yr ystyr a roddir yn rheoliad 21(3)".

(3) Yn rheoliad 3(1)—

(a) hepgorer y diffiniadau o—

(i) "Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2017/198", a

(ii) "Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1615";

(b) ar y diwedd mewnosoder—

"ystyr "Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2020/885" ("Commission Implementing Regulation (EU) 2020/885")"

(1) 1973 p. 51; diwygiwyd adran 56(1) gan O.S. 2011/1043, ac mae wedi ei diwygio yn rhagolygol gan baragraff 17 o Atodlen 8 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) o ddyddiad ac amser sydd i'w bennu.

(2) Yn rhinwedd adran 59(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(3) O.S. 2020/206 (Cy. 48).

yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2020/885 o ran mesurau i atal *Pseudomonas syringae* pv. *actinidiae* Takikawa, Serizawa, Ichikawa, Tsuyumu & Goto(1) rhag cael ei gyflwyno i'r Undeb a lledaenu ynddo;

ystyr “Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2020/1191” (“*Commission Implementing Regulation (EU) 2020/1191*”) yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2020/1191 yn sefydlu mesurau i atal Firws ffrwythau crychlyd coch tomatos (ToBRFV)(2) rhag cael ei gyflwyno i'r Undeb a lledaenu ynddo.”

(4) Yn rheoliad 13(10)—

- (a) hepgorer y diffiniad o “awr waith”;
- (b) yn y lle priodol mewnosoder—
“mae i “diwrnod gwaith” (“*working day*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 7(4);”.

(5) Yn rheoliad 21—

- (a) yn lle paragraff (1) rhodder—
“(1) Caiff yr awdurdod priodol roi awdurdodiad i ganiatáu—
 - (a) cyflawni unrhyw weithgaredd a bennir mewn rhanddirymiad iechyd planhigion,
 - (b) cyflwyno pla planhigion cwarantin posibl i Gymru, symud pla planhigion cwarantin posibl o fewn Cymru, neu ddal neu luosogi pla planhigion cwarantin posibl yng Nghymru, at ddibenion profion swyddogol, dibenion gwyddonol neu addysgol, treialon, dewis neu fridio amrywogaethau, neu
 - (c) cyflawni unrhyw weithgaredd arall y mae cymeradwyaeth yr awdurdod priodol yn ofynnol ar ei gyfer o dan Reoliad Iechyd Planhigion yr UE, y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol neu'r Rheoliadau hyn.”;
- (b) yn lle paragraff (3) rhodder—
“(3) Ym mharagraff (1)—
ystyr “pla planhigion cwarantin posibl” (“*potential quarantine plant pest*”) yw pla planhigion nad yw'n bla cwarantin yr Undeb, yn bla cwarantin parth gwarchoddedig nac yn bla planhigion sy'n destun unrhyw fesurau a fabwysiedir yn unol ag Erthygl 30(1) o Reoliad Iechyd Planhigion yr UE, ond sydd, ym marn yr

(1) OJ Rhif L 205, 29.6.2020, t. 9.

(2) OJ Rhif L 262, 12.8.2020, t. 6.

awdurdod priodol, yn bodloni'r meini prawf a nodir yn Is-adran 1 o Adran 3 o Atodiad 1 i'r Rheoliad hwnnw neu y gallai fod yn bodloni'r meini prawf yn Is-adran 2 o'r Adran honno;

ystyr "rhannirymiad iechyd planhigion" ("*plant health derogation*") yw—

- (a) rhannirymiad darpariaethau Rheoliad Iechyd Planhigion yr UE a nodir mewn act weithredu neu act ddirprwyedig a fabwysiadwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd o dan Reoliad Iechyd Planhigion yr UE neu'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol, neu
- (b) rhannirymiad unrhyw benderfyniad o fewn ystyr Erthygl 288 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd, sy'n dal yn gymwys at ddibenion Rheoliad Iechyd Planhigion yr UE ar neu ar ôl y dyddiad cychwyn ac sy'n caniatáu i'r Aelod-wladwriaethau awdurdodi gweithgaredd a fyddai fel arall wedi ei wahardd gan Reoliad Iechyd Planhigion yr UE neu odano."

(6) Yn Atodlen 3, yn y tabl yn Rhan 3, ar ôl y cofnod ar gyfer Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/1602 mewnosoder—

“Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/2123 yn ategu Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran rheolau ar gyfer yr achosion pan ganiateir cynnal gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol ar nwyddau penodol wrth bwyntiau rheoli a phan ganiateir cynnal gwiriadau dogfennol bellter oddi wrth safleoedd rheoli ar y ffin, ac o dan ba amodau y caniateir gwneud hynny(1)

<p>Erthygl 2(1)(d), (e), (f), (g)(i) ac (h) (fel y'u darllenir gydag Erthygl 2(2) a (3)), Erthygl 5(1) (fel y'i darllenir gydag Erthygl 5(2), Erthygl 6(1) a (4) ac Erthygl 8(2))</p>	<p>Yn ei gwneud yn ofynnol i'r gweithredwr sy'n gyfrifol am llwyth gydymffurfio ag amodau penodol pan fo gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol ar y llwyth i'w cynnal wrth bwynt rheoli ac eithrio safle</p>
---	---

(1) OJ Rhif L 321, 12.12.2019, t. 64.

rheoli ar y ffin.”

(7) Yn y tabl yn Atodlen 4—

- (a) hepgorer y cofnodion sy'n ymwneud ag—
- (i) Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2017/198/EU, a
 - (ii) Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1615;
- (b) ar y diwedd mewnosoder—

“Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2020/885

Erthygl 2 (gwahardd cyflwyno i diriogaeth yr Undeb a lledaenu o fewn tiriogaeth yr Undeb *Pseudomonas syringae* pv. *actinidiae* Takikawa, Serizawa, Ichikawa, Tsuyumu & Goto)

Erthygl 3 (gofynion mewn perthynas â chyflwyno i diriogaeth yr Undeb blanhigion penodedig sy'n tarddu o drydydd gwledydd)

Erthygl 7 (gofynion mewn perthynas â symud o fewn tiriogaeth yr Undeb blanhigion penodedig sydd wedi treulio rhan o'u bywyd yn yr Undeb)

Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2020/1191

Erthygl 2 (gwahardd cyflwyno i diriogaeth yr Undeb a lledaenu o fewn tiriogaeth yr Undeb Firws ffrwythau crychlyd coch tomatos)

Erthygl 6 (gofynion mewn perthynas â symud o fewn tiriogaeth yr Undeb blanhigion penodedig ar gyfer eu plannu o fewn yr Undeb)

Erthygl 7 (gofynion mewn perthynas â symud o fewn

tiriogaeth yr Undeb
hadau penodedig)

Erthygl 8 (gofynion
mewn perthynas â
chyflwyno i
diriogaeth yr Undeb
blanhigion penodedig
i'w plannu sy'n tarddu
o drydydd gwledydd)

Erthygl 9 (gofynion
mewn perthynas â
chyflwyno i
diriogaeth yr Undeb
hadau penodedig sy'n
tarddu o drydydd
gwledydd)".

RHAN 2

Diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth yn
ymwneud â ffioedd

Diwygio Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018

3. Yn Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018(1), yn rheoliad 5(5), yn lle “at ddibenion unrhyw randdirymiad a ddisgrifir yn Erthygl 8(1) neu 48(1) o Reoliad Iechyd Planhigion yr UE” rhodder “a ddisgrifir yn rheoliad 20(1)(a) neu (b)(i) neu 21(1)(b) o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020”.

Diwygio Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) 2019

4. Yn Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) 2019(2), yn rheoliad 2(1), yn y diffiniad o “trwydded”, ym mharagraff (b), ar ôl “21(1)(a)” mewnosoder “neu (b)”.

(1) O.S. 2018/1179 (Cy. 238), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/44 (Cy. 5); mae offerynnau diwygio eraill ond nid oes yr un ohonynt yn berthnasol.

(2) O.S. 2019/497 (Cy. 114), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/44 (Cy. 5) ac O.S. 2020/206 (Cy. 48).

Lesley Griffiths
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig,
un o Weinidogion Cymru
16 Hydref 2020

Explanatory Memorandum to the Official Controls (Plant Health and Genetically Modified Organisms) (Wales) (Amendment) Regulations 2020

This Explanatory Memorandum has been prepared by the Economy, Skills and Natural Resources Department of the Welsh Government and is laid before the Senedd in conjunction with the above subordinate legislation and in accordance with Standing Order 27.1.

Minister's Declaration

In my view, this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of the Official Controls (Plant Health and Genetically Modified Organisms) (Wales) (Amendment) Regulations 2020.

Lesley Griffiths
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs
20 October 2020

PART 1

1. Description

The Official Controls (Plant Health and Genetically Modified Organisms) (Wales) (Amendment) Regulations 2020 (“this instrument”) amends the Official Controls (Plant Health and Genetically Modified Organisms) (Wales) Regulations 2020 (S.I. 2020/206) (W.48) which contains measures to prevent the introduction and spread of harmful plant pests and diseases. This instrument also amends the Plant Health etc. (Fees) (Wales) Regulations 2018 and the Plant Health (Fees) (Forestry) (Wales) Regulations 2019. The purpose of this instrument is the maintenance of biosecurity. This instrument also amends Schedule 3 to the 2020 Regulations as regards rules for the cases where and the conditions under which identity checks and physical checks on certain goods may be performed at control points and documentary checks may be performed at distance from border control posts.

2. Matters of special interest to the Legislation, Justice and Constitution Committee

Section 2(2) of the European Communities Act 1972 offers a choice between negative and affirmative procedures. The negative procedure will be used in this case as the discretion of the Welsh Ministers is limited over elements of these Regulations because they are giving effect to EU provisions. Further, these Regulations amend Regulations that were subject to the negative procedure.

3. Legislative background

The EU Plant Health Regulation ((EU) 2016/2031) and the EU Official Controls Regulation ((EU) 2017/625) (“the EU Regulations”) establish controls and restrictions which apply to the import (from third countries), and internal movement within and between EU Member States, of certain plants, plant pests and other material (such as soil). The purpose of the Regulations is to help reduce biosecurity risk, strengthen the current plant health regime and protect the environment from the spread of harmful pests.

The EU Regulations, and the tertiary legislation made under the Regulations, are directly applicable in the United Kingdom. Domestic legislation is not needed to implement the substantive provisions in this EU legislation. However, supplementary domestic provisions are necessary to enable the competent authorities (in Wales, the Welsh Ministers) to carry out their obligations under the EU Regulations, enforce the Regulations and implement derogations to various provisions in the EU legislation that are available to member States. The Official Controls (Plant Health and Genetically Modified Organisms) (Wales) Regulations 2020 (“the 2020 Regulations”) contain these supplementary domestic provisions. Separate but parallel legislation is in place in England, Northern Ireland, and Scotland.

The Welsh Ministers have powers to make this instrument. They are designated in relation to the common agricultural policy under the European Communities Act 1972 (see S.I. 2010/2690) and powers under section 56 of the Finance Act 1973 are conferred on them by section 59(5) of the Government of Wales Act 2006.

4. Purpose and intended effect of the legislation

This instrument updates the references in the 2020 Regulations to Commission Implementing Decision (EU) 2017/198 as regards measures to prevent the introduction into and the spread within the Union of *Pseudomonas syringae* pv. *actinidiae* Takikawa, Serizawa, Ichikawa, Tsuyumu & Goto, which has been repealed and replaced by Commission Implementing Regulation (EU) 2020/885.

This instrument also updates the references in the 2020 Regulations to Commission Implementing Decision (EU) 2017/198 as regards measures to prevent the introduction into and the spread within the Union of Tomato brown rugose fruit virus, which has been repealed and replaced by Commission Implementing Regulation (EU) 2020/1191.

This instrument enables the Welsh Ministers to authorise the use of potential quarantine plant pests (a pest or disease which has provisionally been assessed as having the potential to be a Quarantine Pest but for which a full risk assessment has not yet been completed) for official testing, scientific or educational purposes, trials, varietal selection or breeding. These pests would be managed in line with strict biosecurity requirements with routine inspections to ensure compliance. This instrument also amends the Plant Health etc. (Fees) (Wales) Regulations 2018 and the Plant Health (Fees) (Forestry) (Wales) Regulations 2019 to provide a mechanism for the Welsh Ministers to charge for the issue of licences authorising the use of such plant pests.

This instrument amends Schedule 3 to the 2020 Regulations to enable the enforcement of Commission Delegated Regulation (EU) 2019/2123 supplementing Regulation (EU) 2017/625 of the European Parliament and of the Council as regards rules for the cases where and the conditions under which identity checks and physical checks on certain goods may be performed at control points and documentary checks may be performed at distance from border control posts.

5. Consultation

This instrument has not been the subject of consultation.

6. Regulatory Impact Assessment (RIA)

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

There are no significant financial implications. The legislation applies equally to all businesses importing controlled plant health material, including small businesses. The risk of introducing harmful organisms is not mitigated by the size of the business. The new measures concern pests which are already subject to Animal and Plant Health Agency inspection and surveillance programmes.

There is no, or no significant, impact on business, charities or voluntary bodies.

With regard to the Government of Wales Act 2006 this legislation has no impact on statutory partners (sections 72-75) or the statutory duties (sections 77-79).

Eitem 3.2

SL(5)644 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 17) 2020

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol"). Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod i'w bennu yn unol â'r Rheoliadau. Mae gofynion y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o bersonau wedi eu hesemptio rhag gorfod cydymffurfio.

Nid yw'n ofynnol i bersonau sy'n dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Cyfeirir at y gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 fel "gwledydd a thiriogaethau esempt". Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt er mwyn hepgor y cofnodion ar gyfer Cyprus a Lithwania.

Caniateir i berson sy'n ddarostyngedig i ofyniad i ynysu a osodir gan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol adael y man lle y mae'r person yn ynysu am nifer cyfyngedig o resymau. Mae'r eithriadau hyn i'r gofyniad i ynysu yn cynnwys eithriad sy'n caniatáu i berson gymryd rhan mewn digwyddiad chwaraeon a restrir. Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon yn Atodlen 4 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau amrywiol.

Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.



Rhinweddau: craffu

Nodir y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, rydym yn nodi eglurhad y Llywodraeth y cafwyd cyngor gan y Gydganolfan Biaddiogelwch sy'n nodi bod y risg i iechyd y cyhoedd yn sgil yr achosion niferus o'r coronafirws, a'i ledaeniad yng Nghyprus a Lithwania, wedi cynyddu. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi yn y Memorandwm Esboniadol:

Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith fod hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yn gysylltiedig â'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol; mae'r Llywodraeth o'r farn eu bod yn gymesur a hefyd yn gyfiawn at ddiben atal lledaeniad haint a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd.

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

"Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn."

3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodwn y torrir y rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fynd heibio rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am dorri'r rheol a ddarparwyd gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 30 Hydref 2020.

Yn benodol, nodwn fod y llythyr yn dweud:

"Mae peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod yn galluogi'r Rheoliadau hyn i ddod i rym cyn gynted â phosibl, ac o ystyried newid yn y dystiolaeth ar risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn."



Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

3 Hydref 2020



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament

Tudalen y pecyn 20

Legislation, Justice and Constitution Committee

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 1191 (Cy. 269)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Coronafeirws, Teithio
Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio)
(Rhif 17) 2020

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 132)) (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol"). Diwygiwyd y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn flaenorol gan:

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 (O.S. 2020/595) (Cy. 136);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/714) (Cy. 160);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/726) (Cy. 163);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/804) (Cy. 177);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020 (O.S. 2020/817) (Cy. 179);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020 (O.S. 2020/840) (Cy. 185);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 (O.S. 2020/868) (Cy. 190);

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 (O.S. 2020/886) (Cy. 196);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020 (O.S. 2020/917) (Cy. 205);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) 2020 (O.S. 2020/944) (Cy. 210);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 9) 2020 (O.S. 2020/962) (Cy. 216);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 10) 2020 (O.S. 2020/981) (Cy. 220);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 11) 2020 (O.S. 2020/1015) (Cy. 226);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2020 (O.S. 2020/1042) (Cy. 231);
- Gorchymyn Trosoglwyddo Swyddogaethau (Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Tramor, Materion y Gymanwlad a Materion Datblygu) 2020 (O.S. 2020/942);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) 2020 (O.S. 2020/1080) (Cy. 243);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 14) 2020 (O.S. 2020/1098) (Cy. 249);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 15) 2020 (O.S. 2020/1133) (Cy. 258);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 16) 2020 (O.S. 2020/1165) (Cy. 263).

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod i'w bennu yn unol â'r Rheoliadau.

Mae gofynion y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o bersonau wedi eu hesemptio rhag gorfod cydymffurfio.

Nid yw'n ofynnol i bersonau sy'n dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Cyfeirir at y gwledydd a'r

tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 fel “gwledydd a thiriogaethau esempt”.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn – yn rheoliadau 2 a 3 - yn diwygio'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt er mwyn hepgor y cofnodion ar gyfer Cyprus a Lithwania; ac mae'n gwneud darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â'r newid yn statws y gwledydd hyn.

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn – yn rheoliad 4 – yn diwygio'r rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon yn Atodlen 4 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Caniateir i berson sy'n ddarostyngedig i ofyniad i ynysu a osodir gan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol adael y man lle y mae'r person yn ynysu am nifer cyfyngedig o resymau. Nodir yr eithriadau hyn i'r gofyniad i ynysu yn rheoliad 10 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, ac maent yn cynnwys eithriad sy'n caniatáu i berson gymryd rhan mewn digwyddiad chwaraeon a restrir.

Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau hyn – yn rheoliadau 5 a 6 – yn gwneud diwygiadau amrywiol i Atodlenni 1 a 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Mae Atodlen 1 i'r Rheoliadau hynny'n rhestru gwybodaeth benodol (“gwybodaeth am deithiwr”) y mae rhaid i bersonau sy'n cyrraedd Cymru o dramor ei darparu i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ffurflen lleoli teithwyr electronig. Mae Atodlen 2 i'r Rheoliadau hynny'n esemptio categorïau penodol o weithwyr rhag gorfod darparu gwybodaeth am deithiwr a rhag gorfod ynysu.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd aseiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 1191 (Cy. 269)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Coronafeirws, Teithio
Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio)
(Rhif 17) 2020

Gwnaed am 11.50 a.m. ar 30 Hydref 2020

*Gosodwyd gerbron Senedd
Cymru am 3.00 p.m. ar 30 Hydref 2020*

*Yn dod i rym am 4.00 a.m. ar 1 Tachwedd
2020*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

RHAN 1

Cyffredinol

Enwi, dod i rym a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 17) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 4.00 a.m. ar 1 Tachwedd 2020.

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd Rhan 2A gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaeth o wneud rheoliadau o dan Ran 2A wedi ei rhoi i "the appropriate Minister". O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984 y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr y “Rheoliadau Teithio Rhyngwladol” yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(1).

RHAN 2

Diwygiadau i’r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt yn Atodlen 3 i’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

Hepgor gwledydd o’r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt

2. Yn Rhan 1 o Atodlen 3 i’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gwledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i’r ardal deithio gyffredin), hepgorer y cofnodion a ganlyn—

“Cyprus”;

“Lithwania”.

Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â rheoliad 2

3.—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan fo person (“P”)—

- (a) yn cyrraedd Cymru am 4:00 a.m. ar 1 Tachwedd 2020 neu wedi hynny, a
- (b) wedi bod yng Nghyprus neu yn Lithwania ddiwethaf—
 - (i) o fewn y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy’n dod i ben â’r diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru, a
 - (ii) cyn 4.00 a.m. ar 1 Tachwedd 2020.

(2) Mae P, yn rhinwedd y ffaith iddo fod yng Nghyprus neu yn Lithwania, i’w drin at ddibenion rheoliadau 7(1) ac 8(1) o’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol fel pe bai wedi cyrraedd Cymru o wlad neu diriogaeth nad yw’n esempt, neu fel pe bai wedi cyrraedd ar ôl bod mewn gwlad neu diriogaeth o’r fath.

(1) O.S. 2020/574 (Cy. 132) fel y’i diwygiwyd gan O.S. 2020/595 (Cy. 136), O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/726 (Cy. 163), O.S. 2020/804 (Cy. 177), O.S. 2020/817 (Cy. 179), O.S. 2020/840 (Cy. 185), O.S. 2020/868 (Cy. 190), O.S. 2020/886 (Cy. 196), O.S. 2020/917 (Cy. 205), O.S. 2020/942, O.S. 2020/944 (Cy. 210), O.S. 2020/962 (Cy. 216), O.S. 2020/981 (Cy. 220), O.S. 2020/1015 (Cy. 226), O.S. 2020/1042 (Cy. 231), O.S. 2020/1080 (Cy. 243), O.S. 2020/1098 (Cy. 249), O.S. 2020/1133 (Cy. 258) ac O.S. 2020/1165 (Cy. 263).

RHAN 3

Diwygiadau i'r rhestr o ddigwyddiadau
chwaraeon yn Atodlen 4 i'r Rheoliadau Teithio
Rhyngwladol

Ychwanegiadau at y rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon penodedig

4.—(1) Mae Atodlen 4 (digwyddiadau chwaraeon penodedig) i'r Rheoliadau Teithio Ryngwladol wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 3, ar y diwedd mewnosoder—

“(m) Y Gorfforaeth Ddartiau Broffesiynol –
Gemau Cymhwyso Pencampwriaeth y
Byd PDPA.”

(3) Ym mharagraff 6, ar y diwedd mewnosoder —

“(i) Cyfarfod mis Tachwedd, Cheltenham;
(j) Churchill Stakes;
(k) Lancashire Chase;
(l) Cyfarfod Cwpan Ladbrokes;
(m) Tingle Creek Chase;
(n) Becher Chase;
(o) Y Cyfarfod Rhyngwladol, Cheltenham;
(p) Long Walk Hurdle;
(q) Cyfarfod King George VI;
(r) Ras Fawr Genedlaethol Cymru Coral;
(s) Cyfarfod Dydd Calan, Cheltenham;
(t) Classic Chase;
(u) Clarence House Chase;
(v) Festival Trials Day, Cheltenham.”

(4) Ym mharagraff 7, ar y diwedd mewnosoder—

“(j) Motorsport UK – Cwpan Walter
Hayes;
(k) Pencampwriaeth Rasio Tryciau BTRA;
(l) Her Porsche Prydain Fawr.”

(5) Ym mharagraff 14, ar y diwedd mewnosoder —

“(i) Hennessy Sports – Gemau
Pencampwriaeth Bocsio Rhyngwladol;
(j) Gemau Pencampwriaeth Bocsio
Rhyngwladol – MTK Promotions.”

(6) Ym mharagraff 15—

- (a) daw'r geiriau o “Twrnamaint” hyd at y diwedd yn is-baragraff (a);
- (b) ar ôl yr is-baragraff hwnnw mewnosoder—
- “(b) Pencampwriaethau Sboncen Agored Prydain 2020 Allam.”

(7) Ym mharagraff 17—

- (a) daw'r geiriau o "Twrnamaint" hyd at y diwedd yn is-baragraff (a);
- (b) ar ôl yr is-baragraff hwnnw mewnosoder —
“(b) Pencampwriaeth Pŵl y Byd Matchroom.”

(8) Yn lle paragraff 19 rhodder—

“**19.** Crefft Ymladd a Chrefft Ymladd Cymysg—

- (a) Cyfres “The Trilogy” Cage Warriors;
- (b) Noson Ymladd Taekwondo Prydain Fawr I – Digwyddiad Rhyngwladol Taekwondo, Para Taekwondo a Karate;
- (c) Noson Ymladd Taekwondo Prydain Fawr II – Digwyddiad Rhyngwladol Taekwondo, Para Taekwondo a Karate.
”

(9) Ar y diwedd mewnosoder—

“**21.** Badminton—

- (a) Pencampwriaethau Badminton Tîm Cymysg Ewrop – Digwyddiad Cymhwyso Grŵp 1;
- (b) Pencampwriaethau Badminton Agored Lloegr Gyfan Yonex.

22. Cwrlo – Uwch-gyfres Cwrlo Ewrop.

23. Jiwdo – Cystadleuaeth Wahodd Gaeedig Hŷn Prydain.

24. Ping Pong — Pencampwriaeth Ping Pong y Byd Matchroom.”

RHAN 4

Diwygiadau amrywiol i Atodlenni 1 a 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

Diwygiadau i Atodlen 1 (gwybodaeth am deithiwr)

5.—(1) Mae Atodlen 1 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 2 (manylion y daith)—

- (a) yn is-baragraff (e), yn lle “cyfeirnod yr archeb deithio” rhodder “rhif y sedd”;
- (b) ar ôl is-baragraff (e) mewnosoder—
“(ea) rhif eu coets,”;
- (c) yn is-baragraff (f), yn lle “; rhif y trên, neu rif y tocyn (fel y bo'n briodol)” rhodder “neu enw'r llestr”;

- (d) yn is-baragraff (k)(iv), yn lle “cyfeirnod archeb deithio’r” rhodder “rhif sedd y”;
- (e) yn is-baragraff (k)(v), yn lle “, rhif y trê, neu rif y tocyn (fel y bo’n briodol)” rhodder “neu enw’r llestr”;
- (f) ar ôl is-baragraff (k)(v) mewnosoder—
 “(vi) rhif y goets ar gyfer y daith sy’n dilyn.”

Diwygiadau i Atodlen 2 (personau esempt)

6.—(1) Mae Atodlen 2 i’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle paragraff 3(2)(b) rhodder—

“(b) ystyr “llu ar ymweliad” yw unrhyw gorfflu, criw neu adran o luoedd gwlad, sy’n gorfflu, criw neu adran o luoedd sy’n bresennol am y tro yn y Deyrnas Unedig (gan gynnwys dyfroedd tiriogaethol y Deyrnas Unedig), ar wahoddiad Llywodraeth Ei Mawrhydi yn y Deyrnas Unedig.”

(3) Ar ddiwedd paragraff 13(1), yn eiriau cloi o dan baragraff (c), mewnosoder—

“pan fônt wedi teithio i’r Deyrnas Unedig yng nghwrs eu gwaith.”

(4) Ym mharagraff 24(1), yn lle “14 o ddiwrnodau ar ôl cyrraedd y Deyrnas Unedig” rhodder “y cyfnod pan fyddent, oni bai am y paragraff hwn, wedi bod yn ddarostyngedig i ofyniad i ynysu (o fewn ystyr rheoliad 10(2) o’r Rheoliadau hyn)”.

(5) Ar ddiwedd paragraff 24(1), yn eiriau cloi o dan baragraff (d), mewnosoder—

“pan fônt wedi teithio i’r Deyrnas Unedig yng nghwrs eu gwaith.”

(6) Ym mharagraff 38, yn lle is-baragraff (2)(a)(ii) a (iii) rhodder—

“(ii) sydd wedi ei ddynodi felly at ddibenion y Rheoliadau hyn gan Gyngor Chwaraeon Cymru,

(iii) sydd wedi ei ddynodi felly at ddibenion Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020(1) (er gwaethaf dirymu’r Rheoliadau hynny), neu

(iv) nad yw’n dod o fewn is-baragraff (i), (ii) na (iii) sy’n cymryd rhan yng nghynghrair Pencampwyr

(1) O.S. 2020/725 (Cy. 162).

UEFA neu gynghrair Europa
UEFA.”

Vaughan Gething

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Iechyd, un o

Weinidogion Cymru

Am 11.50 a.m. ar 30 Hydref 2020

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 17) 2020

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 17) 2020.

Vaughan Gething
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

30 Hydref 2020

1. Disgrifiad

Yn ddarostyngedig i esemptiadau penodedig, tan 10 Gorffennaf 2020, mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ("Y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol") yn ei gwneud yn ofynnol i bob teithiwr sy'n cyrraedd Cymru o'r tu allan i'r Ardal Deithio Gyffredin (h.y. yr ardal ffiniau agored sy'n cynnwys y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw a Gweriniaeth Iwerddon) ddarparu ei fanylion cyswllt a gwybodaeth am ei daith – ac ynysu am gyfnod o 14 o ddiwrnodau.

- 7.48 Regulation 2 of the 2019 Regulations made interpretive provision for non-ambulatory references to direct EU legislation. Regulation 2 is not yet in force and was made before the enactment of WAA and the introduction of relevant separation agreement law. These Regulations replace the interpretive provision for non-ambulatory references provided by the 2019 Regulations with updated provisions to include interpretive provision for non-ambulatory references to relevant separation agreement law (regulation 3(2) and new paragraph 2A of Schedule 8 to EUWA).

8. European Union (Withdrawal) Act/Withdrawal of the United Kingdom from the European Union

- 8.1 This instrument is not being made to address a deficiency in retained EU law but relates to the withdrawal of the United Kingdom from the European Union because it is being made under section 23(1) and (2) of, and paragraphs 21 and 26 of Schedule 7 to, EUWA and section 41(1) and 41(2) of WAA. The Minister has made any relevant statements in Part 2 of the Annex to this Explanatory Memorandum.

9. Consolidation

- 9.1 This instrument is not consolidating any other provisions.

10. Consultation outcome

- 10.1 No public consultation was required as the Regulations make only limited technical changes to existing legislation with no impact on businesses, charities or voluntary bodies.

11. Guidance

- 11.1 Guidance is not being provided in relation to this instrument.

12. Impact

- 12.1 There is no, or no significant, impact on business, charities or voluntary bodies.
- 12.2 There is no, or no significant, impact on the public sector.
- 12.3 An Impact Assessment has not been prepared for this instrument because we expect it to have no impact on businesses.

13. Regulating small business

- 13.1 The legislation does not apply to activities that are undertaken by small businesses.

14. Monitoring & review

- 14.1 No specific monitoring arrangements are needed.

14.2 As this instrument is made under the EU Withdrawal Act 2018 and the European Union (Withdrawal Agreement) Act 2020, no review clause is required.

15. Contact

15.1 The Transition Taskforce at the Cabinet Office, email: ttf-legislation@cabinetoffice.gov.uk can be contacted with any queries regarding the instrument.

15.2 Marianne Ainsworth-Smith, Deputy Director for Parliamentary Engagement and Legislation within the Transition Taskforce, at the Cabinet Office can confirm that this Explanatory Memorandum meets the required standard.

15.3 The Chancellor of the Duchy of Lancaster, Michael Gove MP, at the Cabinet Office can confirm that this Explanatory Memorandum meets the required standard.

Annex

Statements under the European Union (Withdrawal) Act 2018

Part 1

Table of Statements under the 2018 Act

This table sets out the statements that may be required under the 2018 Act.

Statement	Where the requirement sits	To whom it applies	What it requires
Sifting	Paragraphs 3(3), 3(7) and 17(3) and 17(7) of Schedule 7	Ministers of the Crown exercising sections 8(1), 9 and 23(1) to make a Negative SI	Explain why the instrument should be subject to the negative procedure and, if applicable, why they disagree with the recommendation(s) of the SLSC/Sifting Committees
Appropriate-ness	Sub-paragraph (2) of paragraph 28, Schedule 7	Ministers of the Crown exercising sections 8(1), 9 and 23(1) or jointly exercising powers in Schedule 2	A statement that the SI does no more than is appropriate.
Good Reasons	Sub-paragraph (3) of paragraph 28, Schedule 7	Ministers of the Crown exercising sections 8(1), 9 and 23(1) or jointly exercising powers in Schedule 2	Explain the good reasons for making the instrument and that what is being done is a reasonable course of action.
Equalities	Sub-paragraphs (4) and (5) of paragraph 28, Schedule 7	Ministers of the Crown exercising sections 8(1), 9 and 23(1) or jointly exercising powers in Schedule 2	Explain what, if any, amendment, repeals or revocations are being made to the Equalities Acts 2006 and 2010 and legislation made under them. State that the Minister has had due regard to the need to eliminate discrimination and other conduct prohibited under the Equality Act 2010.
Explanations	Sub-paragraph (6) of paragraph 28, Schedule 7	Ministers of the Crown exercising sections 8(1), 9 and 23(1) or jointly exercising powers in Schedule 2 In addition to the statutory obligation the Government has made a political commitment to include these statements alongside all EUWA SIs	Explain the instrument, identify the relevant law before exit day, explain the instrument's effect on retained EU law and give information about the purpose of the instrument, e.g., whether minor or technical changes only are intended to the EU retained law.

Criminal offences	Sub-paragraphs (3) and (7) of paragraph 28, Schedule 7	Ministers of the Crown exercising sections 8(1), 9, and 23(1) or jointly exercising powers in Schedule 2 to create a criminal offence	Set out the 'good reasons' for creating a criminal offence, and the penalty attached.
Sub-delegation	Paragraph 30, Schedule 7	Ministers of the Crown exercising sections 10(1), 12 and part 1 of Schedule 4 to create a legislative power exercisable not by a Minister of the Crown or a Devolved Authority by Statutory Instrument.	State why it is appropriate to create such a sub-delegated power.
Urgency	Paragraph 34, Schedule 7	Ministers of the Crown using the urgent procedure in paragraphs 4 or 14, Schedule 7.	Statement of the reasons for the Minister's opinion that the SI is urgent.
Explanations where amending regulations under 2(2) ECA 1972	Paragraph 14, Schedule 8	Anybody making an SI after exit day under powers outside the European Union (Withdrawal) Act 2018 which modifies subordinate legislation made under s. 2(2) ECA	Statement explaining the good reasons for modifying the instrument made under s. 2(2) ECA, identifying the relevant law before exit day, and explaining the instrument's effect on retained EU law.
Scrutiny statement where amending regulations under 2(2) ECA 1972	Paragraph 15, Schedule 8	Anybody making an SI after exit day under powers outside the European Union (Withdrawal) Act 2018 which modifies subordinate legislation made under s. 2(2) ECA	Statement setting out: a) the steps which the relevant authority has taken to make the draft instrument published in accordance with paragraph 16(2), Schedule 8 available to each House of Parliament, b) containing information about the relevant authority's response to— (i) any recommendations made by a committee of either House of Parliament about the published draft instrument, and (ii) any other representations made to the relevant authority about the published draft instrument, and, c) Containing any other information that the relevant authority considers appropriate in relation to the scrutiny of the instrument or draft instrument which is to be laid.

Part 2

Statements required when using enabling powers under the European Union (Withdrawal) 2018 Act

1. Appropriateness statement

- 1.1 The Chancellor of the Duchy of Lancaster, Michael Gove MP, at Cabinet Office, has made the following statement regarding use of legislative powers in the European Union (Withdrawal) Act 2018:

“In my view the European Union Withdrawal (Consequential Modifications) (EU Exit) Regulations 2020 does no more than is appropriate”.

- 1.2 This is the case because the instrument ensures that the UK statute book accommodates “retained EU law” coherently and effectively after the UK’s withdrawal from the EU.
- 1.3 Although the instrument repeals some primary legislation, these are of a technical and consequential nature and simply remove provisions made redundant by EUWA and in particular, by the repeal of the ECA.

2. Good reasons

- 2.1 The Chancellor of the Duchy of Lancaster, Michael Gove MP, at the Cabinet Office, has made the following statement regarding use of legislative powers in the European Union (Withdrawal) Act 2018:

“In my view there are good reasons for the provisions in this instrument, and I have concluded they are a reasonable course of action”.

- 2.2 These are that without this instrument there would be a lack of clarity about how certain EU-related terms and references to EU legislation in domestic legislation should be interpreted when the UK leave the EU. Also, many provision of EU-derived domestic legislation would remain on the UK statute book, despite being redundant as a result of EUWA

3. Equalities

- 3.1 The Chancellor of the Duchy of Lancaster, Michael Gove MP, at the Cabinet Office has made the following statement(s):

“The instrument does not amend, repeal or revoke a provision or provisions in the Equality Act 2006 or the Equality Act 2010 or subordinate legislation made under those Acts.

4. Explanations

- 4.1 The explanations statement has been made in section 2 of the main body of this explanatory memorandum.



Ein cyf: MA-CG-3212-20

Mick Antoniw AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
SenedDDC@senedd.cymru

02 Tachwedd 2020

Annwyl Mick,

Rwy'n ysgrifennu i'ch hysbysu bod Llywodraeth y DU wedi gosod Rheoliadau Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (Addasiadau Canlyniadol) (Ymadael â'r UE) 2020. Mae'r rheoliadau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ac fe'u gosodwyd ar ffurf drafft gerbron Senedd y DU ar 8 Hydref.

Nod yr offeryn statudol yw sicrhau bod llyfr statud y DU yn gweithio'n gydlynol ac yn effeithiol ar ôl diwedd y cyfnod pontio. Mae'n egluro sut y dylid dehongli rhai termau, gan gynnwys diffiniadau sy'n gysylltiedig â'r UE, mewn deddfwriaeth ddomestig ar ôl diwedd y cyfnod pontio.

Mae'r OS yn diwygio Deddf Ddehongli 1978 a'r Deddfau Dehongli cyfatebol a basiwyd gan y deddfwrfeydd datganoledig (gan gynnwys Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019) mewn perthynas â dehongli cyfeiriadau at "gyfraith berthnasol y cytundebau gwahanu" Mae'r OS hefyd yn diwygio Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 i ddarparu ar gyfer sut y dylai cyfeiriadau presennol at offerynnau'r UE sy'n rhan o gyfraith berthnasol y cytundebau gwahanu, a chyfeiriadau annewidiadwy presennol at ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE, gael eu darllen ar ôl diwedd y cyfnod pontio.

Mae'r OS yn gwneud darpariaethau dehongli newydd yng ngoleuni Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2020 i gael gwared ar ansicrwydd ynghylch pa fersiwn o offeryn yr UE sy'n gymwys ac mae'n darparu glòs cyffredinol i sicrhau bod y dehongliad cywir o offeryn yr UE yn gymwys.

Mae'r OS hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Reoliadau Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (Addasiadau a Diddymiadau a Dirymiadau Canlyniadol) (Ymadael â'r UE) 2019 (Rheoliadau 2019) a diddymiadau technegol i ddarpariaethau

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

segur o fewn deddfwriaeth sylfaenol sy'n deillio o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Mae rheoliadau 2 ac 8 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Dehongli 1978 (p. 30) a Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4) i wneud darpariaeth ddeongliadol ar gyfer cyfeiriadau mewn deddfwriaeth ddomestig at offerynnau'r UE sy'n rhan o gyfraith berthnasol y cytundebau gwahanu ar ôl diwedd y cyfnod pontio.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn fod y darpariaethau a ddisgrifir ym mharagraff 8 uchod yn ymwneud â materion pwnc sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru. Mae gan y term "cyfraith berthnasol y cytundebau gwahanu" ddiffiniad eang yn adran 7C o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael). Mae hyn yn cynnwys deddfwriaeth ddomestig y caiff un o Weinidogion y Goron neu Weinidogion Cymru ei gwneud i weithredu materion gwahanu yn Rhan 3 o'r Cytundeb Ymadael, megis materion sy'n ymwneud â chymorth gwladwriaethol a chaffael sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Mae hefyd yn cynnwys deddfwriaeth ddomestig y ceir ei gwneud i weithredu'r Protocol ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon, a allai gynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â nifer o faterion sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, megis pysgodfeydd a bwyd.

Mae'r OS a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef ar gael yma:

<https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2020/9780348214055>

Cafodd drafft cynharach o'r OS, â'r un teitl, ei osod ar 8 Hydref ac yna ei dynnu'n ôl, ei ddiwygio (ond nid mewn meysydd datganoledig) a'i ailosod. Gosodwyd Datganiad Ysgrifenedig ar gyfer y fersiwn gynharach o'r OS ar 14 Hydref.

Gallaf gadarnhau nad yw'r OS yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd nac ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran y diwygiadau a wneir gan yr OS. Bydd yn cael ei wneud o dan adran 23 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ac adran 41 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2020 sy'n rhoi pwerau i un o Weinidogion y Goron wneud darpariaeth o ganlyniad i'r ddwy Ddeddf hynny. Ni roddir pwerau cyfatebol i Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth ganlyniadol, ac felly ni allai Gweinidogion Cymru wneud OS ar wahân ar gyfer Cymru sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer dehongli deddfwriaeth sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Yn hynny o beth, nid yw'r OS yn ysgogi proses gydsynio ffurfiol gyda Gweinidogion y Llywodraethau Datganoledig. Er hynny, cyfrannodd swyddogion Llywodraeth Cymru at y gwaith o ddrafftio'r OS ac mae'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd wedi ysgrifennu at Ganghellor Dugiaeth Caerhirfryn i ddweud y dylid bod wedi ceisio cydsyniad ffurfiol.

Fodd bynnag, mae Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol wedi'i osod a bydd cyfle i'r Senedd drafod y newidiadau technegol i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 a chydsynio iddynt. Mae'r ddadl wedi'i hamserlennu ar gyfer 17 Tachwedd, cyn i Senedd y DU eu hystyried.

Yr hyn a fyddai orau gennym ni, o ddigon, fyddai bod cyfreithiau a wnaed yng Nghymru yn cael eu diwygio yng Nghymru fel rhan o'r broses o ymadael â'r UE. Yn achos y newidiadau a wneir gan yr OS hwn, nid yw'r pwerau gan Weinidogion Cymru. O ganlyniad, o ystyried bod gofyn i'r diwygiadau gael eu gwneud erbyn diwedd y cyfnod pontio, yr unig ffordd arall o wneud y diwygiadau yng Nghymru fyddai mynd â

deddfwriaeth sylfaenol drwy'r Senedd a chael y Cydsyniad Brenhinol erbyn diwedd y flwyddyn. Ni fyddai hyn yn ddefnydd cymesur o amser ac adnoddau.

Mae'r gwelliannau wedi'u hystyried yn llawn ac nid oes gwahaniaeth barn yn eu cylch. O ystyried natur dechnegol y gwelliannau a'r angen i ddarpariaethau deongliadol fod ar waith erbyn diwedd y flwyddyn, ystyrir ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn mewn perthynas â Chymru ac ar ei rhan am resymau effeithlonrwydd a hwylustod. At hynny, mae gwneud y diwygiadau canlyniadol angenrheidiol mewn un offeryn yn helpu i hybu hygyrchedd y gyfraith yn ystod y cyfnod hwn o newid.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd.

Yn gywir,



Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Rheoliadau Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (Addasiadau Canlyniadol) (Ymadael â'r UE) 2020
DYDDIAD	02 Tachwedd 2020
GAN	Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Rheoliadau Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (Addasiadau Canlyniadol) (Ymadael â'r UE) 2020

Y gyfraith sy'n cael ei diwygio:

Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018
Deddf Dehongli 1978
Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019
Deddf Dehongli a Diwygio Deddfwriaethol (Yr Alban) 2010
Deddf Dehongli (Gogledd Iwerddon) 1954
Rheoliadau Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (Addasiadau, Diddymiadau a Dirymiadau Canlyniadol) (Ymadael â'r UE) 2019
Gorchymyn Deddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 (Darpariaethau Cymwys yr UE) 2013.

Mae'r Offeryn Statudol hefyd yn gwneud nifer o ddiiddymiadau technegol i ddarpariaethau diangen mewn deddfwriaeth sylfaenol o ganlyniad i ddiiddymiadau a wnaed gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Diben y diwygiadau

Diben y diwygiadau yw sicrhau bod llyfr statud y DU yn gweithio'n gydlynol ac yn effeithiol ar ôl diwedd y cyfnod pontio. Mae'n egluro sut y dylid dehongli rhai termau, gan gynnwys diffiniadau sy'n gysylltiedig â'r UE, mewn deddfwriaeth ddomestig ar ôl diwedd y cyfnod pontio. Mae'r OS yn diwygio Deddf Dehongli 1978 a'r Deddfau Dehongli cyfatebol a basiwyd gan y deddfwrfeydd datganoledig (gan gynnwys Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019) mewn perthynas â dehongli cyfeiriadau at "gyfraith berthasol y cytundebau gwahanu". Mae'r OS hefyd yn diwygio Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 i ddarparu ar gyfer sut y dylai cyfeiriadau presennol at offerynnau'r UE sy'n rhan o gyfraith berthnasol y cytundebau

gwahanu, a chyfeiriadau annewidiadwy presennol at ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE, gael eu darllen ar ôl diwedd y cyfnod pontio.

Mae'r Offeryn Statudol yn gwneud darpariaethau dehongli newydd yng ngoleuni Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2020, i gael gwared ag ansicrwydd ynghylch pa fersiwn o offeryn yr UE sy'n gymwys, ac yn darparu glòs cyffredinol i sicrhau bod y dehongliad cywir o offeryn yr UE yn gymwys. Yn olaf, mae'r OS yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Reoliadau Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (Addasiadau, Diddymiadau a Dirymiadau Canlyniadol) (Ymadael â'r UE) 2019 a diddymiadau technegol i ddarpariaethau segur mewn deddfwriaeth sylfaenol sy'n deillio o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Mae'r Offeryn Statudol a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith pob diwygiad, ar gael yma:

<https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2020/9780348214055>

Cafodd drafft cynharach o'r offeryn statudol, â'r un teitl, ei osod ar 8 Hydref ac yna ei dynnu'n ôl, ei ddiwygio (ond nid mewn meysydd datganoledig) a'i ailosod. Gosodwyd Datganiad Ysgrifenedig ar gyfer y fersiwn gynharach o'r OS ar 14 Hydref.

Unrhyw effaith y gallai'r offeryn statudol ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Nid yw'r OS yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd nac ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

Y gofynion o ran cydsyniad

Bydd yr OS hwn yn cael ei wneud o dan adran 23 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ac adran 41 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2020, sef y pwerau canlyniadol yn y naill a'r llall o'r Deddfau, sy'n arferadwy gan Weinidogion y Goron. Felly, nid yw'r OS yn cychwyn proses gydsynio ffurfiol gyda Gweinidogion y Llywodraethau Datganoledig.

Yr hyn a fyddai orau gennym ni, o ddigon, fyddai bod cyfreithiau a wnaed yng Nghymru yn cael eu diwygio yng Nghymru fel rhan o'r broses o ymadael â'r UE. Fodd bynnag, nid yw'r pwerau cyfatebol wedi'u rhoi i Weinidogion Cymru. Gan fod yr OS yn gwneud diwygiadau technegol, nad oes iddynt unrhyw oblygiadau o ran polisi, ac o gofio bod yn rhaid i'r diwygiadau fod ar waith erbyn diwedd y flwyddyn, ystyrir ei bod yn hwylus i Lywodraeth y DU wneud darpariaeth ar ran holl wledydd y DU i sicrhau bod llyfr statud gweithredol ar ddiwedd y cyfnod pontio. Yr unig ddewis arall fyddai ei gwneud yn ofynnol i ddeddfwriaeth sylfaenol fynd drwy Senedd Cymru a chael ei deddfu erbyn diwedd y flwyddyn, ac ni fyddai hynny'n ddefnydd cymesur o amser ac adnoddau. At hynny, mae gwneud y diwygiadau canlyniadol angenrheidiol mewn un offeryn yn helpu i wneud y gyfraith yn fwy hygyrch yn ystod y cyfnod hwn o newid.

Cyfrannodd swyddogion Llywodraeth Cymru at y gwaith o ddrafftio'r OS ac mae'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd wedi ysgrifennu at Ganghellor Dugiaeth Caerhirfryn i ddweud y dylid bod wedi ceisio cydsyniad ffurfiol.

Fodd bynnag, mae Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol yn cael ei osod a bydd cyfle i'r Senedd gydsynio i'r newidiadau technegol i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019.

**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD
DATGANOLEDIG**

**200 - Rheoliadau Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (Addasiadau
Canlyniadol) (Ymadael â'r UE) 2020**

Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 21 Hydref 2020

Sifftio

A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU?	Na fydd
Gweithdrefn:	Cadarnhaol drafft
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin	Amh
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Amh
Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU	Amh
Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C:	Papur 20
Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol)	SICM(5)38
Gweithdrefn graffu	
Canlyniad y broses sifftio	Amh
Gweithdrefn	Cadarnhaol drafft
Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol	Anhysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin	Anhysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	27/10/20

Cefndir

Bwriedir y bydd y Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU o dan adran 23 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ac adran 41 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020.

Crynodeb

Amcan yr OS yw sicrhau bod llyfr statud y DU yn gweithio'n gydlynol ac yn effeithiol yn dilyn diwedd y cyfnod pontio. Mae'n egluro sut y dylid dehongli rhai termau, gan gynnwys diffiniadau sy'n ymwneud â'r UE, mewn deddfwriaeth ddomestig yn dilyn diwedd y cyfnod pontio. Mae'r OS yn diwygio Deddf Dehongli 1978 a'r Deddfau Dehongli cyfatebol a basiwyd gan y deddfwrfeydd datganoledig (gan gynnwys Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019) mewn perthynas â dehongli cyfeiriadau at y "gyfraith berthnasol o ran y cytundeb gwahanu". Mae'r OS hefyd yn

diwygio Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 i ddarparu ar gyfer sut y dylid darllen cyfeiriadau presennol at offerynnau'r UE sy'n rhan o'r gyfraith berthnasol o ran y cytundeb gwahanu a sut y dylid darllen cyfeiriadau presennol nad ydynt yn newidiadwy at ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE yn dilyn diwedd y cyfnod pontio.

Mae'r OS yn gwneud darpariaethau dehongli newydd yng ngoleuni Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2020 i gael gwared ar ansicrwydd ynghylch pa fersiwn o offeryn yr UE sy'n berthnasol, ac mae'n darparu glòs cyffredinol i sicrhau y cymhwysir y dehongliad cywir o offeryn yr UE.

Mae'r OS hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Reoliadau Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (Addasiadau Canlyniadol a Diddymiadau a Dirymiadau) (Ymadael â'r UE) 2019 (Rheoliadau 2019) a diddymiadau technegol i ddarpariaethau diangen mewn deddfwriaeth sylfaenol sy'n deillio o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael).

Datganiad gan Lywodraeth Cymru

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 2 Tachwedd 2020 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Cynnig cydsyniad o dan Reol Sefydlog 30A.10

Gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn ar 2 Tachwedd 2020.

Disgwylir i gynnig i drafod y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol gael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 17 Tachwedd 2020.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Rheoliadau Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynnyrch Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2020

DYDDIAD 21 Hydref 2020

GAN Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

OS a osodwyd yn Senedd y DU, sy'n diwygio is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig

Rheoliadau Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynnyrch Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2020

Mae Rheoliadau 2020 yn gwneud cywiriadau technegol, lle bo'u hangen, i gyfraith uniongyrchol yr UE a ddargedwir ac Offerynnau Statudol sydd eisoes wedi'u gwneud ac sy'n ymwneud ag Ymadael â'r UE (OSau Ymadael â'r UE) o dan adrannau 8, 8B ac 8C Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 a pharagraff 21 o Atodlen 7 y Ddeddf honno. Mae'r materion y mae Rheoliadau 2020 yn delio â nhw yn ymwneud â Chyd-drefniadaeth Marchnadoedd Amaethyddol ("CMO") a'u bwriad yw sicrhau bod darpariaethau penodol o fewn y CMO yn gweithio'n effeithiol ar ôl diwrnod cwblhau'r Cyfnod Gweithredu.

Y CMO yw'r fframwaith ar gyfer rhedeg a gweinyddu Cyd-drefniadaeth y Marchnadoedd Amaethyddol ac mae'n rhan o golofn 1 y Polisi Amaethyddol Cyffredin ("PAC"). Sefydlwyd y CMO fel ffordd o gwrdd ag amcanion y PAC (Erthygl 40 y Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd) ac yn arbennig sefydlogi marchnadoedd, sicrhau safon byw deg i gynhyrchwyr amaethyddol a chynyddu cynhyrchiant amaethyddol. Dros amser, ehangwyd ei gwmpas i ddarparu pecyn arfau sy'n galluogi'r UE i reoli anwadalwch y farchnad, cymell cydweithio rhwng cynhyrchwyr amaethyddol a'u gallu i gystadlu a hwyluso masnach.

O fewn y CMO, mae Rheoliadau 2020 yn delio hefyd â materion sy'n ymwneud yn benodol â bwyd organig. Mae'r sector organig yn cael ei reoleiddio'n llym yn y DU a gwledydd eraill yr UE gan Reoliad (CE) rhif 834/2007 y Cyngor a Rheoliadau (CE) rhifau 889/2008 ac 1235/2008 y Comisiwn. Mae'r rheoliadau'n pennu'r gofynion ar gyfer cynhyrchu, prosesu, labelu a mewnfario cynnyrch organig, a'r system archwilio y mae'n rhaid wrthynt i sicrhau

bod y gofynion yn cael eu bodloni. Mae'r rheoliadau'n ymwneud â bwyd a phorthiant organig, deunydd lluosogi llysiuol organig a hadau organig i dyfu ohonynt.

Mae'r offeryn hwn yn diwygio deddfwriaeth yr UE a ddargedwir ac offeryn statudol y DU sy'n ymwneud â chynnyrch organig o fewn y Gyd-drefniadaeth Marchnadoedd (CMO), sef maes sydd ym marn Defra yn gymhwysedd a ddargedwir. Dylid ei ddarllen ar y cyd ag OS arall a gynigir gan y DU sy'n ymwneud â'r CMO, sef yn benodol cynhyrchu organig mewn cymhwysedd datganoledig. Gosodwyd Rheoliadau Cynnyrch Organig (Cynhyrchu a Rheoli) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020 ar 15 Hydref 2020.

Mae Rheoliadau 2020 yn diwygio'r deddfwriaeth ganlynol

Deddfwriaeth Ewropeaidd

- Rheoliad (EC) 1235/2008 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer gweithredu Rheoliad y Cyngor (CE) rhif 834/2007 o ran trefnu mewnforio cynnyrch organig o drydydd gwledydd.
- Rheoliad (CE) 1295/2008 ar fewnforio hopys o drydydd gwledydd.
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (CE) 2016/1237 sy'n ategu Rheoliad (UE) rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas â'r rheolau ar gyfer cymhwyso system y trwyddedau mewnforio ac allforio ac sy'n ategu Rheoliad(UE) rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas â'r rheolau ar ollwng a fforffedu gwarantiau a roddir ar gyfer trwyddedau o'r fath.

Deddfwriaeth ddomestig

- Rheoliadau Cynhyrchu Organig (Rheoli Mewnforion) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol a'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019;
- Rheoliadau Amaethyddiaeth (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019,
- Rheoliadau Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Trefniadau Trosiannol etc.) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau Trwyddedau Mewnforio ac Allforio (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019

Unrhyw effaith y gall yr offeryn statudol ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd Cymru a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru o'r farn bod Rheoliadau 2020 yn cynnwys darpariaethau sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, ac ni ddylid rhoi'r swyddogaethau cysylltiedig felly i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig.

Mae DEFRA o'r farn bod y diwygiadau i Reoliadau 2020 yn ymdrin â materion a ddargedwir. Ar sail hynny, mae DEFRA yn bwriadu trosglwyddo swyddogaethau amrywiol i'r Ysgrifennydd Gwladol.

Diben y diwygiadau

Mae Rheoliadau'r UE a ddargedwir yn ymwneud â Chyd-drefniadaeth y Marchnadoedd Amaethyddol ("CMO"), is-ddeddfwriaeth ddomestig sy'n rhoi deddfwriaeth yr UE sy'n ymwneud â'r CMO ar waith ac is-ddeddfwriaeth ddomestig sydd ei hun yn diwygio deddfwriaeth yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â CMO, er mwyn iddi allu gweithio'n effeithiol ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

Bydd y diwygiadau'n cywiro deddfwriaeth yr UE a ddargedwir yn unol â Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytuniad Ymadael) 2020), i sicrhau bod Protocol Gogledd Iwerddon yn cael ei weithredu ac i gywiro amwyseddau, anghysonderau a gwallau teipograffyddol er mwyn i'r offerynnau allu gweithio fel y'u bwriadwyd ar ôl y cyfnod pontio.

Mae'r offeryn yn gwneud darpariaethau mewn perthynas â chynhyrchu organig. Bydd yn diwygio cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â chynhyrchu organig ac is-ddeddfwriaeth ddomestig sydd ei hun yn diwygio deddfwriaeth yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â chynhyrchu organig. Bydd y diwygiadau'n sicrhau cysondeb â Phrotocol Gogledd Iwerddon a bod darpariaethau yn Rheoliad (CE) rhif 1235/2008 yn gweithio'n effeithiol.

Mae'r offeryn hwn yn gwneud y cywiriadau priodol i gyfraith yr UE a ddargedwir i sicrhau bod rheolau'r CMO yn gweithredu'n effeithiol ar ddiwedd y cyfnod pontio. Mae'r diwygiadau hyn yn cynnwys cywiriadau i OSau Ymadael â'r UE blaenorol. Y bwriad wrth ddiwygio cyfraith yr UE a ddargedwir yw sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn parhau mor agos i'r system gyfredol â phosibl. Technegol yw'r newidiadau'n bennaf.

Mae'r offeryn hwn yn gwneud nifer o newidiadau, er enghraifft:

- cywiro cyfeiriadau afraid fel 'the Union' a 'the Comission' trwy roi'r term 'Great Britain' yn eu lle, a chywiro amwyseddau ac anghysonderau i'w alinio â gweithredu

Protocol Gogledd Iwerddon. Bwriad y diwygiadau hyn yw rhoi eglurder i randdeiliaid ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu ynghylch y gofynion ar gyfer nwyddau a osodir yn y farchnad ym Mhrydain Fawr ac a symudir i Ogledd Iwerddon;

- diwygiadau i is-ddeddfwriaeth ddomestig a deddfwriaeth yr UE a ddargedwir, a ddrafftwyd ar gyfer y DU yn gyfan yn hytrach nag ar gyfer Prydain Fawr yn unig, i ddileu cyfeiriadau at Ogledd Iwerddon lle bo angen, er mwyn iddynt barhau wedi'u halinio â'r UE;
- dileu hen gyfeiriadau at 'exit day' a chywiro darpariaethau trosiannol iddynt gyfeirio at 'IP completion day', er mwyn i'r darpariaethau hyn barhau'n ystyrlon a pharhau i weithredu fel y'u bwriadwyd ar ôl y cyfnod gweithredu;
- er mwyn sicrhau cysondeb â Model Gweithredu Ffiniau Llywodraeth y DU, caiff diwygiadau eu gwneud i ddarpariaethau trosiannol ynghylch mewnfario hopys a chynnyrch hopys. Caiff trefniadau trosiannol sy'n ymwneud â'r gofynion hysbysu wrth fewnfario cig eidion a chig llo o drydydd gwledydd eu hepgor gan fod Llywodraeth y DU o'r farn nad oes eu hangen bellach;
- gwneud cywiriadau er mwyn sicrhau y gellir parhau i fewnfario a masnachu bwyd a phorthiant organig, deunydd lluosogi llysieuol organig a hadau organig i dyfu ohonynt.
- cywiro amwyseddau, anghysonderau a gwallau teipograffyddol fel bod yr offerynnau'n gallu gweithredu fel y'u bwriadwyd ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

Mae Rheoliadau 2020 a'u Memorandwm Esboniadol, sy'n esbonio effeithiau'r diwygiadau, ar gael yma: <https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2020/9780348213317>

Ymateb i Lywodraeth y DU

Safbwynt Llywodraeth Cymru yw bod amaethyddiaeth a'r PAC yn faterion datganoledig ac nad ydynt yn berthnasol i'r materion a ddargedwir o dan unrhyw bennawd yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth y DU yn cytuno gan gredu bod pwnc Rheoliadau 2020 yn fater wedi'i ddargadw. Nid yw Llywodraeth y DU felly wedi gofyn i Weinidogion Cymru am eu cydsyniad.

Barn Llywodraeth Cymru yw bod y swyddogaethau uchod yn ymwneud yn uniongyrchol ag amcanion y CMO o ran gwella cynhyrchiant y sector amaethyddol a gwneud cynnyrch cynradd yn fwy cystadleuol yn y farchnad. Mae pwnc amaethyddiaeth a'r PAC o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru (h.y. wedi'i ddatganoli). O dan delerau'r Cytundeb Rhynglywodraethol, dylid bod wedi gofyn i Weinidogion Cymru am eu cydsyniad cyn gosod Rheoliadau 2020.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU i'w hysbysu o'u barn nad yw'n briodol i Weinidogion Llywodraeth y DU wneud penderfyniadau unochrog ar faterion sy'n cael effaith uniongyrchol ar gymhwysedd datganoledig ac nad yw Gweinidogion Cymru'n bwriadu rhoi eu cydsyniad unochrog i'r offeryn statudol hwn.

**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD
DATGANOLEDIG**

**191 - Rheoliadau Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn
Cynhyrchion Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE)
2020**

Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 19 Hydref 2020

Sifftio

A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU?	Na fydd
Gweithdrefn:	Cadarnhaol drafft
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin	Amh
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Amh
Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU	Amh
Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C:	Papur 22
Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol)	Dim angen

Gweithdrefn graffu

Canlyniad y broses sifftio	Amh
Gweithdrefn	Cadarnhaol drafft
Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol	Anhysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin	Anhysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	3 Tachwedd 2020

Cefndir

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adrannau 8, 8B ac 8C o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi.

Crynodeb

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd ("UE") a ddargedwir yn ymwneud â Chyd-drefniadaeth Marchnadoedd Amaethyddol ("CMO"), deddfwriaeth eilaidd ddomestig sy'n gweithredu deddfwriaeth yr UE mewn perthynas â'r Prif Swyddog Meddygol, ac is-ddeddfwriaeth ddomestig bresennol sydd, ynddi ei hun, yn diwygio deddfwriaeth CMO yr UE a ddargedwir, i'w galluogi i weithio'n effeithiol yn dilyn diwedd y cyfnod pontio.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r deddfwriaeth a ganlyn sy'n gymwys i Gymru:

Deddfwriaeth yr UE a ddargedwir

- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1235/2008 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer gweithredu Rheoliad y Cyngor (CE) Rhif 834/2007 o ran trefnu mewnfario cynnyrch organig o drydydd gwledydd
- Rheoliad y Comisiwn (CE) Rhif 1295/2008 dyddiedig 18 Rhagfyr 2008 ar fewnfario hopys o drydydd gwledydd
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (CE) Rhif 2016/1237 sy'n ategu Rheoliad (UE) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran y rheolau ar gyfer cymhwyso system y trwyddedau mewnfario ac allfario ac sy'n ategu Rheoliad (UE) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran y rheolau ar ollwng a fforffedu gwarantau a roddir ar gyfer trwyddedau o'r fath.

Is-ddeddfwriaeth ddomestig

- Rheoliadau Cynhyrchu Organig (Rheoli Mewnfario) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol a'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau Amaethyddiaeth (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Trefniadau Trosiannol etc.) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau Trwyddedau Mewnfario ac Allfario (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019

Bydd y diwygiadau'n cywiro deddfwriaeth yr UE a ddargedwir yn unol â Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2020), er mwyn sicrhau bod Protocol Gogledd Iwerddon yn cael ei weithredu ac i gael gwared ar amwysedd, anghysondebau a chamgymeriadau argraffyddol fel bod yr offerynnau'n gallu gweithredu yn ôl y bwriad yn dilyn y cyfnod pontio.

Datganiad gan Lywodraeth Cymru

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol wedi gwneud y sylwadau a ganlyn mewn perthynas â datganiad Llywodraeth Cymru, dyddiedig 21 Hydref 2020, am effaith y Rheoliadau hyn:

1. Mae gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ddwy farn gyferbyniol ynghylch a yw'r Rheoliadau hyn yn cynnwys

darpariaethau sydd o fewn cwmpas cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Gan nad yw Llywodraeth y DU o'r farn bod y mater yn un a gedwir yn ôl, nid yw wedi ceisio cydsyniad Llywodraeth Cymru. Safbwynt Llywodraeth Cymru yw bod amaethyddiaeth a'r Polisi Amaethyddol Cyffredin yn faterion datganoledig ac nad ydynt yn faterion a ddargedwir o dan unrhyw bennod yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Nodir bod y Memorandwm Esboniadol drafft yn nodi "*Defra has worked collaboratively with the Devolved Administrations to create these instruments and has fully involved the Devolved Administrations in discussion on the measures in these instruments, in relation to both reserved and devolved matters.*"

Mae datganiad Llywodraeth Cymru yn egluro bod Gweinidogion Cymru wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU i'w hysbysu o farn Llywodraeth Cymru nad yw'n briodol i Weinidogion Llywodraeth y DU yn unig benderfynu ar faterion sy'n effeithio'n uniongyrchol ar feysydd lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli ac nid oes bwriad gan Weinidogion Cymru roi cydsyniad unochrog ar gyfer yr Offeryn Statudol hwn.

2. Heblaw am gyfeirio at amaethyddiaeth a'r Polisi Amaethyddol Cyffredin, sy'n faterion nas cedwir yn ôl o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac sydd felly wedi'u datganoli, nid yw datganiad Llywodraeth Cymru yn nodi pa rai o bwerau deddfwriaethol penodol y Senedd neu bwerau gweithredol Gweinidogion Cymru sy'n cael eu heffeithio gan yr offeryn hwn. Mae'r cynghorwyr cyfreithiol yn argymhell y dylid gofyn am eglurhad ynghylch pa bwerau datganoledig yr effeithir arnynt.

Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)

Gan ei bod yn aneglur o ddatganiad Llywodraeth Cymru, dyddiedig 21 Hydref 2020, beth fydd effaith bosibl y Rheoliadau ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru, nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol wedi gallu asesu a oes unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Rheoliadau Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2020

DYDDIAD 21 Hydref 2020

GAN Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Rh30C – OS a osodwyd yn Senedd y DU sy'n diwygio deddfwriaeth mewn maes datganoledig

Rheoliadau Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2020

Mae Rheoliadau 2020 yn diwygio'r ddeddfwriaeth ganlynol sy'n gymwys i Gymru:

Deddfwriaeth Ewropeaidd sy'n Uniongyrchol Gymwys

- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1760/2000 sy'n sefydlu system ar gyfer adnabod a chofrestru anifeiliaid buchol ac ynghylch labelu cig eidion a chynhyrchion cig eidion
- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1850/2006 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer ardystio hopys a chynhyrchion hopys
- Rheoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu cyd-drefniadaeth ar gyfer y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol

Rheoliadau Domestig

Rheoliadau Ardystio Hopys 1979

Rheoliadau'r Fframwaith Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol, etc.) (Ymadael â'r UE) 2019

Rheoliadau Mesurau'r Farchnad (Safonau Marchnata) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

Rheoliadau Mesurau'r Farchnad (Darpariaethau Amrywiol) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

Rheoliadau Amaethyddiaeth (Swyddogaethau Deddfwriaethol) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2019

Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin a Chyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019

Rheoliadau Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol a'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Diwygiadau Amrywiol etc.) (Ymadael â'r UE) 2019

Lloegr yn Unig

Rheoliadau Wyau a Chywion (Lloegr) 2009

Gogledd Iwerddon yn Unig

Rheoliadau Olew Olewydd (Safonau Marchnata) 2014 mewn perthynas â Gogledd Iwerddon

Rheoliadau Ardystio Hopys 1979 mewn perthynas â Gogledd Iwerddon

Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Mae Rheoliadau 2020 yn gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r farchnad gyffredin ar gyfer cynhyrchion amaethyddol gan gynnwys cynhyrchion organig.

Mae Rheoliadau 2020 yn ymwneud â swyddogaethau a drosglwyddwyd ac y cydsyniwyd iddynt yn y ddeddfwriaeth Ymadael â'r UE a amlinellir uchod. Mae'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud ag ymadael â'r UE yn galluogi Gweinidogion Cymru i arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru yn ddilyffethair ac i Weinidogion Cymru roi caniatâd i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer y swyddogaethau hynny mewn perthynas â Chymru.

Diben y diwygiadau

Mae Rheoliadau 2020 yn diwygio deddfwriaeth a ddargedwir yr Undeb Ewropeaidd ("UE") sy'n ymwneud â Chyd-drefniadaeth y Marchnadoedd Amaethyddol ("CMO"), is-ddeddfwriaeth ddomestig sy'n gweithredu deddfwriaeth yr UE mewn perthynas â'r CMO, ac is-ddeddfwriaeth ddomestig bresennol sydd ei hun yn diwygio deddfwriaeth CMO yr UE, i'w alluogi i weithio'n effeithiol ar ôl diwrnod Cwblhau'r Cyfnod Gweithredu.

Mae'r offeryn hwn yn gwneud newidiadau gweithredol o dan adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi, ac adran 41(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 i'r offerynnau y cyfeirir atynt uchod. Yn benodol, i sicrhau bod Protocol ym 18 o'r Ffynhonnau yn cael ei weithredu ac i ddileu

amwysedd, anghysondebau a chamgymeriadau teipograffyddol fel y gall yr offerynnau weithredu fel y bwriadwyd yn dilyn diwrnod cwblhau'r Cyfnod Gweithredu. Bydd diwygiadau hefyd yn cael eu gwneud i'r darpariaethau trosiannol sy'n ymwneud â mewnfario hopys a chynhyrchion hopys, gofynion hysbysu ar gyfer mewnfario cig eidion a chig llo o drydydd gwledydd a gofynion marcio ar gyfer deor wyau a chywion sy'n cael eu mewnfario UE.

Mae Rheoliadau 2020 a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi manylion tarddiad, diben ac effaith y diwygiadau, ar gael yma:

<https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2020/9780348213386>

Pam y rhoddwyd caniatâd

Rhoddwyd caniatâd i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran ac ar ran Cymru am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd a hwylustod ac i sicrhau cysondeb a chydlynid y llyfr statud. Mae'r diwygiadau wedi'u hystyried yn llawn ac nid oes gwahaniaeth mewn polisi. Nod y gwelliannau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i fod yn weithredol ar ddiwedd y cyfnod gweithredu.

**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD
DATGANOLEDIG**

**192 - Rheoliadau Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn
Cynhyrchion Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE)
(Rhif 2) 2020**

Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 19 Hydref 2020

Sifftio

Yn destun sifftio yn Senedd y DU?	Nac ydy
Gweithdrefn:	Cadarnhaol drafft
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin	Amh
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Amh
Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU	Amh
Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C:	Papur 24
Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol)	Nid yw'n ofynnol
Gweithdrefn graffu	
Canlyniad y broses sifftio	Amh
Gweithdrefn	Cadarnhaol drafft
Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol	Anhysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin	Anhysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	3 Tachwedd 2020

Cefndir

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8 ac adran 8C o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi.

Crynodeb

Mae'r Rheoliadau 2020 hyn yn diwygio'r ddeddfwriaeth a ganlyn sy'n gymwys i Gymru:

Deddfwriaeth Ewropeaidd sy'n Uniongyrchol Gymwys (mewn perthynas â Chyd-drefniadaeth Marchnadoedd Amaethyddol ("CMO"))

- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1760/2000 sy'n sefydlu system ar gyfer adnabod a chofrestru anifeiliaid buchol ac ynghylch labelu cig eidion a chynhyrchion cig eidion.
- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1850/2006 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer ardystio hopys a chynhyrchion hopys.
- Rheoliad (UE) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd ar gyd-drefniadaeth ar gyfer y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol.

Rheoliadau Domestig (sy'n gweithredu deddfwriaeth yr UE mewn perthynas â Chyd-drefniadaeth ar gyfer Marchnadoedd Amaethyddol ac sydd hefyd yn diwygio deddfwriaeth a ddargedwir yr UE - Cyd-drefniadaeth ar gyfer Marchnadoedd Amaethyddol)

- Rheoliadau Ardystio Hopys 1979
- Rheoliadau'r Fframwaith Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol, etc.) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau Mesurau'r Farchnad (Safonau Marchnata) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau Mesurau'r Farchnad (Darpariaethau Amrywiol) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau Amaethyddol (Swyddogaethau Deddfwriaethol) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2019
- Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin a Chyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol a'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Diwygiadau Amrywiol, etc.) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2019

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud newidiadau gweithredadwy i'r offerynnau y cyfeirir atynt uchod. Yn benodol, er mwyn sicrhau bod Protocol Gogledd Iwerddon yn cael ei weithredu ac i gael gwared ar amwysedd, anghysondebau a chamgymeriadau argraffyddol fel y gall yr offerynnau weithredu fel y bwriadwyd ar ôl diwrnod cwblhau'r Cyfnod Gweithredu. Gwneir newidiadau hefyd i'r darpariaethau trosiannol sy'n ymwneud â mewnfario hopys a chynhyrchion hopys, â gofynion hysbysu ar gyfer mewnfario cig eidion a chig llo o drydydd gwledydd ac â gofynion marcio ar gyfer wyau deor a chywion a fewnforir o'r UE.

Datganiad gan Lywodraeth Cymru

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 21 Hydref 2020, ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol ar y Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Rheoliadau Glanedyddion (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020

DYDDIAD 21 Hydref 2020

GAN Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Offeryn Statudol sy'n diwygio is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig

Rheoliadau Glanedyddion (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020

Mae Rheoliadau 2020 yn diwygio'r ddeddfwriaeth a ganlyn:

Deddfwriaeth yr UE

- Rheoliad (EC) Rhif 648/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 31 Mawrth 2004 ar lanedyddion.

Deddfwriaeth ddomestig

- Rheoliadau Glanedyddion (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019;
- Rheoliadau Glanedyddion (Diogelu) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019; a
- Rheoliadau Glanedyddion 2010.

Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Nid yw Rheoliadau 2020 yn effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

Mae'r diwygiadau yn sicrhau bod y Deyrnas Unedig (DU) yn cyflawni ei rhwymedigaethau o dan y Protocol ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon i'r cytundeb ymadael ("y Protocol") ac i roi sail gyfreithiol i'r Protocol mewn perthynas â Rheoliad (EC) Rhif 648/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 31 Mawrth 2004 ar lanedyddion, fel sy'n ofynnol ar ddiwedd y Cyfnod Gweithredu.

Mae'r diwygiadau hyn hefyd yn rhoi effaith i fynediad di-rwyrstr i lanedyddion o Ogledd Iwerddon i mewn i Brydain Fawr.

Diben y diwygiadau

Mae Rheoliadau 2020 yn diwygio Rheoliadau Glanedyddion (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019; Rheoliadau Glanedyddion (Diogelu) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019; a Rheoliadau Glanedyddion 2010.

Mae'r Protocol yn ei gwneud yn ofynnol bod Rheoliad (EC) Rhif 648/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 31 Mawrth 2004 ar lanedyddion yn parhau i fod yn gymwys i Ogledd Iwerddon er mwyn diffinio'n glir raddfa diriogaethol deddfwriaeth yr UE a ddargedwir ar ddiwedd y Cyfnod Gweithredu.

Mae Rheoliadau 2020 a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig sy'n manylu tarddiad, diben ac effaith y diwygiadau i'w gweld yma:

<https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2020/9780348213331>

Pam rhoddwyd cysyniad

Mae cysyniad wedi'i roi i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran, ac ar ran, Cymru, am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd a hwylustod ac i sicrhau cysondeb â'r llyfr statud. Mae'r diwygiadau wedi'u hystyried yn llwyr; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD
DATGANOLEDIG**

193 - Rheoliadau Glanedyddion (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020

Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 19 Hydref 2020

Sifftio

Yn destun gwaith sifftio yn Senedd y DU?	Nac ydynt
Y weithdrefn:	Cadarnhaol drafft
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin	Amherthnasol
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Amherthnasol
Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU	Amherthnasol
Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C:	Papur 26
Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol)	Nid yw'n ofynnol

Gweithdrefn graffu

Canlyniad y broses sifftio	Amherthnasol
Y weithdrefn	Cadarnhaol drafft
Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol	Anhysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin	Anhysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	3 Tachwedd 2020

Cefndir

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8(1) ac 8C o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi.

Crynodeb

Diben y Rheoliadau hyn yw sicrhau bod y DU yn cyflawni ei rhwymedigaethau o dan y Protocol ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon mewn perthynas â Rheoliad (EC) Rhif 648/2004 ar lanedyddion ("Rheoliad yr UE ar Lanedyddion"). Bydd y Rheoliadau'n sicrhau bod Rheoliad yr UE ar Lanedyddion yn gymwys yng Ngogledd Iwerddon ar ddiwedd y Cyfnod Gweithredu ar 31 Rhagfyr 2020, fel sy'n ofynnol yn unol â'r Protocol. Mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu y parheir i roi mynediad i lanedyddion, neu syrffactyddion ar gyfer glanedyddion, o Ogledd Iwerddon at farchnad Prydain Fawr.

Datganiad gan Lywodraeth Cymru

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 21 Hydref 2020 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol ar y Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Rhywogaethau Goresgynol Estron
(Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020

DYDDIAD 23 Hydref 2020

GAN Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

OS a osodwyd yn Senedd y DU, sy'n diwygio is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig

Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Rhywogaethau Goresgynol Estron (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020

Mae Rheoliadau 2020 yn diwygio'r ddeddfwriaeth a ganlyn:

Deddfwriaeth yr UE

- Rheoliad (CE) rhif 1/2005 y Cyngor o 22 Rhagfyr 2004 ar ddiogelu anifeiliaid wrth eu cludo a gweithrediadau cysylltiedig;
- Rheoliad (CE) rhif 1255/97 y Cyngor o 25 Mehefin 1997 sy'n ymwneud â meini prawf y Gymuned ar gyfer safleoedd torri'r daith;
- Rheoliad (CE) rhif 1099/2009 y Cyngor o 24 Medi 2009 ar ddiogelu anifeiliaid adeg eu lladd;
- Rheoliad (CEE) rhif 3254/91 y Cyngor o 4 Tachwedd 1991 sy'n gwahardd defnyddio trapiau dal coesau;
- Rheoliad (CE) 1772/94 y Comisiwn ar osod darpariaethau ynghylch cyflwyno crwyn a nwyddau wedi'u gweithgynhyrchu i'r Gymuned o rywogaethau anifeiliaid gwyllt penodol;
- Rheoliad (CE) 35/97 y Comisiwn ar osod darpariaethau ynghylch ardystio crwyn a nwyddau a ddaw o dan Rheoliad (CEE) rhif 3254/91 y Cyngor;
- Penderfyniad 97/602/EC y Cyngor (fel y'i diwygiwyd gan Benderfyniad 98/188/CE a Phenderfyniad 98/596/CE y Comisiwn) sy'n darparu 'rhestr werdd' o wledydd cymeradwy y caniateir mewnforio crwyn a nwyddau wedi'u gweithgynhyrchu o rywogaethau anifeiliaid gwyllt penodol ohonynt i'r UE; a
- Rheoliad (UE) rhif 1143/2014 o Senedd Ewrop a'r Cyngor o 22 Hydref 2014 ar atal a rheoli cyflwyno a lledaenu rhywogaethau goresgynol estron.

Is-ddeddfwriaeth ddomestig

- Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019;
- Rheoliadau Anifeiliaid (Swyddogaethau Deddfwriaethol) (Ymadael â'r UE) 2019;
- Rheoliadau Trapiau Dal Coesau a Mewnforio Crwyn (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019;
- Rheoliadau'r Amgylchedd a Bywyd Gwylt (Swyddogaethau Deddfwriaethol) (Ymadael â'r UE) 2019;
- Rheoliadau Rhywogaethau Estron Goresgynol (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019;
- Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid, Rhywogaethau Estron Goresgynol, Hawliau Bridwyr Planhigion a Hadau (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019;
- Rheoliadau Pysgodfeydd (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019;
- Rheoliadau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin a Dyframaethu (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019

Unrhyw effaith y gall yr offeryn statudol ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Nid yw Rheoliadau 2020 yn effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru na chymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

Mae Rheoliadau 2020 yn gwneud cywiriadau a diwygiadau technegol i amrywiaeth o is-ddeddfwriaeth ddomestig a deddfwriaeth uniongyrchol yr Undeb Ewropeaidd (UE) a ddargedwir i sicrhau bod y Deyrnas Unedig (DU) yn cwrdd â'i rhwymedigaethau o dan Brotocol Iwerddon/Gogledd Iwerddon i'r cytundeb ymadael ("y Protocol") mewn perthynas â Lles Anifeiliaid, Trapiau Dal Coesau a Mewnforio Crwyn a Rhywogaethau Goresgynol Estron.

Diben y diwygiadau

Cafodd problemau blaenorol o ran ymarferoldeb cyfraith yr UE a ddargedwir a deddfwriaeth ddomestig mewn perthynas â Lles Anifeiliaid, Trapiau Dal Coesau a Mewnforio Crwyn a Rhywogaethau Goresgynol Estron eu datrys mewn offerynnau eraill yn 2018 a 2019. Fodd bynnag, mae angen rhagor o gywiriadau i wneud y ddeddfwriaeth hon yn gyson â pholisi ehangach y llywodraeth o ran ymadawriad yr UE â'r UE ac i gwrdd â'i rhwymedigaethau o dan y Protocol.

Mae'r diwygiadau'n sicrhau y bydd deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir a'r ddeddfwriaeth ddomestig dan sylw'n gweithio'n effeithiol ar ddiwedd y Cyfnod Gweithredu ac y bodlonir yr un safonau o ran Lles Anifeiliaid, Trapiau Dal Coesau a Mewnforio Crwyn a Rhywogaethau Goresgynol Estron.

Mae Rheoliadau 2020 a'u Memorandwm Esboniadol, sy'n gosod manylion tarddiad, diben ac effaith y diwygiadau, ar gael yma:

<https://statutoryinstruments.parliament.uk/timeline/mrrlHiHA/SI-2020/>

Pam y cafodd cydsyniad ei roi

Mae cydsyniad wedi'i roi i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn mewn cysylltiad â Cymru ac ar ei rhan er sicrhau effeithlonrwydd a hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi'u hystyried yn llawn; nid yw'r diwygiadau'n newid polisi. Gwnaed hyn yn unol â'r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunwyd arnynt gan Is-bwyllgor y Cabinet ar y Cyfnod Pontio Ewropeaidd ym mis Mai.

**GWEINIDOGION Y DEYRNAS UNEDIG SY'N GWEITHREDU MEWN
MEYSYDD DATGANOLEDIG**

**195 - Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Rhywogaethau Estron Goresgynnol
(Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020**

Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 21 Hydref 2020

Sifftio

Yn destun gwaith sifftio yn Senedd y DU?	Nac ydynt
Gweithdrefn:	Cadarnhaol drafft
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin	Amherthnasol
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Amherthnasol
Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU	Amherthnasol
Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C:	Papur 28
Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol)	Dim angen

Gweithdrefn graffu

Canlyniad y broses sifftio	Amherthnasol
Gweithdrefn	Cadarnhaol drafft
Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol	Anhysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin	Anhysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	3 Tachwedd 2020

Cefndir

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adrannau 8(1) ac 8C(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi.

Crynodeb

Diben y Rheoliadau hyn yw sicrhau bod y DU yn cyflawni ei rhwymedigaethau o dan Brotocol Iwerddon/Gogledd Iwerddon ("y Protocol"). Mae'r Rheoliadau'n gwneud cywiriadau a diwygiadau technegol i amrywiaeth o is-ddeddfwriaeth ddomestig a deddfwriaeth uniongyrchol yr Undeb Ewropeaidd (UE) a ddargedwir i sicrhau bod y Deyrnas Unedig (DU) yn cyflawni ei rhwymedigaethau o dan y Protocol mewn perthynas â Lles Anifeiliaid, Trapiau Dal Coesau a Mewnforio Crwyn a Rhywogaethau Estron Goresgynnol.

Datganiad gan Lywodraeth Cymru

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 23 Hydref 2020, ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.



DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Rheoliadau Cynhyrchion Amaethyddol, Bwyd a Diod (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 20

DYDDIAD 23 Hydref 2020

GAN Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

RhS30C – Hysbysiad mewn Perthynas ag Offerynnau Statudol a wnaed gan Weinidogion y DU mewn meysydd datganoledig o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 na osodwyd gerbron y Senedd.

Rheoliadau Cynhyrchion Amaethyddol, Bwyd a Diod (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020

Y gyfraith sy'n cael ei diwygio

Deddfwriaeth Ddomestig

Rheoliadau Diodydd Gwirodol 2008

Rheolau Trefniadaeth y Tribiwnlysoedd (Tribiwnlys yr Haen Gyntaf) (Y Siambr Reoleiddio Gyffredinol) 2009

Rheoliadau Gwin 2011

Y Rheoliadau Cynlluniau Ansawdd (Cynhyrchion Amaethyddol a Bwyd)

Rheoliadau Marciau Masnach (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019

Rheoliadau Bwyd a Ffermio (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

Rheoliadau'r Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

Rheoliadau Bwyd a Diod, Meddyginiaethau a Gweddillion Milfeddygol (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019

Deddfwriaeth yr UE

Rheoliad y Comisiwn (CE) Rhif 2870/2000 ar 19 Rhagfyr 2000 sy'n nodi dulliau cyfeirio Cymunedol ar gyfer dadansoddi diodydd gwirodol.

Rheoliad (EC) Rhif 110/2008 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 15 Ionawr 2008.

Rheoliad (EU) Rhif 1151/2012 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 21 Tachwedd 2012.

Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 716/2013 ar 25 Gorffennaf 2013 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EC) Rhif 110/2008 Senedd Ewrop a'r Cyngor.

Rheoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 17 Rhagfyr 2013.

Rheoliad (EU) Rhif 251/2014 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 26 Chwefror 2014.

Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) Rhif 664/2014 ar 18 Rhagfyr 2013 sy'n ategu Rheoliad (EU) Rhif 1151/2012 Senedd Ewrop a'r Cyngor

Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 668/2014 ar 13 Mehefin 2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (UE) Rhif 1151/2012 Senedd Ewrop a'r Cyngor.

Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2018/273 ar 11 Rhagfyr 2017 sy'n ategu Rheoliad (UE) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor

Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2018/274 ar 11 Rhagfyr 2017 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (UE) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor

Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2019/33 ar 17 Hydref 2018 sy'n ategu Rheoliad (UE) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor

Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/34 ar 17 Hydref 2018 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor

Rheoliad (UE) 2019/787 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 17 Ebrill 2019.

Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2019/934 ar 12 Mawrth 2019 sy'n ategu Rheoliad (UE) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor

Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/935 ar 16 Ebrill 2019 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (UE) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor

Rheoliad (UE) 2019/1753 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 23 Hydref 2019

Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2020/198 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (UE) Rhif 251/2014 Senedd Ewrop a'r Cyngor

Unrhyw effaith y gall yr offeryn statudol ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru o'r farn bod Rheoliadau 2020 yn cynnwys darpariaethau sy'n rhoi swyddogaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn meysydd sydd o fewn cwrpas cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Bydd swyddogaethau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol yn ddilysffurdiol yn ystod y cyfnewid swyddogaethau un o Weinidogion y

Goron at ddibenion paragraff 11(2) o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ('GoWA'), sy'n cyfyngu ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i ddileu neu addasu swyddogaethau o'r fath heb ymgynghori â gweinidog perthnasol llywodraeth y DU.

Mae Rheoliadau 2020 hefyd yn cynnwys darpariaeth sy'n galluogi swyddogaethau a roddir i Weinidogion Cymru i fod yn arferadwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol o ran Cymru gyda chydysyniad Gweinidogion Cymru. At hynny, rhoddir rhai swyddogaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig, ond maent yn arferadwy o ran Cymru dim ond gyda chydysyniad Gweinidogion Cymru. Mae gan swyddogaethau botensial i gynnwys y gofynion cydsyniad yn Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru ac felly gallant gyfyngu o bosibl ar gymhwysedd y Senedd yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cynnal trafodaethau gyda Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru mewn perthynas â Gorchymyn o dan adran 109 o Ddeddf Llywodraeth Cymru i ddiwygio Atodlen 7B er mwyn negyddu'r cyfyngiad posibl ar gymhwysedd y Senedd yn y dyfodol.

Diben y diwygiadau

Mae Rheoliadau 2020 yn darparu ar gyfer gweinyddu a gorfodi dynodiadau daearyddol y DU yn ddomestig, a fydd yn darparu diogelwch cyfreithiol rhag dynwared pob cynnyrch a gydnabyddir gan y cynlluniau. Mae'r offeryn hwn hefyd yn creu rheoliadau gweithredol y DU i weinyddu a gorfodi safonau'r sector gwin a diodydd gwirodol ar ddiffiniad, disgrifiad, cyflwyniad a labelu.

Mae Rheoliadau 2020 hefyd yn cydgrynhoi (gyda diwygiad) yr offerynnau canlynol y mae Gweinidogion Cymru wedi cydsynio iddynt yn flaenorol:

- Ail-wneud darpariaeth (gyda diwygiadau) a gynhwysir yn wreiddiol yn Rheoliadau Cynhyrchion Amaethyddol, Bwyd a Diod (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 a osodwyd yn flaenorol gerbron Senedd y DU fel offeryn "gwneud cadarnhaol" brys. Gwnaed yr offeryn hwnnw a'i osod ar 14 Hydref 2019. Fodd bynnag, roedd angen cymeradwyo'r offeryn hwnnw drwy benderfyniad pob Tŷ Seneddol o fewn wyth diwrnod ar hugain gan ddechrau ar y diwrnod y gwnaed y Rheoliadau. Ni chafodd ei gymeradwyo gan y Senedd y DU o fewn y cyfnod hwnnw ac felly mae wedi peidio â chael effaith.
- Ail-wneud darpariaeth (gyda diwygiadau) a gynhwysir yn wreiddiol yn Rheoliadau Cynhyrchion Amaethyddol, Bwyd a Diod (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 a osodwyd yn flaenorol gerbron Senedd y DU fel offeryn "cadarnhaol" brys. Gwnaed yr offeryn hwnnw a'i osod ar 21 Hydref 2019. Fodd bynnag, roedd angen cymeradwyo'r offeryn hwnnw drwy benderfyniad pob Tŷ Seneddol o fewn wyth diwrnod ar hugain gan ddechrau ar y diwrnod y gwnaed y Rheoliadau. Ni chafodd ei gymeradwyo gan Senedd y DU o fewn y cyfnod hwnnw ac felly mae wedi peidio â chael effaith.

- Dirymu ac ail-wneud (gyda diwygiadau) elfennau o Reoliadau Bwyd a Ffermio (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019, Rheoliadau'r Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 a Rheoliadau Bwyd a Diod, Meddyginiaethau a Gweddillion Milfeddygol (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019.

Dynodiadau Daearyddol (GIs)

Ar hyn o bryd mae Rheoliadau'r UE yn darparu ar gyfer cofrestru a diogelu GIs yn y DU. Maent yn cynnwys i) cynhyrchion amaethyddol a bwydydd ii) gwinoedd iii) diodydd gwirodol a iv) gwinoedd aromatig.

Mae un ar bymtheg o gynhyrchion bwyd o Gymru wedi'u cofrestru o dan y Cynllun Ewropeaidd, gan gynnwys cig oen PGI o Gymru a chig eidion PGI o Gymru. Mae GI yn wobwr bwysig gan ei bod yn cael ei hystyried yn arwydd o ansawdd a all roi mwy o fudd economaidd i gynhyrchwyr i'w cynnyrch. Mae'r cynlluniau'n diogelu'n gyfreithiol rhag dynwared ar gyfer arbenigeddau rhanbarthol a thraddodiadol, y gellir gwarantu eu dilysrwydd a'u tarddiad. Mae hyn yn rhoi sicrwydd i ddefnyddwyr bod cynhyrchion yn ddilys ac yn galluogi cynhyrchwyr i hyrwyddo a marchnata eu cynnyrch yn well.

Hefyd, mae rheoliadau'r UE wedi rheoli'r rheolau diffinio, disgrifio, cyflwyno a labelu ar gyfer diodydd gwirodol, yn ogystal â'r diffiniad, disgrifiad, cyflwyniad, labelu a rheolau oenolegol ar gyfer gwinoedd a gwinoedd aromatig.

Wrth i'r DU ymadael â'r UE, mae'n hanfodol bod rheolau ar waith i barhau â'r amddiffyniad a roddir i'r cynhyrchion hyn gan y Rheoliadau UE hyn. O dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, caiff rheoliadau perthnasol yr UE eu trosi'n gyfraith y DU. Mae'r offeryn hwn yn diwygio'r rheoliadau hynny (a'r rheoliadau domestig presennol) ar gynlluniau GI a'r sectorau gwin a diodydd gwirodol. Bydd y diwygiadau a wneir gan yr offeryn hwn yn creu cynlluniau GI y DU sy'n gweithio, a rheoliadau y gellir eu gorfodi'n ddomestig yn y DU ar gyfer y sectorau gwin a diodydd gwirodol. Bydd hyn yn sicrhau bod y DU yn parhau i ddiogelu'r 86 o enwau cynnyrch o'r DU sydd wedi'u cofrestru fel GIs o dan gynlluniau'r UE ac yn parhau i gyflawni ei rhwymedigaethau o ran Sefydliad Masnach y Byd.

Mae'r diwygiadau a wneir gan yr offeryn hwn yn gwneud nifer o gywiriadau, er enghraifft:

- 1) Gweinyddir y cynlluniau GI fel cynlluniau'r DU, nid fel cynlluniau Ewropeaidd. Bydd pob cais gwybodaeth ddaearyddol yn mynd drwy un broses graffu a gwrthblaid yn y DU, yn hytrach na'r broses bresennol o ddau gam (bydd camau presennol yr Aelod-wladwriaethau a'r Comisiwn Ewropeaidd yn cael eu cyfuno'n un broses cynllun addasedig ar gyfer y DU);
- 2) Mae darpariaethau apelio yn cael eu cyflwyno o ganlyniad i'r ffaith bod y DU yn ymgymryd â chyfrifoldebau a swyddogaethau newydd, a oedd gynt yn perthyn i'r UE. Mae'r rhain yn caniatáu i'r rhai sydd â buddiant dilys apelio i Dribiwnlys yr

Haen Gyntaf lle maent yn anghytuno â phenderfyniadau a wneir wrth weinyddu'r cynllun;a

- 3) Mae'r offeryn yn paratoi'r ffordd ar gyfer creu a defnyddio logos GI newydd y DU, gan gynnwys caniatáu tair blynedd i GIs bwyd-amaeth presennol y DU gydymffurfio â'r gofyniad i ddefnyddio logo newydd y DU wrth fasnachu ym marchnad y DU.

Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith y diwygiadau, ar gael yma:

<https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2020/9780348214109>

Cydsyniad

Rhodddwyd caniatâd i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran ac ar ran Cymru am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Nid oes unrhyw wahaniaeth mewn polisi ar ôl ystyried y diwygiadau arfaethedig yn llawn ac yn ofalus, asesu'r cyfarwyddiadau polisi a dadansoddiad cyfreithiol o'r drafftio. Nod y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i fod yn weithredol ar ddiwedd y Cyfnod Gweithredu.

Mewn perthynas â chynlluniau GI, mae gennym ddi-ddordeb mawr mewn sicrhau bod GIs Cymru yn cael eu diogelu ledled y DU (ac yn ddefnyddiol, drwy'r trafodaethau ar bartneriaeth yr UE yn y dyfodol). Mae offerynnau blaenorol sy'n cael eu cydgrynhoi yn Rheoliadau 2020 wedi bod yn destun gohebiaeth barhaus rhwng Defra a Llywodraeth Cymru, gyda swyddogion Llywodraeth Cymru yn anghytuno â safbwynt Defra bod GIs yn ymwneud â materion a ddargedwir. Fodd bynnag, yn dilyn trafodaethau, cytunwyd y bydd gan Weinidogion Cymru rôl ystyrlon yn y trefniadau llywodraethu ar gyfer y cynllun GI.

**GWEINIDOGION Y DEYRNAS UNEDIG SY'N GWEITHREDU MEWN
MEYSYDD DATGANOLEDIG**

**197 - Rheoliadau Cynhyrchion Amaethyddol, Bwyd a Diod (Diwygio etc.)
(Ymadael â'r UE) 2020**

Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 22 Hydref 2020

Sifftio

A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU?	Na fydd
Gweithdrefn:	Cadarnhaol drafft
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin	Amherthnasol
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Amherthnasol
Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU	Amherthnasol
Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C:	Papur 30
Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol)	Nid yw'n ofynnol
Gweithdrefn graffu	
Canlyniad y broses sifftio	Amherthnasol
Gweithdrefn	Cadarnhaol drafft
Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol	Anhysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin	Anhysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	3 Tachwedd 2020

Cefndir

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU o dan adran 8(1) ac adran 8C o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 i'r Ddeddf.

Crynodeb

Ar hyn o bryd, mae rheoliadau'r UE yn darparu ar gyfer cynlluniau Dynodiad Daearyddol (GI), sy'n cwmpasu: (i) cynhyrchion amaethyddol a chynhyrchion bwyd, (ii) gwinoedd, (iii) diodydd gwirodol, a (iv) gwinoedd wedi eu persawru.

Mae 16 o gynhyrchion bwyd o Gymru wedi'u cofrestru o dan y cynllun Ewropeaidd, gan gynnwys cig oen o Gymru a chig eidion o Gymru. Mae'r cynllun yn darparu gwarchodaeth gyfreithiol rhag efelychu ar gyfer bwydydd rhanbarthol a thraddodiadol arbennig, y gellir gwarantu eu dilysrwydd a'u tarddiad. Mae hyn yn rhoi sicrwydd i ddefnyddwyr bod y cynhyrchion yn ddilys ac mae'n galluogi cynhyrchwyr i hyrwyddo a marchnata eu cynhyrchion yn well.

Mae rheoliadau'r UE hefyd wedi llywodraethu'r rheolau ar ddiffinio, disgrifio, cyflwyno a labelu ar gyfer diodydd gwirodol, yn ogystal â'r rheolau ar ddiffinio, disgrifio, cyflwyno, labelu a'r rheolau gwinegol ar gyfer gwinoedd a gwinoedd wedi'u persawru.

Bydd y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn creu cynlluniau Dynodiad Daearyddol y DU sy'n gweithio, a rheoliadau'r DU y gellir eu gorfodi yn ddomestig ar gyfer y sector gwin a'r sector diodydd gwirodol. Bydd hyn yn sicrhau bod y DU yn parhau i ddiogelu yr 86 enw cynnyrch o'r DU sydd wedi'u cofrestru fel Dynodiadau Daearyddol o dan gynlluniau'r UE ac yn parhau i gyflawni ei rhwymedigaethau o ran Sefydliad Masnach y Byd.

Datganiad gan Lywodraeth Cymru

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 23 Hydref 2020, ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Rydym yn nodi bod y Rheoliadau yn creu swyddogaethau cydredol y gall Gweinidogion Cymru a Gweinidogion y DU eu harfer. Os yw'r Senedd yn dymuno dileu elfen Gweinidog y DU o swyddogaeth gydredol, yna byddai'n rhaid i Lywodraeth y DU gydsynio i'w dileu. I'r graddau hynny, mae'r Rheoliadau'n effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Fodd bynnag, nodwn hefyd fod Llywodraeth Cymru yn cynnal trafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch gorchymyn adran 109 (h.y. Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor a wnaed o dan adran 109 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006). Byddai gorchymyn o'r fath yn negyddu'r effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd drwy ddileu'r angen am gydsyniad Llywodraeth y DU mewn perthynas â swyddogaethau cydredol.

Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)

Polisi newydd

I'r graddau y mae'r Rheoliadau hyn yn galluogi Prydain Fawr i barhau i gyflawni ei rhwymedigaethau o dan gytundeb Agweddau Masnachol Hawliau Eiddo Deallusol Sefydliad Masnach y Byd, nid oes polisi newydd.

At hynny, i'r graddau bod y Rheoliadau hyn yn parhau i ddarparu amddiffyniad cyfreithiol rhag eu hefelychu ar gyfer cynhyrchion a gydnabyddir gan gynllun Dynodiad Daearyddol y DU (gan gynnwys 16 o gynhyrchion o Gymru), nid oes polisi newydd.

O dan y ddau bolisi trosfwaol hynny, gellid ystyried bod y Rheoliadau yn deddfu o ran polisi newydd, yn yr ystyr eu bod: (i) yn cyflwyno gweithdrefn apelio newydd (er enghraifft, apêl yn erbyn penderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol i ganiatáu cais o ran Dynodiad Daearyddol y DU), a (ii) yn darparu ar gyfer logo newydd Dynodiad Daearyddol y DU.

Mae paragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin yn nodi na fydd Llywodraeth y DU yn defnyddio ei phwerau o dan adran 8 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 i ddeddfu o ran polisi newydd mewn meysydd datganoledig.

Mae anghytuno, fodd bynnag, ynghylch a yw maes testun y Rheoliadau hyn wedi'i ddatganoli.

Anghytuno ynghylch a yw pwnc y Rheoliadau hyn wedi'i ddatganoli

Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn anghytuno ynghylch a yw cynlluniau Dynodiad Daearyddol (GI) wedi'u datganoli. Dywed datganiad ysgrifenedig Llywodraeth Cymru:

*Mewn perthynas â chynlluniau GI, mae gennym ddiddordeb mawr mewn sicrhau bod GIs Cymru yn cael eu diogelu ledled y DU (ac yn ddelfrydol, drwy'r trafodaethau ar bartneriaeth yr UE yn y dyfodol). * Mae offerynnau blaenorol sy'n cael eu cydgrynhoi yn Rheoliadau 2020 wedi bod yn destun gohebiaeth barhaus rhwng Defra a Llywodraeth Cymru, gyda swyddogion Llywodraeth Cymru yn anghytuno â safbwynt Defra bod GIs yn ymwneud â materion a ddargedwir. Fodd bynnag, yn dilyn trafodaethau, cytunwyd y bydd gan Weinidogion Cymru rôl ystyrlon yn y trefniadau llywodraethu ar gyfer y cynllun GI.*

Nodwn, p'un a yw cynlluniau Dynodiad Daearyddol (GI) wedi'u datganoli ai peidio, po fwyaf eang yw maint tiriogaethol y cynllun Dynodiad Daearyddol, y mwyaf y bydd cynhyrchion Cymru yn cael eu diogelu.

Mae'n ymddangos bod sicrwydd bod gan Gymru rôl ystyrlon yng nghynllun Dynodiad Daearyddol y DU wedi'i sicrhau drwy gytundeb rhynglywodraethol (anorfodadwy).



DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Rheoliadau Mewnforio a Masnachu Cynhyrchion Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2020
DYDDIAD	27 Hydref 2020
GAN	Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Rh30C – Hysbysiad mewn Perthynas ag Offerynnau Statudol a wnaed gan Weinidogion y DU mewn meysydd datganoledig o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 nas gosodwyd gerbron y Senedd.

Rheoliadau Mewnforio a Masnachu Cynhyrchion Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2020

Y gyfraith sy'n cael ei diwygio

Deddfwriaeth yr UE

- Penderfyniad y Comisiwn 1997/152/EC ynghylch yr wybodaeth sydd i'w nodi yn y ffeil gyfrifiadurol o lwythi anifeiliaid neu gynhyrchion anifeiliaid o drydydd gwledydd sy'n cael eu hail-anfon
- Penderfyniad y Comisiwn 2000/572/EC sy'n gosod yr amodau iechyd anifeiliaid a'r cyhoedd ac ardystio milfeddygol ar gyfer mewnforio paratodau cig i'r Gymuned o drydydd gwledydd
- Penderfyniad y Comisiwn 2003/459/EC ar fesurau amddiffyn penodol mewn perthynas â'r feirws brech mwnci
- Penderfyniad y Comisiwn 2003/467/EC sy'n sefydlu twbercwlosis swyddogol, brwselosis, a statws di-lewkosis ensötig o aelod-wladwriaethau a rhanbarthau penodol o Aelod-wladwriaethau o ran buchesi
- Penderfyniad y Comisiwn 2003/779/EC sy'n nodi gofynion iechyd anifeiliaid a'r ardystiad milfeddygol ar gyfer mewnforio casinau anifeiliaid o drydydd gwledydd
- Addasu Rheoliad y Comisiwn (CE) Rhif 136/2004 sy'n gosod gweithdrefnau ar gyfer gwiriadau milfeddygol mewn safleoedd arolygu ar ffin y Gymuned ar gynhyrchion a fewnforir o drydydd gwledydd

- Penderfyniad y Comisiwn 2006/146/EC ar fesurau amddiffyn penodol mewn perthynas â rhai ystlumod ffrwythau, cŵn a chathod sy'n dod o Malaysia (Peninsiwla) ac Awstralia
- Penderfyniad y Comisiwn 2006/168/EC sy'n sefydlu'r gofynion iechyd anifeiliaid ac ardystio milfeddygol ar gyfer mewnforio i Gymuned embryonau buchol
- Penderfyniad y Comisiwn 2007/25/EC o ran mesurau amddiffyn penodol mewn perthynas â'r fflw adar pathogenig iawn a symudiadau adar anwes sy'n mynd gyda'u perchnogion i'r Gymuned
- Penderfyniad y Comisiwn 2007/240/EC sy'n gosod tystysgrifau milfeddygol newydd ar gyfer mewnforio anifeiliaid byw, semen, embryonau, ofa a chynhyrchion sy'n tarddu o anifeiliaid i'r Gymuned
- Penderfyniad y Comisiwn 2007/275/EC ynghylch rhestrau o gynhyrchion cyfansawdd i fod yn ddarostyngedig i reolaethau mewn safleoedd rheoli ffiniau
- Penderfyniad y Comisiwn 2007/777/EC sy'n gosod yr amodau iechyd anifeiliaid a'r cyhoedd a thystysgrifau enghreifftiol ar gyfer mewnforio cynhyrchion cig penodol a stumogau, bledion a coluddion a driniwyd i'w bwyta gan bobl o drydydd gwledydd
- Penderfyniad y Comisiwn 2008/185/EC ar warantau ychwanegol mewn masnach o fewn y Gymuned o foch sy'n ymwneud â chlefyd a meini prawf Aujeszky i ddarparu gwybodaeth am y clefyd hwn
- Penderfyniad y Comisiwn 2008/636/EC sy'n sefydlu'r rhestr o drydydd gwledydd y mae Aelod-wladwriaethau yn awdurdodi mewnforio ofa ac embryonau'r rhywogaethau porsinau ohonynt
- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 798/2008 sy'n gosod rhestr o drydydd gwledydd, tiriogaethau, parthau neu gompartmentau y gellir mewnforio cynhyrchion dofednod a dofednod iddynt a'u cludo drwy'r Gymuned a'r gofynion ardystio milfeddygol
- Rheoliad y Comisiwn (CE) Rhif 119/2009 sy'n gosod rhestr o drydydd gwledydd neu rannau ohoni, ar gyfer mewnforio i'r Gymuned cig leporidae gwyllt, mamaliaid tir gwyllt penodol a chwingod fferm a'r gofynion ardystio milfeddygol, neu eu cludo drwodd
- Penderfyniad y Comisiwn 2009/712/EC sy'n gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 2008/73/EC o ran tudalennau gwybodaeth ar y Rhyngwlad sy'n cynnwys rhestrau o sefydliadau a labordai a gymeradwywyd gan Aelod-wladwriaethau yn unol â deddfwriaeth filfeddygol gymunedol
- Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 206/2010 sy'n gosod rhestrau o drydydd gwledydd, tiriogaethau neu rannau ohonynt a awdurdodwyd i gyflwyno anifeiliaid penodol a chig ffres i'r Undeb Ewropeaidd a'r gofynion ardystio milfeddygol
- Penderfyniad y Comisiwn 2010/472/EU ar fewnforio semen, ofa ac embryonau anifeiliaid o'r rhywogaethau defaid a geifr

- Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 605/2010 sy'n gosod amodau iechyd anifeiliaid a'r cyhoedd ac ardystio milfeddygol ar gyfer cyflwyno llaeth crai, cynhyrchion llaeth, llaeth tor a chynhyrchion llaeth tor a fwriedir i'w bwyta gan bobl i'r Undeb Ewropeaidd
- Penderfyniad y Comisiwn 2011/163/EU ar gymeradwyo cynlluniau a gyflwynir gan drydydd gwledydd
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2011/630/EU ar fewnforio semen anifeiliaid domestig y rhywogaethau buchol i'r Undeb
- Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 28/2012 sy'n gosod gofynion ar gyfer ardystio mewnforynion i mewn i gynhyrchion cyfansawdd penodol a'u cludo drwy'r Undeb
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2012/137/EU ar fewnforio semen anifeiliaid domestig o'r rhywogaethau moch i'r Undeb
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 139/2013 sy'n gosod amodau iechyd anifeiliaid ar gyfer mewnforynion adar penodol i'r Undeb a'r amodau cwarantîn ar eu cyfer
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn yr UE Rhif 743/2013 yn cyflwyno mesurau amddiffynnol ar fewnforio molysgiaid deufalf o Dwrci a fwriedir i'w bwyta gan bobl
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2013/764/EU ynghylch mesurau rheoli iechyd anifeiliaid sy'n ymwneud â chlwy clasurol y moch mewn rhai Aelod-wladwriaethau
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2015/1901 sy'n gosod rheolau ardystio a thystysgrif iechyd enghreifftiol ar gyfer mewnforynion llwythi o anifeiliaid byw a chynhyrchion anifeiliaid o Seland Newydd i'r Undeb
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2018/320 ar fesurau diogelu iechyd anifeiliaid penodol ar gyfer masnach o fewn yr Undeb mewn salamandrau a chyflwyno anifeiliaid o'r fath i'r Undeb mewn perthynas â'r ffwng *Batrachochytrium salamandrivorans*
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2018/659 ar yr amodau ar gyfer dod ag equidae byw a semen, ofa ac embryonau equidae i mewn i'r Undeb

Is-ddeddfwriaeth

Mae Rheoliadau 2020 hefyd yn diwygio OSau Ymadael â'r UE a osodwyd yn flaenorol:

- Rheoliadau'r Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019,
- Rheoliadau Mewnforynion a Masnachu Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019,
- Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid, Rhywogaethau Estron mewn Dyframaeth a Rhywogaethau Estron Goresgynnol (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019, a

- Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Swyddogaethau Deddfwriaethol) a Milfeddygon (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

Dirymiadau

- Rheoliadau Mewnforio a Masnachu Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019
- Penderfyniad 93/444/EC y Comisiwn ar reolau manwl sy'n llywodraethu masnach o fewn y Gymuned mewn rhai anifeiliaid a chynhyrchion byw y bwriedir eu hallforio i drydydd gwledydd.
- Penderfyniad y Comisiwn 1995/410/EC sy'n gosod y rheolau ar gyfer y profion microbiolegol drwy samplu wrth sefydlu tarddiad dofednod i'w lladd a fwriedir ar gyfer y Ffindir a Sweden.
- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 599/2004 ynghylch mabwysiadu tystysgrif enghreifftiol wedi'i chysoni ac adroddiad arolygu sy'n gysylltiedig â masnach o fewn y Gymuned mewn anifeiliaid a chynhyrchion sy'n tarddu o anifeiliaid
- Rheoliad y Comisiwn (CE) Rhif 1739/2005/EC sy'n nodi gofynion iechyd anifeiliaid ar gyfer symud anifeiliaid syrcas rhwng Aelod-wladwriaethau
- Penderfyniad y Comisiwn 2006/605/EC ar fesurau amddiffyn penodol mewn perthynas â masnach o fewn y Gymuned mewn dofednod a fwriedir ar gyfer ailstocio cyflenwadau gemau gwyllt.
- Penderfyniad y Comisiwn 2010/470/EU sy'n gosod tystysgrifau iechyd enghreifftiol ar gyfer masnach o fewn yr Undeb mewn semen, ofa ac embryonau anifeiliaid o rywogaethau ceffylau, defaid a geifr ac mewn ofa ac embryonau anifeiliaid o'r rhywogaethau moch.
- Penderfyniad y Cyngor 2011/408/EU sy'n gosod rheolau a gweithdrefnau symlach ar reolaethau glanweithdra cynhyrchion pysgodfeydd, molysgiaid deufalf byw, ecinodermiaid, tiwnigogion, gastropods morol, sgil-gynhyrchion a chynhyrchion sy'n deillio o'r sgil-gynhyrchion hyn sy'n dod o'r Ynys Las.
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2013/503/EU sy'n cydnabod bod rhannau o'r Undeb yn rhydd o varroosis mewn gwenyn a sefydlu gwarantau ychwanegol sy'n ofynnol mewn masnach a mewnforion o fewn yr Undeb er mwyn diogelu eu statws di-varroosis.

Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Mae masnach mewn anifeiliaid a chynhyrchion cysylltiedig yn swyddogaeth ddatganoledig ac felly mae gennym gyfatebiaeth â Lloegr a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill o ran deddfwriaeth ddomestig. Y bwriad gyda chynnwys y rheoliadau hyn fu cadw cymhwysedd deddfwriaethol ym mhob maes perthnasol. Mae'r offeryn hwn yn rhoi swyddogaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol gael eu harfer gyda chydysniad Gweinidogion Cymru, ond hefyd ar yr un pryd.

Mae gan effaith y swyddogaethau cydamserol a geir yn yr OS hwn botensial i gynnwys y gofynion cydsyniad yn Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru ac felly maent yn cyfyngu posibl ar gymhwysedd y Senedd yn y dyfodol. Fodd bynnag, rydym yn cynnal trafodaethau gyda Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru mewn perthynas â Gorchymyn a.109 i ddiwygio Atodlen 7B er mwyn negyddu'r cyfyngiad posibl ar gymhwysedd y Senedd yn y dyfodol.

Swyddogaethau a drosglwyddwyd fel eu bod yn arferadwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unig neu gyda chydysniad Gweinidogion Cymru yw swyddogaethau, un o Weinidogion y Goron at ddibenion

Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Gallai Bil Senedd yn y dyfodol sy'n ceisio dileu neu addasu'r swyddogaethau hyn sbarduno gofyniad i ymgynghori â Llywodraeth y DU.

Diben y gwelliannau

Mae'r Rheoliad Ymadael â'r UE hwn, lle bo angen, yn gwneud mân newidiadau i weithredu o dan adran 8 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 i gadw deddfwriaeth yr UE. Mae deddfwriaeth yr UE dan sylw yn nodi amodau ar gyfer mewnfario anifeiliaid byw, germplasm a chynhyrchion sy'n tarddu o anifeiliaid. Nid yw'r offeryn yn gwneud unrhyw newidiadau polisi.

Mae'r OSau a'r Memoranda Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith pob gwelliant, ar gael yma: <https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2020/9780348213928>

Pam y rhoddwyd caniatâd

Rhoddwyd caniatâd i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn mewn perthynas â Chymru ac ar ei rhan am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y gwelliannau. Nid oes unrhyw wahaniaeth mewn polisi ar ôl ystyried y gwelliannau arfaethedig yn llawn ac yn ofalus, asesu'r cyfarwyddiadau polisi a dadansoddiad cyfreithiol o'r drafftio. Nod y gwelliannau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i fod yn weithredol ar ddiwedd y Cyfnod Gweithredu.

**GWEINIDOGION Y DEYRNAS UNEDIG SY'N GWEITHREDU MEWN
MEYSYDD DATGANOLEDIG**

**198 - Rheoliadau Mewnforio a Masnachu Anifeiliaid a Chynhyrchion
Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2020**

Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 20 Hydref 2020

Sifftio

Yn destun gwaith sifftio yn Senedd y DU?	Nac ydynt
Gweithdrefn:	Cadarnhaol drafft
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin	Amherthnasol
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Amherthnasol
Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU	Amherthnasol
Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C:	Papur 32
Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol)	Dim angen

Gweithdrefn graffu

Canlyniad y broses sifftio	Amherthnasol
Gweithdrefn	Cadarnhaol drafft
Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol	Anhysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin	Anhysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	3 Tachwedd 2020

Cefndir

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 7 o Atodlen 4 a pharagraff 21(b) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Crynodeb

Gwneir y Rheoliadau hyn i fynd i'r afael â'r ffaith nad yw cyfraith yr UE a ddargedwir yn gweithredu'n effeithiol a hefyd â diffygion eraill sy'n deillio o'r Deyrnas Unedig yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau'n diwygio cyfeiriadau diangen at gyfreithiau a systemau'r Undeb Ewropeaidd na fyddant yn berthnasol mwyach ar ddiwedd y Cyfnod Pontio i sicrhau system weithredol ar gyfer mewnforio anifeiliaid byw (gan gynnwys ceffylau), cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid

(gan gynnwys cig), sgil-gynhyrchion anifeiliaid, a phlasm cenhedlu, tra'n cynnal safonau lles a bioddiogelwch. Nod y newidiadau hyn yw cynnal y drefn fewnforio bresennol ac mae'r diwygiadau i Reoliadau a Phenderfyniadau'r Undeb Ewropeaidd a wneir yn uniongyrchol gan yr offeryn hwn yn dechnegol eu natur.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio Offerynnau Statudol ar gyfer Ymadael â'r UE a wnaed yn flaenorol, ac yn eu dirymu.

Datganiad gan Lywodraeth Cymru

Mae'r Cyngorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 27 Hydref 2020, ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi swyddogaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol i'w harfer gyda chydysniad Gweinidogion Cymru, ond hefyd yn gydredol.

Os yw'r Senedd yn dymuno dileu elfen Gweinidog y DU o swyddogaeth gydredol, yna byddai'n rhaid i Lywodraeth y DU gydsynio i'w dileu. I'r graddau hynny, mae'r Rheoliadau'n effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Rydym yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynghylch gorchymyn adran 109 (h.y. Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor a wnaed o dan adran 109 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Byddai gorchymyn o'r fath yn negyddu'r effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd drwy ddileu'r angen am gydsyniad Llywodraeth y DU mewn perthynas â swyddogaethau cydredol.

Mae swyddogaethau a drosglwyddir fel eu bod yn arferadwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unig neu â chydysniad Gweinidogion Cymru yn gyfystyr â swyddogaethau un o Weinidogion y Goron at ddibenion Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cyngorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Ein cyf/Our ref: LG/3455/20

Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

SeneddDCC@senedd.cymru

30 Hydref 2020

Annwyl Mick

Diolch am eich llythyr dyddiedig 5 Hydref ynghylch Bil Pysgodfeydd y DU. Rwy'n falch i'r Senedd allu rhoi ei chydysniad i'r Cynnig Cydysniad Deddfwriaethol ar 6 Hydref. Trafodais y pwyntiau rydych yn eu codi yn eich llythyr yn ystod y ddadl, ond cytunais y byddwn yn anfon llythyr yn eu cylch.

Mae pwynt 1 eich llythyr yn gofyn imi esbonio pam oedd angen diwygiadau 144, 145 ac 146 i gymal 39, cymal 49 ac atodlen 8, yn eu tro. Cawsant eu gwneud ar gais Gweinidogion Cymru yn ystod cam Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin. Mae'r diwygiadau'n ymwneud â chwmpas pwerau rheoleiddio Gweinidogion Cymru o dan Atodlen 8. Diffinnir pwerau Gweinidogion Cymru o dan Atodlen 8 trwy gyfeirio at gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru. Roedd y geiriad blaenorol yn cyfeirio at gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru gan ddiystyru unrhyw ddarpariaeth sy'n dibynnu ar gydsyniad Gweinidog y DU i fod o fewn ei chymhwysedd. Mae hynny'n golygu felly ei bod y tu allan i gymhwysedd Senedd Cymru. Pe na bai'r diwygiadau hyn wedi'u gwneud, byddai'r darpariaethau hyn yn y Bil wedi lleihau cwmpas pŵer pwysig o eiddo Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ac yn estyn cwmpas pŵer cyfatebol yr Ysgrifennydd Gwladol i faes polisi datganoledig.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae pwynt 2 yn gofyn am fwy o wybodaeth am y diwygiadau a gyflwynwyd ac y cytunwyd arnynt yn y Cam Adrodd. Ystyriaf bob un yn ei dro:

2. a) Y bwriad oedd bod Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (a siarad yn fras) yn ymdrin â phob deddfwriaeth a wneir gan y sefydliadau datganoledig yng Nghymru. Heb ei diwygio, ni fyddai'r Ddeddf yn gymwys i RhSau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf. Mae'r Bil Pysgodfeydd yn diwygio Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 i ddarparu ei bod yn gymwys i RhSau Gweinidogion Cymru a wneir o dan y Ddeddf. Bydd estyn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru i gynnwys materion pysgodfeydd ym mharth Cymru yn ei gyfanrwydd yn estyn yn awtomatig Rannau 1 a 2 Deddf 2019 i gynnwys Deddfau Senedd Cymru a wnaed o dan y cymhwysedd ehangach (gan eu bod yn gymwys i holl ddeddfwriaeth sylfaenol Cymru).

2. b) O dan adran 83 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, caiff Gweinidogion Cymru ddod i drefniant ag awdurdod perthnasol fel bod swyddogaethau'r naill yn gallu cael eu harfer gan y llall. Mae awdurdod perthnasol yn cynnwys Gweinidog y Goron neu unrhyw awdurdod cyhoeddus yng Nghymru neu Loegr. Nid yw Adran 83 yn caniatáu Gweinidogion Cymru felly i ddod i drefniant â Gweinidogion yr Alban nac ag adran Gogledd Iwerddon. Gobeithir y gallai'r math hwn o drefniant fod yn effeithiol ac arbed arian. Mae'r diwygiadau a wnaed yn y cam adrodd yn rhoi'r gallu i Weinidogion Cymru ddod i drefniant gweinyddol â Gweinidogion yr Alban, adran Gogledd Iwerddon a Sefydliad Rheoli'r Môr (MMO) i arfer swyddogaethau pysgodfeydd a swyddogaethau sy'n ymwneud â symud cynnyrch pysgodfeydd.

Rydym yn gallu rhagweld sefyllfaoedd yn y dyfodol lle byddem am i Weinyddiaethau Datganoledig eraill gyflawni swyddogaethau ar ein rhan, er enghraifft, i reoli a gorfodi, digidol a gwyddonol ac yn ddaearyddol (er enghraifft patrolau gorfodi ar y cyd, a thripiâu gwyddonol, â sefydliadau Gogledd Iwerddon).

2. c) a d) Ni chafodd diwygiadau i Atodlen 3 ac 8 ac i Atodlen 10 (yn ymwneud â gofynion ymgynghori) eu cyflwyno gan i hyn gael ei ddisodli gan waith gyda Lywodraeth y DU ar ddwyn ymlaen Orchymyn o dan adran 109 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi cadarnhau i mi yn ysgrifenedig y bydd y Gorchymyn a ddaw yn ymdrin â'r swyddogaethau cydredol yn y Bil, yn amodol ar rai eithriadau penodol sy'n adlewyrchu cymhlethdod y gwaith o reoleiddio cychod pysgota.

2. e) Gwnaethom ofyn i Lywodraeth y DU am y diwygiadau hyn yn gynnar yn y broses ond fel y dywedais yn fy llythyr atoch ac wrth agor y ddadl ar yr LCM, oherwydd oedi gan Lywodraeth y DU, nid oedd yn bosibl cadarnhau fersiynau terfynol o rai o'r diwygiadau angenrheidiol cyn y ddadl.

Mae pwynt 3 eich llythyr yn ymwneud â'r Memorandwm Cydsynio Deddfwriaethol Ategol (rhif 2).

3. a) Yng ngoleuni'r llythyrau a gyfnewidiwyd yn ddiweddar, rwy'n fodlon ag ymateb yr Ysgrifennydd Gwladol Seneddol, Victoria Prentis AS, ac rwy'n hyderus y gallwn gytuno ar eiriad terfynol y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, o fewn y paramedrau a bennwyd yn y llythyrau, gan ddarparu'r lefel angenrheidiol o ymgynghori a chyfranogi ynghylch defnyddio pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol.

Rwy'n nodi cryfder y teimladau ynghylch y mater hwn a bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i wasgu am gynnydd buan a chyflawni'r ymrwymïadau a wnaed ynghylch y Memorandwm, sydd wrthi'n cael ei ddatblygu nawr ar y cyd gan swyddogion o bob un o'r gweinyddiaethau pysgodfeydd.

3. b) Cafodd fy ymrwymiad i lunio adroddiad chwemisol i Senedd Cymru ar roi'r darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â Chymru'n unig ar waith, tan pa bryd bynnag y caiff Bil Pysgodfeydd Cymru ei gyflwyno, ei wneud fel ymateb i argymhelliad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig. Yr un yw fy marn na fydd cymal machlud yn dod â'r budd gorau i ddiwydiant pysgota Cymru ac yn fy marn i, dyma'r ffordd bragmatig ymlaen.

3. c) O safbwynt y pwerau yn Atodlen 3, rydych yn gofyn pam fy mod o'r farn ei bod yn angenrheidiol ac yn briodol cymryd pwerau a allai fod yn rhan o'r llyfr statud am ddegawdau mewn Bil y DU er mai'r bwriad yw iddo fod ond yn drefniant interim er mwyn rheoli pysgodfeydd yng Nghymru.

Mae'r pwerau trwyddedu pysgodfeydd yn rhan o'r pwerau fframwaith, a phwerau interim yn ein barn ni yw'r pwerau yn y Bil nad ydynt yn rhai fframwaith. Maent yn gymwys i drwyddedu cychod pysgota o Gymru a chychod pysgota tramor sy'n pysgota yng Nghymru a pharth Cymru. Mae'r fframwaith yn ein galluogi i drwyddedu gweithgareddau pysgota mewn ffordd gydlynol ar draws y DU mewn perthynas â chychod pysgota'r DU a thramor.

Yn fy marn i, mae'r pwerau hyn wedi'u drafftio'n briodol ar gyfer sicrhau bod ein system trwyddedu pysgodfeydd yn gweithio'n effeithiol, nawr ac yn y dyfodol. Bydd Senedd Cymru'n cael craffu ar ddefnydd Gweinidogion Cymru o'r pwerau gwneud rheoliadau yn Atodlen 3.

Yn dilyn eich argymhellion 6 a 7 yn eich adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Ategol (Memorandwm rhif 2) ynghylch ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir, fe nodwch yn eich llythyr eich bod yn poeni o hyd y gallai Senedd Cymru fod yn colli pwerau. Gallaf sicrhau'r Pwyllgor na fyddwn yn colli pwerau. Yn fy marn i, rwyf wedi rhoi eglurhad llawn yn fy llythyrau ar 3 Medi ac 1 Hydref sy'n esbonio'r darpariaethau hyn yn fanwl.

Byddaf yn ysgrifennu ar wahân atoch chi, ac i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ac at yr holl Aelodau, i gadarnhau canlyniad Cam Adrodd Tŷ'r Cyffredin a'r Trydydd Darlleniad.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Mike Hedges AS Cymru, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig.

Cofion



Lesley Griffiths AS/MS

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniwi, AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

30 Hydref 2020

Annwyl Mick

Ysgrifennais atoch ar 10 Medi ynghylch y gwelliannau Cyfnod 2 yr oeddwn yn bwriadu eu cyflwyno, ac sydd bellach wedi'u gwneud i Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru). Yn y llythyr hwnnw cyflwynais rai materion yn ymwneud â gwelliannau posibl gan y Llywodraeth yng Nghyfnod 3. Mae'r llythyr hwn yn rhoi cadarnhad fy mod wedi cyflwyno'r gwelliannau hynny a rhagor o fanylion ynghylch yr hyn y maent yn ei gynnwys.

Er bod cyfran uchel o'r gwelliannau yr wyf wedi cyflwyno yn fach neu'n dechnegol eu natur neu'n ceisio egluro darpariaethau, gellid ystyried bod rhai yn fwy helaeth na gwelliannau sydd fel arfer yn cael eu cyflwyno yng Nghyfnod 3.

Mae'r gwelliannau hyn yn deillio'n bennaf o ymateb y Llywodraeth i'r pandemig a sicrhau bod y ddarpariaeth angenrheidiol yn parhau i fod ar waith i alluogi llywodraeth leol i barhau i weithredu yn ystod gweddill cyfnod y pandemig ac wedi hynny. Mae'r gwaith o ddatblygu'r gwelliannau hyn wedi'i lywio gan ymgysylltiad parhaus â rhanddeiliaid allweddol o fewn llywodraeth leol a'r adborth ganddynt.

Presenoldeb o Bell

Rwyf wedi cyflwyno gwelliannau mewn perthynas â phresenoldeb o bell a fydd yn ymestyn y ddarpariaeth hon, yn barhaol, i'r ystod o gyrff llywodraeth leol a gwmpesir gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 ('Rheoliadau 2020').

Disodlir adran 48 o'r Bil, a ddiwygiodd adran 4 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, gydag adran newydd sy'n gwneud y ddarpariaeth berthnasol o ran presenoldeb o bell i bob corff, nid prif gynghorau yn unig, ar wyneb y Bil.

Mae'r adran newydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i sicrhau y gellir cynnal cyfarfodydd ar sail rithwir yn gyfan gwbl, neu'n rhannol. Awdurdodau lleol yng nghyd-destun y darpariaethau hyn yw prif gynghorau, cynghorau cymuned, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau Parciau Cenedlaethol, ac awdurdod iechyd porthladd (ar gyfer ardal

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

iechyd porthladd yng Nghymru o dan adran 2 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984). Bydd hefyd yn ofynnol i brif gyngor wneud trefniadau mewn perthynas â chyfarfodydd y weithrediaeth, pwyllgorau, is-bwyllgorau ac yn y blaen.

Cyfarfodydd a thrafodion awdurdodau lleol

Fel y nodais yn fy llythyr blaenorol, mae pandemig COVID-19 wedi datgelu bod darpariaethau cyfredol mewn perthynas â chyfarfodydd awdurdodau lleol yn hen ffasiwn, yn enwedig y darpariaethau gweithdrefnol a thechnegol sy'n llywodraethu sut y cofnodir cyfarfodydd, sut yr anfonir gwysion at aelodau, a sut y cyhoeddir dogfennau, gan gynnwys hysbysebion, agendâu a chofnodion.

Rwyf wedi cyflwyno gwelliant i ddisodli Atodlen 4 bresennol y Bil, gydag Atodlen newydd gyda'r pennawd "Hysbysiad o Gyfarfodydd Awdurdodau Lleol, Mynediad at Ddogfennau a Phresenoldeb mewn Cyfarfodydd" i adlewyrchu'r pwnc estynedig.

Mae Rhan 1 o'r Atodlen newydd yn gwneud nifer o welliannau i'r ddeddfwriaeth bresennol, gan gynnwys Rhan 5A ac Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960 mewn perthynas ag amrywiaeth o faterion, gan gynnwys:

- (a) hysbysiadau o gyfarfodydd awdurdodau lleol yng Nghymru,
- (b) mynediad at ddogfennau sy'n ymwneud â'r cyfarfodydd hynny a chyfarfodydd pwyllgorau ac is-bwyllgorau, a'u cyhoeddi;
- (c) cyhoeddi hysbysiadau cyhoeddus gan awdurdodau lleol nad ydynt yn ymwneud â chyfarfodydd awdurdodau lleol;
- (d) cyhoeddi gwysion i aelodau fynychu cyfarfodydd awdurdodau lleol.

Bydd y gwelliannau hyn yn berthnasol i brif gynghorau, awdurdodau Parciau Cenedlaethol, awdurdodau tân ac achub, cyd-fyrddau, cyd-bwyllgorau ac Awdurdod Iechyd Porthladd Bae Abertawe (gan gynnwys eu pwyllgorau a'u his-bwyllgorau). Bydd rhai o'r diwygiadau hefyd yn berthnasol i gynghorau cymuned (gan gynnwys mewn perthynas â chynnwys hysbysiadau a sut y cânt eu rhoi, a sut y cyhoeddir gwysion).

Mae Rhan 2 o'r Atodlen yn darparu ar gyfer y gwelliannau canlyniadol angenrheidiol sy'n deillio o'r diwygiadau presenoldeb o bell gan gynnwys diddymu adran 4 o Fesur 2011.

Pwerau gwneud rheoliadau

Er mwyn cwblhau'r gwaith o foderneiddio trefniadau cyfarfodydd a thrafodion awdurdodau lleol, ac yn hanfodol i gefnogi awdurdodau i symud ymlaen yn y byd wedi COVID-19, mae angen rhoi pwerau gwneud Rheoliadau i Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gallu i ddiwygio a diddymu deddfwriaeth sylfaenol, mewn perthynas â:

- (a) cynnal cyfarfodydd awdurdodau lleol, dogfennau sy'n ymwneud â chyfarfodydd a chyhoeddi gwybodaeth
- (b) cyfarfodydd cymunedol
- (c) gwneud darpariaeth bellach neu wahanol ynghylch y dull o roi hysbysiad cyhoeddus y mae'n ofynnol i awdurdod lleol ei roi (paragraff 17 o Atodlen 4 i'r Bil).

Mae'r rhannau o ddarpariaethau am y materion hyn, a nodir mewn deddfwriaeth sylfaenol sy'n dyddio'n ôl i 1960, 1972 a 1985, yn helaeth, yn gymhleth ac wedi dyddio'n fawr. Mae geiriad a chynnwys y darpariaethau'n adlewyrchu'n glir fyd a ffyrdd o wneud busnes sy'n rhagflaenu'r rhyngwyd a chyfathrebu electronig. Mae'r profiad o orfod cyflwyno Rheoliadau

2020 o ganlyniad i'r pandemig wedi amlygu pa mor frawychus yw diweddarau a newid y darpariaethau hyn, yn bennaf gan eu bod wedi'u nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol - siawns mai dyma'r prif reswm pam nad yw'r diwygiadau hyn y mae mawr eu hangen erioed wedi'u gwneud. Mae'n werth nodi nad yw'r trefniadau ar gyfer llywodraeth leol yn gyson â darpariaethau cyfatebol ar gyfer cyrff democrataidd eraill, lle nodir trefniadau gweithdrefnol o'r fath mewn is-ddeddfwriaeth, neu reolau sefydlog.

Byddai darparu ar gyfer diwygio'r darpariaethau hyn drwy is-ddeddfwriaeth, yn hytrach nag mewn deddfwriaeth sylfaenol, yn caniatáu, maes o law, i gynnal adolygiad cynhwysfawr o drefniadau cyfarfodydd diweddaraf y cyngor a'i ddiwygio yn ôl yr angen. Bydd yr adolygiad yn gallu ystyried y profiad o weithio gyda'r trefniadau newydd a roddwyd ar waith ar gyfer y pandemig a pharhau drwy fy ngwelliannau arfaethedig.

Byddai'r pwerau, yr wyf yn bwriadu eu gwneud yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn y Senedd, yn gadael trefniadau gweithdrefnol llywodraeth leol ar ffurf y gellir ei diweddarau a'i diwygio'n fwy hwylus yn ôl yr angen yn y dyfodol.

Rhagwelaf y bydd y defnydd cyntaf o'r pwerau yn debygol o fod yn gymedrol ei natur, gyda Rheoliadau newydd yn cael eu cyfyngu'n bennaf i resymoli a symleiddio. Bydd Rheoliadau 2020, ynghyd â'r darpariaethau y cynigir eu mewnosod yn y Bil yng Nghyfnod 3, yn moderneiddio'r rheolau a'r gweithdrefnau yn sylweddol. Felly, rwyf o'r farn y byddai unrhyw Reoliadau newydd cynhwysfawr a wneir o dan y pwerau hyn, i raddau helaeth iawn, yn gyfuniad o'r ddarpariaeth bresennol mewn cyfres o Reoliadau, gyda rhai gwelliannau pellach.

Darllediadau electronig o gyfarfodydd awdurdodau lleol

Ar ôl ystyried ymhellach y materion a godwyd gan y Pwyllgorau a rhanddeiliaid yng Nghyfnod 1, rwyf hefyd wedi penderfynu cyflwyno gwelliannau i'r darpariaethau mewn perthynas â darlledu cyfarfodydd awdurdodau lleol yn electronig.

Roedd y darpariaethau darlledu, fel y'u drafftwyd i'w cyflwyno, yn ei gwneud yn ofynnol i brif gynghorau wneud trefniadau i sicrhau bod holl gyfarfodydd y cyngor (gan gynnwys cyfarfodydd y weithrediaeth), neu bwyllgor neu is-bwyllgor o'r cyngor, yn cael eu darlledu, lle'r oeddent yn agored i'r cyhoedd, tra bod y cyfarfod yn cael ei gynnal. Roedd hefyd yn ofynnol i'r darllediad fod ar gael yn electronig am gyfnod rhesymol o amser ar ôl y cyfarfod.

Yn ystod Cyfnod 1 mynegwyd pryderon ynghylch y gofynion y byddai'r gofyniad hwn yn eu rhoi ar awdurdodau lleol. Mae awdurdodau lleol hefyd wedi mynegi pryderon ynghylch sut y bydd y darpariaethau'n effeithio ar estyn allan i'r gymuned lle cynhelir cyfarfodydd y cyngor ar draws ardal ddaearyddol y sir, mewn mannau na allent gefnogi darlledu byw.

Rwyf wedi cyflwyno gwelliannau sy'n dileu'r gofyniad i ddarlledu pob cyfarfod yn fyw, gyda phrif gynghorau yn hytrach yn gorfod gwneud trefniadau ar gyfer darlledu cyfarfodydd y cyngor llawn yn unig wrth i'r cyfarfod gael ei gynnal. Bydd hyn yn galluogi aelodau o'r cyhoedd i weld a chlywed y cyfraniadau a wnaed gan eu cynghorwyr lleol mewn cyfarfodydd llawn o'r cyngor.

Bydd y gwelliannau yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy wneud Rheoliadau, i ychwanegu cyfarfodydd eraill at y rhestr o'r rhai y mae'n ofynnol eu darlledu. Gellir gwneud rheoliadau hefyd sy'n pennu amodau ar gyfer darlledu, a allai gynnwys materion fel pennu pa gyfarfodydd y mae'n rhaid eu darlledu'n fyw a pha rai y gellir eu recordio'n fyw a'u darlledu'n ddiweddarach. Mae'r rhain yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol y Senedd.

Rwyf hefyd wedi ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ynghylch y gwelliannau yr wyf wedi'u cyflwyno.

Yn gywir



Julie James AS/MS

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government



John Griffiths, AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

30 Hydref 2020

Annwyl John

Rwyf wedi cyflwyno gwelliannau'r Llywodraeth i'r Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) ac roeddwn eisiau ysgrifennu at y Pwyllgor i rhoi fwy o fanylion ynghylch yr hyn y maent yn ei gynnwys

Er bod cyfran uchel o'r gwelliannau yr wyf wedi cyflwyno yn fach neu'n dechnegol eu natur neu'n ceisio egluro darpariaethau, gellid ystyried bod rhai yn fwy helaeth na gwelliannau sydd fel arfer yn cael eu cyflwyno yng Nghyfnod 3.

Mae'r gwelliannau hyn yn deillio'n bennaf o ymateb y Llywodraeth i'r pandemig a sicrhau bod y ddarpariaeth angenrheidiol yn parhau i fod ar waith i alluogi llywodraeth leol i barhau i weithredu yn ystod gweddill cyfnod y pandemig ac wedi hynny. Mae'r gwaith o ddatblygu'r gwelliannau hyn wedi'i lywio gan ymgysylltiad parhaus â rhanddeiliaid allweddol o fewn llywodraeth leol a'r adborth ganddynt.

Gwasanaethau ymchwil

Yng Nghyfnod 2 cyflwynwyd gwelliant nad oedd yn ymwneud â'r Llywodraeth yn enw Delyth Jewell AS yn ceisio ei gwneud yn ofynnol i brif gynghorau 'wneud trefniadau i ddarparu gwasanaeth ymchwil a chyngor i'w aelodau'. Fel y dywedais yn ystod y trafodion Pwyllgor Cyfnod 2, rwy'n deall y bwriad y tu ôl i'r gwelliant hwn ac yn cytuno, er mwyn i aelodau'r prif gynghorau ymgymryd â'u rôl yn effeithiol, bod yn rhaid iddynt gael gafael ar wybodaeth amserol, gyfoes, gywir y mae ymchwil dda yn sail iddi.

Nid oeddwn yn gallu cefnogi'r gwelliant hwn gan fod darpariaethau ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mewn perthynas â rôl Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, eisoes yn cynnwys y swyddogaeth o ddarparu cyngor a chymorth i aelodau, a bwriedir y bydd hyn yn cynnwys gwasanaethau ymchwil. Yn ystod trafodion y Pwyllgor ymrwymais i ymchwilio i botensial defnyddio canllawiau i sicrhau bod prif gynghorau yn ymwybodol y dylai'r cyngor a'r cymorth hwn gynnwys gwasanaethau ymchwil

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 154
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O dan adran 8 o Fesur 2011, mae'n ofynnol i brif gyngor ddarparu unrhyw staff, swyddfeydd ac adnoddau eraill i'w Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd sydd, yn ei farn ef, yn ddigonol i ganiatáu iddynt gyflawni eu swyddogaethau. Rwyf wedi cyflwyno gwelliant a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i brif gynghorau roi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â darparu adnoddau o'r fath.

Rwy'n rhagweld y gallai'r canllawiau hyn fanylu ar fanteision gwasanaeth ymchwil a ariennir yn ddigonol i aelodau a nodi y dylai cynghorau ystyried sut y gallent ddyrannu adnoddau er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaeth o'r fath.

Presenoldeb o Bell

Rwyf wedi cyflwyno gwelliannau mewn perthynas â phresenoldeb o bell a fydd yn ymestyn y ddarpariaeth hon, yn barhaol, i'r ystod o gyrff llywodraeth leol a gwmpesir gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 ('Rheoliadau 2020'). Disodlir adran 48 o'r Bil, a ddiwygiodd adran 4 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, gydag adran newydd sy'n gwneud y ddarpariaeth berthnasol o ran presenoldeb o bell i bob corff, nid prif gynghorau yn unig, ar wyneb y Bil.

Mae'r adran newydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i sicrhau y gellir cynnal cyfarfodydd ar sail rithwir yn gyfan gwbl, neu'n rhannol. Awdurdodau lleol yng nghyd-destun y darpariaethau hyn yw prif gynghorau, cynghorau cymuned, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau Parciau Cenedlaethol, ac awdurdod iechyd porthladd (ar gyfer ardal iechyd porthladd yng Nghymru o dan adran 2 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984). Bydd hefyd yn ofynnol i brif gyngor wneud trefniadau mewn perthynas â chyfarfodydd y weithrediaeth, pwyllgorau, is-bwyllgorau ac yn y blaen.

Cyfarfodydd a thrafodion awdurdodau lleol

Fel y nodais yn fy llythyr blaenorol, mae pandemig COVID-19 wedi datgelu bod darpariaethau cyfredol mewn perthynas â chyfarfodydd awdurdodau lleol yn hen ffasiwn, yn enwedig y darpariaethau gweithdrefnol a thechnegol sy'n llywodraethu sut y cofnodir cyfarfodydd, sut yr anfonir gwysion at aelodau, a sut y cyhoeddir dogfennau, gan gynnwys hysbysebion, agendâu a chofnodion.

Rwyf wedi cyflwyno gwelliant i ddisodli Atodlen 4 bresennol y Bil, gydag Atodlen newydd gyda'r pennawd "Hysbysiad o Gyfarfodydd Awdurdodau Lleol, Mynediad at Ddogfennau a Phresenoldeb mewn Cyfarfodydd" i adlewyrchu'r pwnc estynedig.

Mae Rhan 1 o'r Atodlen newydd yn gwneud nifer o welliannau i'r ddeddfwriaeth bresennol, gan gynnwys Rhan 5A ac Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960 mewn perthynas ag amrywiaeth o faterion, gan gynnwys:

- (a) hysbysiadau o gyfarfodydd awdurdodau lleol yng Nghymru,
- (b) mynediad at ddogfennau sy'n ymwneud â'r cyfarfodydd hynny a chyfarfodydd pwyllgorau ac is-bwyllgorau, a'u cyhoeddi;
- (c) cyhoeddi hysbysiadau cyhoeddus gan awdurdodau lleol nad ydynt yn ymwneud â chyfarfodydd awdurdodau lleol;
- (d) cyhoeddi gwysion i aelodau fynychu cyfarfodydd awdurdodau lleol.

Bydd y gwelliannau hyn yn berthnasol i brif gynghorau, awdurdodau Parciau Cenedlaethol, awdurdodau tân ac achub, cyd-fyrddau, cyd-bwyllgorau ac Awdurdod Iechyd Porthladd Bae

Abertawe (gan gynnwys eu pwyllgorau a'u his-bwyllgorau). Bydd rhai o'r diwygiadau hefyd yn berthnasol i gynghorau cymuned (gan gynnwys mewn perthynas â chynnwys hysbysiadau a sut y cânt eu rhoi, a sut y cyhoeddir gwysion).

Mae Rhan 2 o'r Atodlen yn darparu ar gyfer y gwelliannau canlyniadol angenrheidiol sy'n deillio o'r diwygiadau presenoldeb o bell gan gynnwys diddymu adran 4 o Fesur 2011.

Pwerau gwneud rheoliadau

Er mwyn cwblhau'r gwaith o foderneiddio trefniadau cyfarfodydd a thrafodion awdurdodau lleol, ac yn hanfodol i gefnogi awdurdodau i symud ymlaen yn y byd wedi COVID-19, mae angen rhoi pwerau gwneud Rheoliadau i Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gallu i ddiwygio a diddymu deddfwriaeth sylfaenol, mewn perthynas â:

- (a) cynnal cyfarfodydd awdurdodau lleol, dogfennau sy'n ymwneud â chyfarfodydd a chyhoeddi gwybodaeth
- (b) cyfarfodydd cymunedol
- (c) gwneud darpariaeth bellach neu wahanol ynghylch y dull o roi hysbysiad cyhoeddus y mae'n ofynnol i awdurdod lleol ei roi (paragraff 17 o Atodlen 4 i'r Bil).

Mae'r rhannau o ddarpariaethau am y materion hyn, a nodir mewn deddfwriaeth sylfaenol sy'n dyddio'n ôl i 1960, 1972 a 1985, yn helaeth, yn gymhleth ac wedi dyddio'n fawr. Mae geiriad a chynnwys y darpariaethau'n adlewyrchu'n glir fyd a ffyrdd o wneud busnes sy'n rhagflaenu'r rhyngryd a chyfathrebu electronig. Mae'r profiad o orfod cyflwyno Rheoliadau 2020 o ganlyniad i'r pandemig wedi amlygu pa mor frawychus yw diweddarau a newid y darpariaethau hyn, yn bennaf gan eu bod wedi'u nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol - siawns mai dyma'r prif reswm pam nad yw'r diwygiadau hyn y mae mawr eu hangen erioed wedi'u gwneud. Mae'n werth nodi nad yw'r trefniadau ar gyfer llywodraeth leol yn gyson â darpariaethau cyfatebol ar gyfer cyrff democrataidd eraill, lle nodir trefniadau gweithdrefnol o'r fath mewn is-ddeddfwriaeth, neu reolau sefydlog.

Byddai darparu ar gyfer diwygio'r darpariaethau hyn drwy is-ddeddfwriaeth, yn hytrach nag mewn deddfwriaeth sylfaenol, yn caniatáu, maes o law, i gynnal adolygiad cynhwysfawr o drefniadau cyfarfodydd diweddaraf y cyngor a'i ddiwygio yn ôl yr angen. Bydd yr adolygiad yn gallu ystyried y profiad o weithio gyda'r trefniadau newydd a roddwyd ar waith ar gyfer y pandemig a pharhau drwy fy ngwelliannau arfaethedig.

Byddai'r pwerau, yr wyf yn bwriadu eu gwneud yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn y Senedd, yn gadael trefniadau gweithdrefnol llywodraeth leol ar ffurf y gellir ei diweddarau a'i diwygio'n fwy hwylus yn ôl yr angen yn y dyfodol.

Rhagwelaf y bydd y defnydd cyntaf o'r pwerau yn debygol o fod yn gymedrol ei natur, gyda Rheoliadau newydd yn cael eu cyfyngu'n bennaf i resymoli a symleiddio. Bydd Rheoliadau 2020, ynghyd â'r darpariaethau y cynigir eu mewnosod yn y Bil yng Nghyfnod 3, yn moderneiddio'r rheolau a'r gweithdrefnau yn sylweddol. Felly, rwyf o'r farn y byddai unrhyw Reoliadau newydd cynhwysfawr a wneir o dan y pwerau hyn, i raddau helaeth iawn, yn gyfuniad o'r ddarpariaeth bresennol mewn cyfres o Reoliadau, gyda rhai gwelliannau pellach.

Darllediadau electronig o gyfarfodydd awdurdodau lleol

Ar ôl ystyried ymhellach y materion a godwyd gan y Pwyllgorau a rhanddeiliaid yng Nghyfnod 1, rwyf hefyd wedi penderfynu cyflwyno gwelliannau i'r darpariaethau mewn perthynas â darlledu cyfarfodydd awdurdodau lleol yn electronig.

Roedd y darpariaethau darlledu, fel y'u drafftiwyd i'w cyflwyno, yn ei gwneud yn ofynnol i brif gynghorau wneud trefniadau i sicrhau bod holl gyfarfodydd y cyngor (gan gynnwys cyfarfodydd y weithrediaeth), neu bwyllgor neu is-bwyllgor o'r cyngor, yn cael eu darlledu, lle'r oeddent yn agored i'r cyhoedd, tra bod y cyfarfod yn cael ei gynnal. Roedd hefyd yn ofynnol i'r darllediad fod ar gael yn electronig am gyfnod rhesymol o amser ar ôl y cyfarfod.

Yn ystod Cyfnod 1 mynegwyd pryderon ynghylch y gofynion y byddai'r gofyniad hwn yn eu rhoi ar awdurdodau lleol. Mae awdurdodau lleol hefyd wedi mynegi pryderon ynghylch sut y bydd y darpariaethau'n effeithio ar estyn allan i'r gymuned lle cynhelir cyfarfodydd y cyngor ar draws ardal ddaearyddol y sir, mewn mannau na allent gefnogi darlledu byw.

Rwyf wedi cyflwyno gwelliannau sy'n dileu'r gofyniad i ddarlledu pob cyfarfod yn fyw, gyda phrif gynghorau yn hytrach yn gorfod gwneud trefniadau ar gyfer darlledu cyfarfodydd y cyngor llawn yn unig wrth i'r cyfarfod gael ei gynnal. Bydd hyn yn galluogi aelodau o'r cyhoedd i weld a chlywed y cyfraniadau a wnaed gan eu cynghorwyr lleol mewn cyfarfodydd llawn o'r cyngor.

Bydd y gwelliannau yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy wneud Rheoliadau, i ychwanegu cyfarfodydd eraill at y rhestr o'r rhai y mae'n ofynnol eu darlledu. Gellir gwneud rheoliadau hefyd sy'n pennu amodau ar gyfer darlledu, a allai gynnwys materion fel pennu pa gyfarfodydd y mae'n rhaid eu darlledu'n fyw a pha rai y gellir eu recordio'n fyw a'u darlledu'n ddiweddarach. Mae'r rhain yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol y Senedd.

Rwyf hefyd wedi ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch y gwelliannau yr wyf wedi'u cyflwyno.

Yn gywir



Julie James AS/MS
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Mick Antoniwn AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

03 Tachwedd 2020

Annwyl Mick

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Hydref ynghylch Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Preswyl: Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) 2020.

O ran y ddau bwynt sydd gennych mewn perthynas ag amseriad gosod y rheoliadau, fel y dywedwch yn eich llythyr, mae galw sylweddol iawn ar adnoddau Llywodraeth Cymru oherwydd y coronafeirws, Brexit a'r pwysigrwydd sy'n cael ei roi ar orffen y rhaglen ddeddfwriaethol ddiwygiedig. Unwaith iddi ddod yn amlwg y byddai hyn yn golygu na ellid gosod y rheoliadau mewn modd amserol, fel sy'n digwydd fel arfer, fe soniais yn glir, mewn datganiad yn y Senedd am gwmpas y rheoliadau yr oeddem yn bwriadu eu gwneud cyn diwedd Medi. Roedd yr wybodaeth honno hefyd wedi cael ei chyflwyno'n uniongyrchol i landlordiaid gan Rhentu Doeth Cymru ar ôl y datganiad.

Mewn perthynas â'ch cais am resymau llawn dros safbwynt Llywodraeth Cymru bod y Rheoliadau yn cydymffurfio ag Erthygl 1 Protocol 1 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, nid oes gennym ragor i'w ychwanegu at y datganiad a wnaed eisoes. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i deimlo'n fodlon bod y Rheoliadau yn gydnaws â'r Confensiwn, ac fe hoffwn eich cyfeirio at y rhesymeg dros y newidiadau sydd wedi ei nodi yn adran diben ac effaith y Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 158
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir

A handwritten signature in blue ink that reads "Julie James". The signature is written in a cursive, flowing style.

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

Julie James AS
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

22 Hydref 2020

Annwyl Julie

Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Preswyl: Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) 2020

Yn ein cyfarfod ar 12 Hydref 2020, gwnaethom graffu ar **Reoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Preswyl: Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) 2020**, gan gyflwyno adroddiad ar yr un diwrnod, a gwnaethom ystyried ymateb Llywodraeth Cymru yn ein cyfarfod ar 19 Hydref.

Roedd y pwynt cyntaf yn ein **hadroddiad** yn datgan nad oedd yn glir inni pam fod angen i'r Rheoliadau hyn ddod i rym ar frys gan dorri'r rheol 21 diwrnod. Er ein bod yn nodi'r ddau ffactor a nodwyd yn ymateb Llywodraeth Cymru fel rhesymau dros yr oedi cyn gosod y Rheoliadau, nid yw'n glir gennym o hyd pam na ellid bod wedi rhoi mwy o flaenoriaeth i'r Rheoliadau hyn a'u cyflwyno yn gynharach.

Yn ôl **ymateb** Llywodraeth Cymru:

“...roedd y Rheoliadau'n ymateb i set o amgylchiadau a oedd yn newid yn gyflym, gan gynnwys y ffaith fod y pandemig ei hun yn esblygu, bod yr ataliad ar achosion adennill meddiant yn y llysoedd yn cael ei ddileu, a diwygiadau Llywodraeth y DU i Atodlen 29 i Ddeddf y Coronafeirws. Roedd angen ystyried y materion hyn i gyd cyn y gellid gosod y Rheoliadau.”

Byddem yn falch o gael eglurder a manylion pellach ynghylch pam roedd y rhesymau a nodwyd gennych yn teilyngu peidio â gwneud y Rheoliadau tan 25 Medi 2020, o ystyried eich bod yn ymwybodol bod y ddeddfwriaeth a oedd mewn grym ar y pryd yn nodi bod yn rhaid i'r cyfnod ar gyfer rhoi hysbysiad hwy i denantiaid ddod i ben ar 30 Medi.

At hynny, ac o gofio bod y bwriad polisi sy'n sail i'r Rheoliadau wedi'i gyhoeddi yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Medi 2020 fel rhan o'ch datganiad ar Dai, Tlodi a Chymunedau, byddem yn ddiolchgar o gael esboniad pam na chafodd y Rheoliadau eu gosod gerbron



Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

SeneddDCC@senedd.cymru

0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

SeneddLJC@senedd.wales

0300 200 6565

y Senedd tan 28 Medi 2020. Er ein bod yn cydnabod y byddai'r amserlen hon dal wedi arwain at dorri'r rheol 21 diwrnod, ac er ein bod yn cydnabod y galw sydd ar gapasiti Llywodraeth Cymru i ddeddfu, mae oedi bron i bythefnos rhwng cyhoeddi'r Rheoliadau a'u gosod yn anfodhaol, yn enwedig o ran effaith y Rheoliadau ar randdeiliaid perthnasol.

Roedd ein hail bwynt adrodd yn gofyn i Lywodraeth Cymru nodi sut y mae'n ystyried bod y Rheoliadau hyn yn cydymffurfio â Phrotocol 1 o Erthygl 1 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Nid oedd ymateb Llywodraeth Cymru yn trafod y pwynt hwn; dim ond "Credwn fod y Rheoliadau'n gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol". Nid ydym yn ystyried bod hwn yn ymateb boddhaol, ac felly byddem yn ddiolchgar pe gallech nodi'ch rhesymau llawn dros ystyried bod y Rheoliadau'n cydymffurfio ag Erthygl 1 o Brotool 1 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Yn gywir



Mick Antoniw AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English



Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Preswyl: Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) 2020

Pwynt Craffu ar Rinweddau 1: Fel y nododd y Pwyllgor eisoes o'r llythyr a anfonwyd gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd at y Llywydd, roedd gofyniad absoliwt i ddod â'r Rheoliadau i rym cyn 30 Medi fel bod darpariaethau Atodlen 29 i Ddeddf y Coronafeirws 2020 yn parhau i fod yn gymwys ar ôl y dyddiad hwnnw. Mae Llywodraeth Cymru bob amser yn awyddus i roi cymaint o rybudd ymlaen llaw ag sy'n bosibl ac yn briodol cyn iddi gyflwyno deddfwriaeth newydd. Am y rheswm hwnnw, cyhoeddodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol y bwriad i ymestyn y cyfnod perthnasol hyd at fis Mawrth 2021 yn ei datganiad ar Dai, Tlodi a Chymunedau a roddwyd yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Medi 2020.

Fodd bynnag, golygodd cyfuniad o ddau ffactor nad oedd yn bosibl gosod y Rheoliadau 21 diwrnod cyn ei bod yn ofynnol iddynt ddod i rym. Yn gyntaf, mae'r galwadau ar Lywodraeth Cymru yn sgil yr angen i ymateb i bandemig wedi cael effaith sylweddol ar ein gallu i wneud deddfwriaeth, a bu'n rhaid i'r Llywodraeth wneud penderfyniadau anodd ynglŷn â'r rhaglen ddeddfwriaethol er mwyn blaenoriaethu adnoddau. Yn ail, roedd y Rheoliadau'n ymateb i set o amgylchiadau a oedd yn newid yn gyflym, gan gynnwys y ffaith fod y pandemig ei hun yn esblygu, bod yr ataliad ar achosion adennill meddiant yn y llysoedd yn cael ei ddileu, a diwygiadau Llywodraeth y DU i Atodlen 29 i Ddeddf y Coronafeirws. Roedd angen ystyried y materion hyn i gyd cyn y gellid gosod y Rheoliadau.

Er bod Llywodraeth Cymru yn derbyn bod ganddi'r pŵer i wneud y Rheoliadau hyn ers misoedd lawer, nid yw hynny'n golygu y gallai nac y dylai fod wedi gweithredu'n gynt i'w gwneud.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 2: Credwn fod y Rheoliadau'n gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 3: Mae Llywodraeth Cymru yn nodi sylw'r Pwyllgor ac nid oes ganddi ddim byd pellach i'w ychwanegu mewn perthynas â'r pwynt hwn.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 4: Mae'r pwynt hwn yn codi pryderon ynghylch faint o rybudd a roddwyd i landlordiaid ac eraill, y diffyg ymgynghori a'r diffyg asesiad effaith rheoleiddiol meintioledig.

Fel y nodwyd wrth ymateb i bwynt 1 uchod, yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Medi cyhoeddodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol y bwriad i ymestyn tan fis Mawrth 2021 y cyfnod perthnasol pan fo cyfnodau hysbysu hwy yn gymwys. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r cyhoeddiad ar yr un diwrnod drwy'r dulliau a ganlyn: diweddariad a anfonwyd at bob landlord cofrestredig yng Nghymru drwy Rhentu Doeth Cymru, cyhoeddi hysbysiad i'r wasg, a negeseuon perthnasol a gyhoeddwyd drwy gyfrifon

cyfryngau cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Gwnaed hyn er mwyn rhoi cymaint o rybudd â phosibl o'r newidiadau arfaethedig i landlordiaid ac eraill.

Er nad oedd yn bosibl cynnal ymgynghoriad ffurfiol yn yr amser a oedd ar gael cyn gwneud y ddeddfwriaeth frys hon, mae gan Lywodraeth Cymru berthynas gref â rhanddeiliaid o bob rhan o'r sector tai, a chafodd sylwadau a thystiolaeth amrywiol ganddynt mewn perthynas â chyfnodau hysbysu. Helpodd y dystiolaeth honno i lywio'r broses o lunio'r Rheoliadau, gan gynnwys, er enghraifft, y penderfyniad i droi'n ôl at y trefniadau cyn-Covid ar gyfer hysbysiadau sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a thrais domestig.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio ym mharagraff 6.1 fod *argyfwng COVID-19 a'r brys i baratoi'r Rheoliadau hyn yn golygu nad oedd hi'n bosibl paratoi Asesiad Effaith Rheoleiddiol meintioledig*. Er bod cyfnod o ddau fis rhwng gwneud y Rheoliadau hyn a'r rheoliadau blaenorol a wnaed ym mis Gorffennaf, gwnaed y penderfyniad i ymestyn y cyfnod perthnasol ar rybudd cymharol fyr serch hynny, mewn ymateb i sefyllfa a oedd yn newid yn gyflym, felly nid oedd digon o amser ychwanegol ar gael i gynnal asesiad effaith rheoleiddiol llawn. Yn ogystal, gan mai dim ond ar 20 Medi yr oedd yr ataliad ar achosion adennill meddiant yn y llysoedd yn dod i ben, nid yw cyfnodau hysbysu hwy wedi cael llawer o effaith y gellir ei hasesu hyd yma. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y Memorandwm Esboniadol yn dweud ym mharagraff 6.4, os oes costau ychwanegol i landlordiaid yn deillio o'r oedi ychwanegol i wneud hawliad i'r llys, a'r ôl-ddyledion a allai gronni yn ystod y cyfnod hwnnw, fod hyn bellach wedi'i liniaru drwy gyflwyno'r cynllun Benthyciad Arbed Tenantiaeth. Fel y dywed paragraff 6.4, "*Bydd yr arian o'r benthyciadau hyn yn cael ei dalu'n uniongyrchol i landlordiaid, a dylai fod yn help mawr i ysgafnhau unrhyw faich ariannol arnynt o ganlyniad i ôl-ddyledion rhent*". Efallai yr hoffai'r Pwyllgor nodi hefyd bod asesiad effaith integredig wedi'i gwblhau, ac y bydd crynodeb ohono'n cael ei gyhoeddi cyn bo hir.

SL(5)623 – Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Preswyl: Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) 2020

Cefndir a diben

Mae Adran 81 o Ddeddf y Coronafeirws 2020 (“Deddf 2020”) ac Atodlen 29 iddi yn darparu amddiffyniad rhag troi allan drwy gynyddu’r cyfnod hysbysu y mae’n rhaid i landlord ei roi i denant wrth geisio meddiant.

Mae’r Rheoliadau hyn yn ymestyn tan 31 Mawrth 2021 y cyfnod pan fydd yn rhaid rhoi mwy o hysbysiad i denantiaid sy’n cael tenantiaethau o dan Ddeddf Rhenti 1977 a Deddfau Tai 1985, 1988 a 1996. Y dyddiad terfyn blaenorol oedd 30 Medi 2020.

Ar ben hynny, mae’r Rheoliadau hyn yn ymestyn y cyfnod hysbysu y mae’n rhaid ei roi ar gyfer y rhan fwyaf o hysbysiaid a roddir mewn perthynas â thenantiaethau gwarchoddedig a statudol, tenantiaethau diogel, tenantiaethau rhagarweiniol a thenantiaethau isradd, o dri mis i chwe mis. Mae hyn yn golygu bod y tenantiaethau hynny’n cyd-fynd â’r cyfnod hysbysu o chwe mis y mae’n rhaid ei roi eisoes mewn perthynas â thenantiaethau sicr a thenantiaethau byrddaliadol sicr.

Fodd bynnag, yn achos pob tenantiaeth, mae’r Rheoliadau’n gohirio’r cyfnodau hysbysu hwy y mae’n rhaid eu rhoi o dan Atodlen 29 i Ddeddf 2020 mewn perthynas ag achosion lle mae’r sail neu’r rheswm dros roi’r hysbysiad yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol neu drais domestig.

Mae adran 88(1) o Ddeddf 2020 yn darparu pŵer i awdurdod cenedlaethol perthnasol (Gweinidogion Cymru yn yr achos hwn) wneud rheoliadau i atal gweithrediad unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf honno dros dro. Caniateir gwneud rheoliadau hefyd i adfer darpariaeth a ataliwyd dros dro (adran 88(3)), a chaniateir i’r darpariaethau yn 88(1) a (3) gael eu defnyddio fwy nag unwaith (gweler adran 88(4)).

Gweithdrefn

Negyddol.

Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â’r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu



Nodir y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodwn fod y rheol 21 diwrnod wedi cael ei thorri mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn (hynny yw, y rheol y dylai 21 diwrnod fynd heibio rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym). Mae'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Rebecca Evans, yn darparu esboniad am dorri'r rheol mewn llythyr at y Llywydd dyddiedig 28 Medi 2020:

Mae angen brys o hyd i sicrhau bod cyn lleied â phosibl o denantiaid mewn perygl o gael eu troi allan o'u cartrefi, er mwyn parhau i gyfyngu ar y Coronafeirws, lleihau'r baich ar staff rheng flaen, a sicrhau bod tenantiaid yn cael cymorth priodol. Mae'r Rheoliadau'n gwneud cyfraniad pwysig at ddiwallu'r angen brys hwnnw. Er mwyn sicrhau bod darpariaethau Atodlen 29 yn dal yn berthnasol ar ôl 30 Medi, daw'r Rheoliadau i rym ar 29 Medi 2020.

Yn yr un modd, mae paragraff 2.1 o Femorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru yn nodi fel a ganlyn:

Mae angen brys i sicrhau bod y cyfnod perthnasol yn cael ei ymestyn y tu hwnt i 30 Medi. Rhaid cadw nifer y bobl sydd mewn perygl uniongyrchol o gael eu troi allan o'u cartrefi yn isel, er mwyn parhau i gyfrannu at yr ystod o fesurau sydd ar waith er mwyn ymateb i'r feirws. Felly, daw'r Rheoliadau i rym ar 29 Medi 2020 ac nid ydynt yn dilyn y confensiwn na ddylai Rheoliadau ddod i rym am o leiaf 21 diwrnod ar ôl eu gosod.

Er ein bod yn cydnabod y bu'n rhaid rhoi nifer o fesurau ar waith ar frys yn ystod pandemig y Coronafeirws, nid yw'n glir i ni pam y bu'n rhaid i'r Rheoliadau hyn ddod i rym ar gymaint o frys fel eu bod yn torri'r rheol 21 diwrnod. Ers y ddarpariaeth debyg a wnaed ym mis Gorffennaf gan Reoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Sicr a Thenantiaethau Byrddaliadol Sicr, Estyn Cyfnodau Hysbysu) (Diwygio) (Cymru) 2020 (y "Rheoliadau blaenorol"), bu cyfnod o ddau fis i Weinidogion Cymru ystyried a rhoi darpariaeth ar waith y tu hwnt i 30 Medi. Er hyn, gwnaed y Rheoliadau hyn ar 25 Medi, fe'u gosodwyd ar 28 Medi a daethant i rym ar 29 Medi. Gwnaethom nodi yn ein hadroddiad ar y Rheoliadau blaenorol, fod gan Weinidogion Cymru bŵer i wneud rheoliadau o'r fath ers 25 Mawrth 2020 (pan basiwyd Deddf 2020).

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Mae'r Rheoliadau hyn yn ymgysylltu â hawliau landlordiaid o dan Erthygl 1 Protocol 1 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ("A1P1"). Yn ôl A1P1:



Every natural or legal person is entitled to the peaceful enjoyment of his possessions. No one shall be deprived of his possessions except in the public interest and subject to the conditions provided for by law and by the general principles of international law.

The preceding provisions shall not, however, in any way impair the right of a State to enforce such laws as it deems necessary to control the use of property in accordance with the general interest or to secure the payment of taxes or other contributions or penalties.

Mae'r Rheoliadau'n ymestyn, mewn rhai achosion, y cyfnod hysbysu y mae'n rhaid i landlord ei roi i denant, o dri mis i chwe mis ar ôl 29 Medi 2020. Effaith y Rheoliadau yw cyfyngu ar ddefnydd a mwynhad landlord o'i eiddo am y cyfnod ychwanegol hwn. Mae A1P1 yn hawl amodol ac felly caniateir rheoli defnydd y landlord o'i eiddo os bernir bod hynny'n angenrheidiol er budd cyffredinol.

Wrth ystyried a oes modd cyfiawnhau ymyrraeth, rhaid i'r Wladwriaeth ddangos bod gan y rheoliadau nod cyfreithlon sy'n ddigonol i gyfiawnhau cyfyngu hawliau landlordiaid, bod y rheoliadau wedi'u cysylltu'n rhesymol â'r nod hwnnw, na ellir bod wedi defnyddio mesur llai ymwithiol, a bod perthynas resymol o gymesuredd rhwng y modd a ddefnyddir i gyflawni'r nod dan sylw, a'r nod y ceisir ei gyflawni.

Yn ein hadroddiad ar y Rheoliadau blaenorol, fe wnaethom nodi nad oedd dadansoddiad ym Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru o hawliau A1P1 landlordiaid a sut y gellir cyfiawnhau ymyrryd â'r hawliau hyn. Ni roddodd ymateb y Llywodraeth i adroddiad y Pwyllgor ar y Rheoliadau blaenorol hynny unrhyw fanylion am y rhesymeg dros benderfyniad y Llywodraeth.

Nid yw'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau hyn yn cynnwys dadansoddiad o'r effaith ar hawliau dynol ychwaith. O'r herwydd, nid yw'n bosibl i ddarllen y Rheoliadau ddeall sut mae'r Llywodraeth wedi pwyso a mesur hawliau cystadleuol landlordiaid, tenantiaid a'r cyhoedd yn ehangach.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru nodi sut y mae'n ystyried bod y rheoliadau hyn yn cydymffurfio ag A1P1 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Mae paragraff 2.3 o Femorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru yn trafod mater ôl-weithredol:

Er bod y Rheoliadau'n berthnasol yn y dyfodol (hy ar y dyddiad y daw'r diwygiadau i rym, neu ar ôl hynny) mae elfen ôl-weithredol yn perthyn i'r Rheoliadau oherwydd bod y cyfnodau rhybudd mewn tenantiaethau presennol yn cael eu newid dros dro. Fodd bynnag, bydd y cyfnod rhybudd estynedig yn berthnasol i rybuddion a gyflwynir ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau i rym, neu ar ôl hynny.



Er ein bod yn sylweddoli y bydd y Rheoliadau'n gymwys yn y dyfodol, yn yr ystyr mai dim ond hysbysiadau a roddir ar ôl y dyddiad y daw'r Rheoliadau i rym a gaiff eu heffeithio gan y darpariaethau, bydd y Rheoliadau'n gymwys i denantiaethau presennol a wnaed rhwng landlordiaid a thenantiaid.

4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Mae paragraff 6.1 o'r Memorandwm Esboniadol yn egluro nad yw Llywodraeth Cymru wedi gallu paratoi Asesiad Effaith Rheoleiddiol meintioledig, ond bod y Memorandwm Esboniadol yn darparu disgrifiad ansoddol o effeithiau tebygol y Rheoliadau. Fodd bynnag, gosodwyd y Rheoliadau hyn ar 28 Medi 2020 a daethant i rym ar 29 Medi 2020 gan roi dim ond ychydig oriau o rybudd i landlordiaid a rhanddeiliaid eraill o'r newid sylweddol hwn i'r gyfraith a'u hawliau.

O ran effeithiau economaidd posibl y Rheoliadau ar landlordiaid, mae paragraff 6.11 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi fel a ganlyn:

...er y byddai landlordiaid yn dal yn gallu adennill meddiant os bydd tenant yn peidio â thalu rhent neu'n torri telerau ei denantiaeth fel arall, a bydd y sefydliad sydd wedi rhoi'r benthyciad yn dal yn gallu adennill meddiant os bydd y landlord yn peidio â thalu'r morgais, ond mae costau ychwanegol posibl iddynt yn deillio o ganlyniad i gyfnodau rhybudd hwy. Fodd bynnag, gallai'r amser ychwanegol i landlordiaid, tenantiaid ac asiantaethau cymorth weithio gyda'i gilydd i bennu a chytuno ar drefniadau i gefnogi tenantiaid i reoli eu harian yn well ac ad-dalu unrhyw ôl-ddyledion rhent wrthbwysu'r effaith ariannol. Felly, dylai unrhyw effaith economaidd negyddol fod yn fach iawn.

Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod y diffyg ymgynghori a'r ffaith na wnaed asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i feintioli yn ei gwneud hi'n anoddach darganfod a yw'r Rheoliadau'n cynrychioli ymateb cymesur gan Lywodraeth Cymru. Bu cyfnod o ddau fis hefyd ers i'r Rheoliadau blaenorol gael eu gwneud, a allai fod wedi rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru asesu effeithiau'r darpariaethau ymhellach.

Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 12 Hydref 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.





Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament

Tudalen y pecyn 168

Legislation, Justice and Constitution Committee



Mick Antoniw AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddLJC@senedd.cymru

3 Tachwedd 2020

Annwyl Gadeirydd

Rwy'n ysgrifennu i roi gwybod ichi y bydd uwch gynhadledd rhif 34 y Cyngor Prydeinig–Gwyddelig yn cael ei chynnal yn ddiweddarach yr wythnos hon. Cytunodd y Gweinyddiaethau sy'n Aelodau i ohirio'r Uwch gynhadledd a oedd i fod i gael ei chynnal yn gynharach yn y flwyddyn. Bydd yn cael ei chynnal yn rhithwir gan Lywodraeth yr Alban.

Bydd Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru a minnau yn cynrychioli Llywodraeth Cymru yn y gynhadledd. Bydd yr uwch gynhadledd yn canolbwyntio ar ddatblygiadau gwleidyddol diweddar, gan gynnwys ein hadferiad economaidd o coronafeirws.

Bydd communiqué yn cael ei gytuno gan y Cyngor yn yr uwch gynhadledd a byddaf yn rhoi gwybod i Aelodau maes o law am fanylion cyhoeddi'r communiqué ac am ganlyniadau'r uwch gynhadledd.

Cyn yr Uwch gynhadledd, cynhelir cyfarfod Gweinidogol sector gwaith Amgylchedd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig i adolygu gwaith ar y cyd ar yr amgylchedd morol, newid yn yr hinsawdd a rhywogaethau ymledol nad ydynt yn frodorol. Bydd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig yn cynrychioli Llywodraeth Cymru yn y cyfarfod hwn.

Mewn datganiad ar gysylltiadau rhynglywodraethol yr wythnos diwethaf, gydag adroddiad blynyddol cyntaf Llywodraeth Cymru i'r Senedd ar gysylltiadau rhynglywodraethol ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2020, a osodwyd ar 27 Hydref, tanlinellais bwysigwydd ein perthnasoedd gyda'n partneriaid yn y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig. Dyma berthynas a fydd, gobeithio, yn parhau i dyfu mewn pwysigrwydd wrth i'r cyngor barhau i ddangos yr hyn sy'n bosibl ei gyflawni drwy drafod a chydweithio.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf wedi anfon llythyr tebyg at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, David Rees AS a Chadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, Mike Hedges AS.

Dymuniadau gorau

A handwritten signature in black ink that reads "Mark Drakeford". The signature is written in a cursive, slightly slanted style.

MARK DRAKEFORD



Mick Antoniw AS
Chair Legislation, Justice and Constitution Committee
Senedd Cymru

SeneddLJC@senedd.wales

4 November 2020

Dear Mick

Thank you for your letter of 23 October concerning our decision to not table a motion with regard to the Cross-Border Healthcare (Amendment etc.) (EU Exit) Regulations 2020.

Last year I gave a commitment that the government would go beyond the requirements of Standing Orders and routinely table motions for debate in relation to Statutory Instrument Consent Memorandums (SICMs) laid under Standing Order 30A. In line with that commitment we have scheduled debates except where there has been good reason not to do so. One recent example of not scheduling a debate was the above Regulations, which were uncontroversial from a policy perspective. In that particular case, the changes were technical in nature, and there was no divergence in policy between the Welsh Government and the UK Government.

It has become clear there is very little appetite for detailed debate in the chamber for what are usually technical measures. Consequently, and not least because plenary time is at a premium, we propose no longer routinely to table such motions for debate.

We will continue to comply with Standing Orders and lay SICMs when required. We will also give consideration to tabling a government motion where appropriate (eg where the issues are substantive or novel and potentially contentious). We will work closely with the Legislation, Justice and Constitution Committee in making such decisions. It will of course remain open for any member of the Senedd to table a motion seeking the Senedd's agreement to the inclusion of a relevant provision in a relevant statutory instrument.

Best Wishes

MARK DRAKEFORD

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru

23 Hydref 2020

Annwyl Mark

Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol - Rheoliadau Gofal Iechyd Cilyddol a Thrawsffiniol (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020

Yn ein cyfarfod ar **19 Hydref 2020** gwnaethom drafod **Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol Llywodraeth Cymru ar gyfer Rheoliadau Gofal Iechyd Cilyddol a Thrawsffiniol (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020** (y Rheoliadau), a osodwyd gerbron y Senedd ar 5 Hydref gan Vaughan Gething AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (y Gweinidog).

Rydym yn siomedig o weld i'r Gweinidog nodi na fydd yn cyflwyno cynnig o dan Reol Sefydlog 30A.10 fel y gall y Senedd roi ei chydysyniad i gynnwys y ddarpariaeth berthnasol yn y Rheoliadau.^{1 2} Fel y gwyddoch, mae hon yn sefyllfa gwbl anfoddfaol i unrhyw Weinidog o Gymru ei mabwysiadu yn ein barn ni.

Rydym **eisoes wedi mynegi pryderon** i chi fod y broses Cydsyniad Offeryn Statudol yn cael ei defnyddio fel modd i Weinidogion Cymru roi cydsyniad yn ddiodyn, gan osgoi prosesau craffu'r Senedd, a bod y broses gydsynio bellach yn ymdebygu proses y weithdrefn negyddol ar gyfer ystyried offerynnau statudol, pan fernir bod cydsyniad wedi'i roi oni bai fod Aelod o'r Senedd yn ymyrryd. Dyma nodi unwaith eto nad yw hyn yn briodol ac nad yw'n gydnaws ag ysbryd Rheol Sefydlog 30A.

At hynny, fel y nodwyd gennym ym mis Chwefror 2019, os yw Llywodraeth Cymru, drwy beidio â chyflwyno cynigion o dan Reol Sefydlog 30A.10, wedi sefydlu'r egwyddor â

¹Llythyr oddi wrth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – 2 Hydref 2020

² Er nad yw'r Pwyllgor wedi ei ystyried eto, mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd wedi dweud na fydd yn cyflwyno cynnig o dan Reol Sefydlog 30A.10 mewn perthynas â'r **Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ar gyfer Rheoliadau Ansawdd a Diogelwch Organau y Bwriedir eu Trawsblannu (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020**



Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

 SeneddDCC@senedd.cymru

 0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

 SeneddLJC@senedd.wales

 0300 200 6565

Llywodraeth y DU nad oes angen cydsyniad y Senedd yn gyffredinol, yna nid yw'n glir beth fyddai'n digwydd pe bai'r Senedd yn pleidleisio yn erbyn cynnig cydsyniad (h.y. gwrthod cydsyniad). O ystyried y sefyllfa bresennol o ran cysylltiadau rhynglywodraethol a'r pryderon eang ynghylch torri'r setliadau datganoli, nid ydym yn deall rhesymeg gyfredol Llywodraeth Cymru ar y materion hyn.

Byddwch yn ymwybodol fod sawl gohebiaeth wedi'i chyfnwid rhyngom ni, chi a rhai eraill o Weinidogion Cymru ar y mater hwn dros y ddwy flynedd ddiwethaf.³ Byddwch hefyd yn ymwybodol fod y Llywydd wedi mynegi'r farn a ganlyn:

"...yr unig ffordd y gellir ceisio, a rhoi, cydsyniad y [Senedd] i'r fath ddarpariaethau yw drwy gyflwyno a phasio cynnig o'r fath. Os na fydd cynnig o'r fath wedi'i ystyried – heb sôn am ei basio – gan y [Senedd] mewn perthynas â darpariaeth berthnasol mewn unrhyw Fil neu Offeryn Statudol y DU, ni ellir dweud bod y [Senedd] wedi rhoi ei [ch]ydsyniad i'r ddarpariaeth honno."⁴

Hyd yn oed o dan yr amgylchiadau anodd presennol, ni fyddai dadleuon ar gynigion cydsyniad offeryn statudol yn ddefnydd amhriodol o amser ac adnoddau Llywodraeth Cymru na'r Senedd yn ein barn ni. At hynny, ni welwn fod gwahaniaeth o ran egwyddor rhwng rhoi cydsyniad ar gyfer darpariaethau perthnasol ym Miliau'r DU, fel y darperir ar ei gyfer yn Rheol Sefydlog 29, a rhoi cydsyniad ar gyfer darpariaethau perthnasol mewn offerynnau statudol a wneir gan Weinidogion y DU, fel y darperir ar ei gyfer yn Rheol Sefydlog 30A.

Rydym yn cydnabod fod yna ystyriaethau ymarferol o ran sicrhau bod pleidlais y Senedd ar gynnig cydsyniad yn cyd-fynd ag amserlen Senedd y DU ar gyfer ystyried yr offeryn statudol perthnasol, ond serch hynny, mae'n bosibl ei wneud. Gwelwyd bod hyn yn gweithio dros y misoedd diwethaf pan gyflwynodd y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol gynnis i ofyn am gydsyniad y Senedd i Weinidogion y DU wneud **Rheoliadau Gwastraff (Economi Gylchol) (Diwygio) 2020**. At hynny, er nad yw'r Pwyllgor wedi ei ystyried eto, rydym yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru yn **ceisio dadl cydsyniad** ar y **Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ar gyfer Rheoliadau Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (Addasiadau Canlyniadol) (Ymadael â'r UE) 2020**, sy'n awgrymu nad yw'r heriau o ran cydbwysu amserlenni'r ddwy Senedd yn anorchfygol.

Hoffwn hefyd eich atgoffa am gefndir y newidiadau a wnaed i'r Rheolau Sefydlog yn 2013, a grybwyllwyd gan y Llywydd yn ei llythyr ym mis Mai 2019:

"...cyflwynwyd y ddarpariaeth i Aelod ac eithrio aelod o'r Llywodraeth gyflwyno cynnig cydsyniad yn 2013, ochr yn ochr â dileu'r gofyniad i'r Llywodraeth gyflwyno cynnig mewn perthynas â phob memorandwm a osodir. Cynlluniwyd y weithdrefn i'w defnyddio mewn amgylchiadau pan fydd memorandwm y Llywodraeth yn nodi nad yw'n briodol rhoi cydsyniad ym marn y Llywodraeth, ac mae'n galluogi Aelodau eraill i ddadlau'r safbwynt croes ac i gyflwyno cynnig cydsyniad i'r perwyl hwnnw. Ni ragwelwyd y byddai ei angen mewn

³ Llythyrau at y Prif Weinidog – 11 Gorffennaf 2019, 30 Gorffennaf 2019; Llythyr oddi wrth y Prif Weinidog – 23 Awst 2019; Llythyr oddi wrth Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth – 17 Rhagfyr 2019

⁴ Llythyr at y Llywydd – 25 Mawrth 2019; Llythyr oddi wrth y Llywydd – 7 Mai 2019



sefyllfaoedd pan fo'r Llywodraeth yn cefnogi deddfwriaeth arfaethedig y DU, gan mai'r disgwyliad o dan yr amgylchiadau hynny yw y byddai'r Llywodraeth yn cyflwyno ei chynnig ei hun yn gofyn am gydsyniad y Cynulliad i'r ddeddfwriaeth fynd rhagddi."

Rydym yn parhau i gredu mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gyflwyno'r cynigion cydsynio angenrheidiol pan fydd un o Weinidogion Cymru yn gosod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Cwnsler Cyffredinol, ac at y Llywydd, Elin Jones AS.

Yn gywir,



Mick Antoniw AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English





Elin Jones AC, Llywydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Elin Jones AM, Presiding Officer

National Assembly for Wales

Mick Antoniw AC

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bae Caerdydd

CF99 1NA

Eich cyf:

Ein cyf: EJ/AJ

07 Mai 2019

Annwyl Mick,

Diolch i chi am eich llythyr ynghylch cymhwyso Rheol Sefydlog 30A.

Fel y gwyddoch, mae'n gonfensiwn sydd wedi'i hen sefydlu na fydd Senedd y DU fel arfer yn deddfu mewn perthynas â materion datganoledig heb gydsyniad y Cynulliad. Yn y cyd-destun hwnnw, mae Rheolau Sefydlog 29 a 30A yn nodi gweithdrefnau'r Cynulliad ar gyfer rhoi cydsyniad mewn perthynas â darpariaethau mewn Biliau ac Offerynnau Statudol sydd gerbron Senedd y DU, sy'n gwneud darpariaeth sydd naill ai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad neu'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

Er bod yna gryn ddibyniaeth ar waith rhynglywodraethol wrth weithredu'r confensiwn yn ymarferol, confensiwn rhyng-Seneddol ydyw yn ei hanfod, gan mai'r Cynulliad sy'n rhoi cydsyniad i Senedd y DU ddeddfu o fewn cymhwysedd y Cynulliad. Adlewyrchir y dimensiwn rhyng-Seneddol hwnnw yn y ffaith bod Clerc y Cynulliad, ers 2013, wedi hysbysu ei swyddogion cyfatebol yn Nhŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi pan fydd y Cynulliad wedi pasio neu wrthod cynnig cydsyniad, fel bod modd hysbysu Aelodau Seneddol o benderfyniad y Cynulliad drwy'r papur trefn.

Er nad yw Rheol Sefydlog 29 na 30A yn ei gwneud yn ofynnol i aelod o'r Llywodraeth, nac unrhyw un arall, gyflwyno cynnig cydsyniad mewn perthynas â darpariaethau perthnasol mewn unrhyw Fil neu Offeryn Statudol y DU, yr unig ffordd y gellir ceisio, a rhoi, cydsyniad y Cynulliad i'r fath ddarpariaethau yw drwy gyflwyno a phasio cynnig o'r fath. Os na fydd cynnig o'r fath wedi'i ystyried – heb

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA

Llywydd@cynulliad.cymru

www.cynulliad.cymru

0300 200 7403

National Assembly for Wales

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA

Llywydd@assembly.wales

www.assembly.wales

0300 200 7403

Tudalen y pecyn 175



Elin Jones AC, Llywydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Elin Jones AM, Presiding Officer

National Assembly for Wales

sôn am ei basio – gan y Cynulliad mewn perthynas â darpariaeth berthnasol mewn unrhyw Fil neu Offeryn Statudol y DU, ni ellir dweud bod y Cynulliad wedi rhoi ei gydsyniad i'r ddarpariaeth honno. Byddai'n peri pryder i mi pe bai Senedd y DU yn bwrw ymlaen i ddeddfu o dan yr amgylchiadau hynny, gan y byddai'n ymddangos i mi yn groes i'r confensiwn o beidio â deddfu heb gydsyniad datganedig y Cynulliad.

O ran eich pwynt olaf, cyflwynwyd y ddarpariaeth i Aelod ac eithrio aelod o'r Llywodraeth gyflwyno cynnig cydsyniad yn 2013, ochr yn ochr â dileu'r gofyniad i'r Llywodraeth gyflwyno cynnig mewn perthynas â phob memorandwm a osodir. Cynlluniwyd y weithdrefn i'w defnyddio mewn amgylchiadau pan fydd memorandwm y Llywodraeth yn nodi nad yw'n briodol rhoi cydsyniad ym marn y Llywodraeth, ac mae'n galluogi Aelodau eraill i ddadlau'r safbwynt croes ac i gyflwyno cynnig cydsyniad i'r perwyl hwnnw. Ni ragwelwyd y byddai ei angen mewn sefyllfaoedd pan fo'r Llywodraeth yn cefnogi deddfwriaeth arfaethedig y DU, gan mai'r disgwyliad o dan yr amgylchiadau hynny yw y byddai'r Llywodraeth yn cyflwyno ei chynnig ei hun yn gofyn am gydsyniad y Cynulliad i'r deddfwriaeth fynd rhagddi.

Gobeithio bod hynny'n rhoi eglurder i'r Pwyllgor o ran fy nehongliad o'r Rheolau Sefydlog perthnasol.

Yn gywir,

Elin Jones AC

Llywydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

Jane Hutt AS/MS
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Deputy Minister and Chief Whip



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/our ref MA/RE/3252/20

Mick Antoniw MS
Chair
Legislation, Justice and Constitution Committee
Senedd Cymru

SeneddLJC@senedd.wales

6 November 2020

Dear Mick,

This letter is to inform you that I have laid a Statutory Instrument Consent Memorandum in the Senedd in respect of the Public Procurement (Amendment etc.) (EU Exit) Regulations 2020 ("the Regulations"), as required by Standing Order 30A.

The Regulations contain amendments to section 155 (2) and (3) of the Equality Act 2010 and I consider the Regulations to be a relevant statutory instrument under Standing Order 30A as they make a provision in relation to Wales amending primary legislation within the legislative competence of the Senedd, which is not incidental, consequential, transitional, transitory, supplementary or savings provisions relating to matters that are not within the legislative competence of the Senedd.

The Regulations make amendments to the Equality Act 2010 to correct deficiencies that arise as a result of the UK leaving the EU and to ensure that the relevant provision of the Equality Act 2010 can continue to operate effectively at the end of the transition period. The amendments are technical in nature, and there is no divergence in policy between the Welsh Government and the UK Government in this case.

As the Regulations amend primary legislation and that amendment is within the legislative competence of the Senedd, a statutory instrument consent motion will be tabled and a debate schedule

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 177

The Regulations are subject to the draft affirmative procedure in Parliament and are due to be laid on 7 October 2020.

Yours sincerely,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Jane', with a horizontal line above the first letter.

Jane Hutt AS/MS

Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Deputy Minister and Chief Whip

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

WRITTEN STATEMENT BY THE WELSH GOVERNMENT

TITLE Adroddiad y Grŵp Cynllunio Etholiadau
DATE 6 Tachwedd 2020
BY Mark Drakeford, First Minister of Wales

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fwriadu cynnal etholiad y Senedd ar 6 Mai 2021, ac mae'r gwaith o'i drefnu yn mynd rhagddo ar y sail honno. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl rhag-weld beth fydd yr union sefyllfa o ran iechyd y cyhoedd erbyn mis Mai nesaf. Wrth i bandemig y coronafeirws fynd rhagddo ac esblygu, mae'n bosibl y bydd yn effeithio ar agweddau ar drefniadau'r etholiad ac efallai y bydd angen gwneud rhai addasiadau.

Sefydlodd Llywodraeth Cymru y Grŵp Cynllunio Etholiadau – sy'n cynnwys cynrychiolwyr sefydliadau amrywiol sy'n ymwneud â'r etholiadau, pleidiau gwleidyddol, rhanddeiliaid eraill a swyddogion o Lywodraeth Cymru – i ystyried effaith bosibl y mesurau coronafeirws ar y gwaith o weinyddu'r etholiad ac, yn benodol, unrhyw oblygiadau ar gyfer y ddarpariaeth ddeddfwriaethol sy'n sail iddo.

Mae adroddiad y Grŵp hwnnw imi ynghlwm wrth y Datganiad Ysgrifenedig hwn (<https://llyw.cymru/grwp-cynllunio-etholiadau-adroddiad-medi-2020>)

Rwy'n ddiolchgar i gynrychiolwyr y gwahanol bleidiau a sefydliadau am eu cyfraniad at waith y Grŵp. Roedd eu cyfraniad yn werthfawr o ran canfod meysydd o gonsensws wrth inni geisio sicrhau bod modd cynnal etholiad diogel ym mis Mai 2021, ac o ran ystyried materion ehangach amrywiol. Rwyf bellach wedi cael cyfle i ystyried yr adroddiad, a'i drafod mewn cyfarfod o Gabinet Llywodraeth Cymru.

Cyrhaeddodd y Grŵp Cynllunio Etholiadau gonsensws ar nifer o feysydd, y bydd Llywodraeth Cymru yn eu gweithredu. Mae ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i faterion eraill sydd dan sylw yn adroddiad y Grŵp, a materion sy'n codi ohono.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu trefnu cynnal dadl yn y Cyfarfod Llawn ar 17 Tachwedd i roi cyfle i'r Aelodau rannu eu sylwadau ar y pwnc hwn, ac i alluogi Llywodraeth Cymru i amlinellu rhagor o wybodaeth am y camau nesaf.

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL

(MEMORANDWM RHIF 2)

BIL MASNACH

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29(iii)(a) yn rhagnodi bod yn rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, a chaniateir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron y Senedd, os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.
2. Cyflwynwyd y Bil Masnach ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 19 Mawrth 2020. Cwblhaodd y Bil y cam Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 15 Hydref 2020. Mae'r Bil ar gael yn: [Dogfennau'r Bil – Bil Masnach 2019–21 – Senedd y DU](#)

Amcanion Polisi

3. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU yw darparu parhad i fusnesau, gweithwyr a defnyddwyr ledled y DU a sefydlu'r DU fel gwlad fasnachu fyd-eang annibynnol. Er mwyn cefnogi'r amcanion hyn, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ynghylch gweithredu cytundebau masnach rhyngwladol â thrydedd wledydd sydd â chytundebau masnach â'r UE sydd eisoes yn bodoli; sefydlu Awdurdod Rhwymedïau Masnach a rhoi swyddogaethau iddo; ac yn gwneud darpariaeth ynghylch casglu a datgelu gwybodaeth sy'n ymwneud â masnach.

Crynodeb o'r Bil

4. Noddir y Bil gan yr Adran Masnach Ryngwladol.
5. Mae pedair prif swyddogaeth i'r Bil:
 - Mae'n rhoi pwerau i wneud rheoliadau i Un o Weinidogion y Goron ac awdurdodau datganoledig i weithredu Cytundeb ar Gaffael y Llywodraeth os bydd y DU yn aelod annibynnol o'r Cytundeb hwnnw ar ôl diwedd y cyfnod pontio;
 - Mae'n rhoi pwerau i un o Weinidogion y Goron ac awdurdodau datganoledig i weithredu cytundebau masnach rhyngwladol â thrydedd wledydd sydd â chytundebau masnach â'r UE sydd eisoes yn bodoli;
 - Mae'n sefydlu Awdurdod Rhwymedïau Masnach i gyflawni fframwaith newydd y DU ar gyfer rhwymedïau masnach;

- Mae'n sefydlu porth rhannu data rhwng Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a chyrrff cyhoeddus a phreifat eraill.
6. Mae darpariaethau'r Bill sy'n enwedig o berthnasol i Gymru fel a ganlyn:
- Rhan 1, Cymal 1 – (gweithredu Cytundeb ar Gaffael y Llywodraeth).
 - Rhan 1, Cymal 2 – (gweithredu cytundebau masnach rhyngwladol â thrydedd wledydd sydd â chytundebau masnach â'r UE sydd eisoes yn bodoli).
 - Rhan 2 – (sefydlu'r Awdurdod Rhwymedïau Masnach) – Nid yw Llywodraeth Cymru yn credu bod y darpariaethau yn Rhan 2 o'r Bil sy'n ymwneud â'r Awdurdod Rhwymedïau Masnach yn gwneud darpariaeth at unrhyw ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd nac sy'n ei addasu. Fodd bynnag, gallai sefydlu Awdurdod Rhwymedïau Masnach gael effaith ar feysydd datganoledig fel amaethyddiaeth a physgodfeydd.
 - Rhan 3 – (Casglu a rhannu gwybodaeth am fasnach).

Darpariaethau yn y Bil mae angen cydsyniad ar eu cyfer

7. Gosododd Llywodraeth Cymru femorandwm cydsyniad deddfwriaethol ar 2 Ebrill 2020, yn seiliedig ar y Bil fel y'i cyflwynwyd i Senedd y DU ar 19 Mawrth 2020. Roedd y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwnnw'n cwmpasu Rhan 1, Cymalau 1 i 4 ac Atodlenni 1, 2 a 3 o'r Bil. Nid oedd Llywodraeth Cymru o'r farn bod y darpariaethau yn Rhannau 2 neu 3 o'r Bil fel y'u cyflwynwyd yn sbarduno Rheol Sefydlog 29.

Newidiadau i'r Bil ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

8. Gwnaed y gwelliannau canlynol, sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru, ac sy'n cynnwys darpariaeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, i Ran 3 o'r Bil yn ystod cam Adrodd Tŷ'r Cyffredin.
9. **Mae Rhan 3, Cymal 9** – Cymal 9(1) yn rhoi pŵer i awdurdodau cyhoeddus penodedig ddatgelu gwybodaeth i Un o Weinidogion y Goron at ddibenion hwyluso arfer swyddogaethau Gweinidog y Goron sy'n ymwneud â masnach. Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidog Swyddfa'r Cabinet, cwmni priffyrdd strategol a benodir o dan adran 1 o Ddeddf Seilwaith 2015 ac awdurdod iechyd porthladd a gyfansoddwyd o dan adran 2 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yw'r awdurdodau cyhoeddus penodedig yng nghymal 9(3) a all ddatgelu gwybodaeth i Un o Weinidogion y Goron. Mae'r rhan fwyaf o'r awdurdodau penodedig sy'n rhan o'r porth rhannu data hwn yn awdurdodau a gedwir yn ôl. Fodd bynnag, mae'r diffiniad o awdurdod iechyd porthladd yn cynnwys awdurdodau iechyd porthladdoedd Cymru sy'n arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac mae'n ddigon helaeth i alluogi awdurdodau o'r fath i ddatgelu gwybodaeth sy'n ymwneud â materion nas cedwir yn ôl i Un o Weinidogion y Goron.

10. Mae cymal 9(9) hefyd yn rhoi pŵer i wneud rheoliadau i Un o Weinidogion y Goron sy'n galluogi diwygio'r rhestr o awdurdodau penodedig yng nghymal 9(3). Gellir arfer y pŵer hwnnw i ychwanegu neu ddileu awdurdodau datganoledig Cymru o'r rhestr.
11. **Rhan 3, Cymal 10** – Mae cymal newydd wedi'i gynnwys a fyddai'n ei gwneud yn drosedd i berson ddatgelu gwybodaeth bersonol y gellid ei chysylltu ag unigolyn, yn groes i'r gofynion yng nghymal 9, mewn rhai sefyllfaoedd penodol. Mae trosedd o'r fath yn cael ei chosbi gan ddirwy a/neu gyfnod o garchar am hyd at gyfnod o ddwy flynedd ar dditiad neu hyd at 12 mis ar gollfarn ddiannod. Gan fod angen ystyried y ddarpariaeth hon ochr yn ochr â chymal 9, credwn fod angen cydsyniad hefyd ar gyfer y ddarpariaeth hon.

Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru ym Mil Masnach y DU

12. Mae angen mecanwaith cyfreithiol ar Lywodraeth y DU i'w galluogi i ofyn am fynediad at wybodaeth a gedwir gan ystod eang awdurdodau cyhoeddus ac i rannu'r wybodaeth honno. Gallai cael mynediad at ystod ehangach o ddata datganoledig a data a gedwir yn ôl wella gallu Llywodraeth y DU i ymateb i faterion yn ymwneud â'r ffin, cynllunio mentrau rheoli traffig a gwella llofoedd masnach.
13. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r sail resymegol dros y gwelliannau. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau y gwelir manteision yng Nghymru, rydym wedi ceisio sicrwydd ynghylch y canlynol;
 - a) Bydd Llywodraeth y DU yn rhannu unrhyw ddadansoddiadau sy'n berthnasol i gyflawni cyfrifoldebau datganoledig â Gweinidogion Cymru. Mae cymal 9(5) yn berthnasol yn y cyd-destun hwn gan ei fod yn gwneud darpariaeth i Un o Weinidogion y Goron ddatgelu data, gyda chydsyniad yr awdurdod cyhoeddus y cafwyd y data ganddo. Gallai hyn alluogi Un o Weinidogion y Goron i ddatgelu data i Weinidogion Cymru mewn amgylchiadau lle mae'r data'n berthnasol i swyddogaethau datganoledig Gweinidogion Cymru sy'n ymwneud â masnach, megis rheoli traffig o amgylch porthladdoedd allweddol;
 - b) Bydd Llywodraeth y DU yn ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn ychwanegu neu dynnu unrhyw awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru o'r porth rhannu data yng nghymal 9.
14. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod wedi cael digon o sicrwydd gan Lywodraeth y DU mewn ymateb i'r ceisiadau hyn.
15. Yn ogystal, gwnaed dau ymrwymiad blwch anfon yn ystod cam Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi ar 15 Hydref:

'Yn gyntaf, bydd y data a rennir o dan Gymal 9 yn cael ei ddefnyddio gan y ganolfan effaith ar y ffin a Swyddfa'r Cabinet i ddatblygu dealltwriaeth

strategol. Maent wedi ymrwymo i rannu dadansoddiadau strategol sy'n gysylltiedig â llif masnach, lle bydd yn cefnogi'r gwaith o reoli llif drwy'r ffin yn fwy effeithiol.

Deallaf fod swyddogion Swyddfa'r Cabinet wedi bod yn gweithio'n agos gyda chymheiriaid yn y gweinyddiaethau datganoledig i sicrhau y gellir rhannu dadansoddiadau a gwybodaeth berthnasol sy'n ymwneud â masnachu a rheoli'r ffin i gefnogi swyddogaethau datganoledig. Enghraifft o'r mathau o wybodaeth y mae'r ganolfan effaith ar y ffin yn bwriadu eu rhannu â phartïon perthnasol yn y gwledydd datganoledig yw patrymau llif drwy borthladdoedd.

Bydd Swyddfa'r Cabinet yn parhau i weithio gyda'r gweinyddiaethau datganoledig i sicrhau bod y ganolfan effaith ar y ffin yn darparu manteision strategol i'r gwaith o reoli'r llif drwy borthladdoedd allweddol.

Yn ail, bydd Llywodraeth y DU yn ymrwymo i ymgynghori â'r gweinyddiaethau datganoledig cyn i unrhyw awdurdodau datganoledig gael eu hychwanegu at y rhestr o awdurdodau penodedig a all rannu data o dan Gymal 9, neu ei ddileu oddi arni.'

16. Credwn fod y sicrwydd a ddarperir yn ddigonol i sicrhau y bydd Gweinidogion Cymru yn gallu cael gafael ar wybodaeth fanylach i gynyddu galluoedd rheoli ffiniau a gwella data llif masnach, er budd Cymru.
17. Ar y sail hon, byddem yn argymhell bod y Senedd yn rhoi caniatâd deddfwriaethol.

Goblygiadau ariannol

18. Er nad oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i Lywodraeth Cymru na'r Senedd yn deillio o'r pwerau o dan y Bil, bydd goblygiadau ariannol sylweddol i Gymru drwy ein perthnasau masnach yn y dyfodol o ran ei effaith economaidd gyffredinol.

Casgliad

19. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn ym Mil hwn y DU, gan fod y Bil yn ymdrin â materion datganoledig a materion nad ydynt wedi'u datganoli. O ran cydlyniad, mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai deddfu drwy Fil ledled y DU yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf effeithiol a chymesur ar gyfer creu polisi masnach annibynnol ar gyfer y DU yn dilyn y cyfnod pontio. Efallai y bydd cytundebau masnach yn y dyfodol yn cael effaith fawr ar feysydd datganoledig, felly mae'n bwysig bod buddiannau Cymru yn cael eu hadlewyrchu'n ddigonol yn y Bil Masnach.

Jeremy Miles AS

Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd

Tachwedd 2020

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad

11 Medi 2020

Annwyl Mick,

**Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad ar Femorandwm
Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru i'r Bil Masnach**

Diolch am ddarparu copi o adroddiad ac argymhellion y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad ar y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol i'r Bil Masnach.

Mae ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion yr adroddiad i'w weld yn Atodiad A.

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am graffu ar femorandwm y Bil Masnach. Rwyf yn rhannu eich pryderon ynglŷn ag effaith cytundebau masnach newydd ar Gymru. Fodd bynnag, fel y gwyddoch, dim ond i gytundebau masnach presennol sy'n parhau y mae cwmpas y Bil hwn yn berthnasol, yn hytrach na chytundebau masnach newydd.

Rwyf yn cydnabod eich pryderon ynglŷn â sicrhau consesiynau ar wyneb y Bil hwn, ond byddwn yn pwysleisio y byddai gwneud hynny yng nghyd-destun Llywodraeth y DU sydd â mwyafrif helaeth yn Nhŷ'r Cyffredin yn heriol iawn. Hoffwn nodi hefyd fod ymdrechion blaenorol i ddiwygio'r Bil yn sesiwn ddiwethaf Senedd y DU wedi arwain at wneud cytundebau rhynglywodraethol â Llywodraeth y DU ar y prif feysydd pryder. Cafodd y sefyllfa hon ei derbyn gan Senedd Cymru ar adeg pan oedd gan y Llywodraeth bryd hynny fwy o reswm dros gyfaddawdu.

Dyna pam fy mod wedi mabwysiadu dull o weithio gyda Gweinidogion y DU i sicrhau consesiynau drwy gytundebau rhynglywodraethol, techneg a ddefnyddir yn aml gan Weinidogion ym mhob un o'r gweinyddiaethau datganoledig i ddal Llywodraeth y DU i gyfrif.

Fel y gwyddoch, mae'r Bil wedi pasio drwy Dŷ'r Cyffredin. Cynhaliwyd y darlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 21 Gorffennaf, a chynhelir yr ail darlleniad ar 8 Medi. Nod Llywodraeth y DU yw sicrhau Cydsyniad Brenhinol i'r Bil erbyn diwedd y cyfnod pontio.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 200
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd y camau nesaf yn Nhŷ'r Arglwyddi yn gyfle arall i ddadlau ac, o bosibl, i sicrhau gwelliannau deddfwriaethol. O ystyried hyn, ac er mwyn mynd i'r afael yn rhannol â nifer o'ch argymhellion, byddaf yn:

- Ysgrifennu at Lefarydd Tŷ'r Arglwyddi yn gwneud cais i gyflwyno gwelliant i gymal 2 a fyddai'n atal Gweinidogion y DU rhag arfer y pwerau gwneud rheoliadau i wneud gwelliannau i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
- Ysgrifennu at y Gweinidog Gwladol dros Bolisi Masnach yn gofyn i Weinidogion y DU ailddatgan ymrwymiad yn y blwch dogfennau yn Nhŷ'r Arglwyddi y bydd Llywodraeth y DU yn ymgysylltu â'r gweinyddiaethau datganoledig cyn unrhyw benderfyniad ynghylch defnyddio pwerau cymal 2(7) i ymestyn y ddarpariaeth fachlud.

Gallaf eich sicrhau mai diogelu buddiannau Cymru mewn materion rhyngwladol yw un o fy mhrif flaenoriaethau. Byddaf yn parhau i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU ar yr holl faterion polisi masnach drwy'r Fforwm Gweinidogol ar gyfer Masnach, lle gallaf ddylanwadu ar y trafodaethau a rhoi llais i Gymru.

Yn gywir,



Eluned Morgan AS/MS

Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol
Minister for International Relations and the Welsh Language

Atodiad A

Ymatebion Llywodraeth Cymru i Argymhellion y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad mewn perthynas â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol i Fil Masnach y DU

Argymhelliad	Ymateb Llywodraeth Cymru
<p>Argymhelliad 1</p> <p>Dylai'r Gweinidog gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU yn gofyn am adolygiad o'r weithdrefn a ddefnyddir ar gyfer rheoliadau a wneir o dan gymal 1.</p>	<p>Penderfyniad – Gwrthod</p> <p>Yn y gorffennol, nid yw Llywodraeth Cymru wedi codi gwrthwynebiad i'r ffaith fod rheoliadau a wneir o dan gymal 1 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol, a dyna oedd ei sail dros argymhell bod y Senedd yn rhoi cydsyniad deddfwriaethol i Fil Masnach 2017-19.</p> <p>Wrth gyrraedd y safbwynt hwn mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y ffaith y byddai'r pŵer hwn yn cael ei arfer i wneud newidiadau technegol yn bennaf i ddeddfwriaeth ddomestig sy'n bodoli eisoes, er mwyn rhoi'r Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau (GPA) ar waith pan fydd y DU yn aelod annibynnol. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys gwelliannau i Reoliadau Contractau Caffael 2015 i sicrhau bod y rhestr o awdurdodau contractio llywodraeth ganolog y mae'r rheoliadau hynny'n berthnasol iddynt yn gyson â rhwymedigaethau'r DU o dan y GPA. Gallai hefyd gynnwys gwelliannau i ddeddfwriaeth ddomestig mewn ymateb i barti arall yn ymuno â'r GPA, neu aelod presennol yn gadael y GPA.</p> <p>Oherwydd bod hyd a lled y disgrisiwn y gall Gweinidogion Cymru neu Weinidogion y DU ei arfer yn gyfyngedig iawn yn ymarferol, a gan dderbyn bod Senedd y DU eisoes wedi cael cyfle i graffu ar aelodaeth y DU o'r GPA, cyrhaeddodd Llywodraeth Cymru safbwynt lle roedd yn fodlon bod y ddarpariaeth yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.</p> <p>Derbyniodd Senedd Cymru y safbwynt hwn wrth gytuno ar gynnig cydsyniad deddfwriaethol ar 12 Mawrth 2019, ac wedyn ar 21 Mai 2019 yn sgil dau gynnig cydsyniad deddfwriaethol atodol. Derbyniwyd mai siawns isel iawn yr oedd o sicrhau gwelliant gan Lywodraeth y DU i newid y weithdrefn arfaethedig o negyddol i gadarnhaol ar yr adeg honno.</p> <p>Mae Llywodraeth bresennol y DU mewn safle cryfach ar ôl ennill mwyafrif helaeth yn y Senedd, ac mae wedi ei gwneud yn glir nad oes bwriad ganddi i newid y weithdrefn a ddefnyddir ar gyfer rheoliadau a wneir o dan gymal 1. Felly, mae'n eithriadol o annhebygol y byddai unrhyw sylwadau y byddem yn eu cyflwyno i Lywodraeth y DU ar y mater hwn yn cael eu hystyried o ddifrif.</p> <p>Goblygiadau ariannol – Dim.</p>

<p>Argymhelliad 2</p> <p>Dylai'r Gweinidog ysgrifennu at y Pwyllgor i roi gwybod i ni am ganlyniad y sylwadau a gyflwynir i Lywodraeth y DU yn sgil Argymhelliad 1.</p>	<p>Penderfyniad – Gwrthod</p> <p>O ganlyniad i'r rhesymau a nodwyd yn Argymhelliad 1, nid ystyrir ei bod yn briodol i'r Gweinidog gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU ar y mater hwn.</p> <p>Goblygiadau ariannol – Dim.</p>
<p>Argymhelliad 3</p> <p>Dylai'r Gweinidog geisio gwelliant i'r Bil er mwyn ei gwneud yn bosibl i'r pŵer gwneud rheoliadau yng nghymal 1 gael ei arfer pan fydd Gweinidogion yn ei ystyried yn 'angenrheidiol', yn hytrach nag yn 'briodol'.</p>	<p>Penderfyniad – Derbyn mewn Egwyddor</p> <p>Rydym yn cytuno â'r Pwyllgor bod y dewis rhwng 'angenrheidiol' neu 'briodol' yn bwysig, a bod yn rhaid ei ystyried yn ofalus mewn perthynas â phob Bil penodol a'i amgylchiadau. Yn y sefyllfa benodol hon, rydym yn ymwybodol o derfyn amser y ddeddfwriaeth hon, hynny yw bod y Bil dim ond yn berthnasol i weithredu cytundebau rhyngwladol a oedd eisoes yn eu lle cyn i'r DU adael yr UE, a bod hyd a lled y pwerau eisoes yn gyfyngedig iawn yn ymarferol.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y byddai'r term 'angenrheidiol' yn fwy dymunol yn y cyd-destun lle na ddylid gwneud newidiadau oni bai eu bod yn angenrheidiol ar gyfer sicrhau cydymffurfedd llawn â rhwymedigaethau rhyngwladol. Fodd bynnag, oherwydd y byddai unrhyw welliant i'r Bil yn golygu bod yn rhaid defnyddio'r un safon ar gyfer y pwerau gwneud rheoliadau a roddir i Weinidogion y DU, mae'n dra annhebygol y byddai gwelliant o'r fath yn cael ei dderbyn – ac, eto, wrth ystyried Bil Masnach 2017-19, nid oedd Senedd Cymru wedi ystyried hwn yn fater a ddylai ei hatal rhag rhoi cydsyniad deddfwriaethol.</p> <p>Felly, nid ydym yn credu y byddai'n briodol i ni fynd ati i geisio gwelliant a fyddai'n cyfyngu ar y pwerau hyn, er na fyddem yn gwrthwynebu ymdrechion yn Nhŷ'r Arglwyddi i gyflwyno gwelliant o'r fath.</p> <p>Goblygiadau ariannol – Dim.</p>
<p>Argymhelliad 4</p> <p>Dylai'r Gweinidog geisio gwelliant i gymal 2(6)(a) y Bil i sicrhau na ellir ei ddefnyddio gan Weinidogion y DU i wneud rheoliadau sy'n diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006.</p>	<p>Penderfyniad – Derbyn</p> <p>Er ei bod yn dechnegol bosibl y gallai Llywodraeth y DU ddefnyddio cymal 2(6)(a) i wneud rheoliadau sy'n diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006, yn ymarferol, mae'n eithriadol o annhebygol y byddai hyn yn digwydd oherwydd mae pwerau cymal 2 yn gyfyngedig iawn o ran eu hyd a'u lled.</p> <p>I liniaru'r risg fod Gweinidogion y DU yn defnyddio cymal 2 yn y modd hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio i sicrhau ymrwymadau gan Lywodraeth y DU, er eu bod yn rhai rhynglywodraethol ac anneddfwriaethol nad ydynt yn rhwymo, na fydd pwerau cymal 2 yn cael eu defnyddio ym meysydd lle y</p>

	<p>mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli. O ganlyniad i hynny, ar 23 Mehefin 2020, yng nghyfarfod Pwyllgor y Bil Masnach yn Nhŷ'r Cyffredin, roedd y Gweinidog Gwladol dros Bolisi Masnach wedi ailddatgan addewidion a wnaed gan ragflaenwyr yn ystod hynt Bil Masnach 2017-19 na fyddai Llywodraeth y DU yn deddfu mewn meysydd datganoledig fel rheol heb gydsyniad y gweinyddiaethau datganoledig perthnasol, a byth heb ymgynghoriad yn gyntaf. Yn ogystal â hynny, ac yn dilyn sylwadau gan y Gweinidog Cysylltiadau Rhyngwladol, gwnaeth y Gweinidog dros Bolisi Masnach ymrwymiad newydd y bydd ei adran yn gweithio'n agos gyda'r gweinyddiaethau datganoledig ym mhob cam o'r trafodaethau masnach.</p> <p>Fodd bynnag, er bod Llywodraeth y DU wedi nodi o'r blaen nad yw'n bwriadu arfer y pwerau cymal 2 i wneud gwelliannau i Ddeddf Llywodraeth Cymru ac wedi gwneud sylwadau yn y blwch dogfennau na fydd yn gwneud hynny fel rheol, ac nad ydym yn rhag-weld sefyllfa lle byddai angen gwneud hynny erioed, rydym yn cydnabod bod risg fach y gallai Gweinidogion y DU arfer y pwerau hyn. Rydym yn cytuno â Senedd Cymru nad yw'n dderbyniol i Weinidogion y DU ddefnyddio pwerau eilaidd i ddiwygio'r ddeddfwriaeth sylfaenol graidd sy'n sail i'r setliad datganoli.</p> <p>Felly, bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at Lefarydd Tŷ'r Arglwyddi yn gwneud cais i gyflwyno gwelliant i gymal 2 a fyddai'n atal Gweinidogion y DU rhag arfer y pwerau gwneud rheoliadau i wneud gwelliannau i Ddeddf Llywodraeth Cymru.</p> <p>Goblygiadau ariannol – Dim.</p>
<p>Argymhelliad 5</p> <p>Dylai'r Gweinidog geisio gwelliant i'r Bil er mwyn ei gwneud yn bosibl i'r pŵer gwneud rheoliadau yng nghymal 2 gael ei arfer pan fydd Gweinidogion yn ei ystyried yn 'angenrheidiol', yn hytrach nag yn 'briodol'.</p>	<p>Penderfyniad – Derbyn mewn Egwyddor</p> <p>Gweler yr ymateb a ddarparwyd i Argymhelliad 3, sy'n mynd i'r afael ag Argymhelliad 5 hefyd.</p> <p>Goblygiadau ariannol – Dim</p>
<p>Argymhelliad 6</p> <p>Dylai'r Gweinidog geisio gwelliant i'r Bil i sicrhau bod gofyniad ar Lywodraeth y DU i gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau</p>	<p>Penderfyniad – Gwrthod</p> <p>Roedd Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno gwelliannau i Fil 2017-19, ynghyd â Llywodraeth yr Alban, a fyddai wedi gorfodi Gweinidogion y DU i gael cydsyniad Gweinidogion Cymru a'r Alban cyn gwneud rheoliadau o dan gymalau 1 a 2 a fyddai'n gwneud darpariaethau mewn meysydd lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli.</p>

<p>o dan gymalau 1(1) a 2(1).</p>	<p>Cafodd y gwelliannau hyn eu gwrthod ond cafwyd consesiynau gan Lywodraeth y DU, ar ffurf ymrwymadau anneddfwriaethol yn y blwch dogfennau, na fyddai fel rheol yn deddfu mewn meysydd lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli heb ymgynghoriad. Mae'r ymrwymadau hyn wedi cael eu hailddatgan gan y Gweinidog dros Bolisi Masnach mewn perthynas â Bil 2019-21, fel yr amlinellir yn yr ymateb i Argymhelliad 4.</p> <p>Roedd Llywodraeth Cymru wedi cyrraedd safbwynt ar y Bil blaenorol lle roedd yn derbyn y byddai gofyniad ar Lywodraeth y DU i gael cydsyniad ar wyneb y Bil yn golygu y byddai gan y gweinyddiaethau datganoledig fetu, i bob pwrpas, ar gytundebau rhyngwladol a drafodir gan Lywodraeth y DU. Penderfynodd Llywodraeth Cymru fod sicrhau ymrwymadau anneddfwriaethol yn y blwch dogfennau, yn hytrach na phwyso am fetu, yn gyson â'i hamcanion a nodir yn ei dogfen polisi masnach gyhoeddus, 'Y Polisi Masnach: Materion Cymru'. Yn ogystal â hynny, derbyniwyd mai'r cyfaddawd hwn oedd yr unig ffordd o symud y Bil Masnach yn ei flaen er mwyn sicrhau parhad i fusnesau a dinasyddion Cymru ar ddiwedd y cyfnod pontio. Yn flaenorol, roedd y Senedd yn fodlon rhoi cydsyniad deddfwriaethol ar y sail hon.</p> <p>Mae'r Pwyllgor yn nodi yn yr adroddiad bod Biliau eraill y DU, fel Bil yr Amgylchedd, yn cynnwys pwerau cydredol plws, sy'n golygu bod yn rhaid cael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn i Weinidogion y DU wneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn bod Bil yr Amgylchedd a'r Bil Pysgodfeydd yn cynnwys pwerau cydredol plws, ond yn yr achosion hyn mae pwnc craidd y Biliau'n amlwg yn un datganoledig. Mae'r Bil Masnach yn wahanol i'r ddau Fil hynny oherwydd dim ond rhannau cyfyngedig ohono sy'n gwneud darpariaethau mewn meysydd datganoledig. Mae Biliau eraill y DU sy'n ymwneud â chytundebau rhyngwladol y mae angen amdanynt o ganlyniad i ymadawiad y DU o'r UE, fel Deddf Gofal Iechyd (Trefniadau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a Swistir) 2019, wedi pasio drwy Senedd y DU lle mae ymrwymadau yn y blwch dogfennau yn cael eu derbyn fel dyfais ddilys, ond nid delfrydol, y gall Llywodraethu datganoledig ei defnyddio i ddal Llywodraeth y DU i gyfrif.</p> <p>Goblygiadau ariannol – Dim.</p>
<p>Argymhelliad 7.</p> <p>Dylai'r Gweinidog geisio gwelliant i'r Bil i sicrhau bod gofyniad ar Lywodraeth y DU i gael cydsyniad Senedd Cymru cyn gwneud rheoliadau o dan gymal 2(7).</p>	<p>Penderfyniad – Gwrthod</p> <p>Roedd Llywodraeth Cymru yn y gorffennol wedi cyrraedd safbwynt lle roedd yn fodlon argymhell rhoi cydsyniad deddfwriaethol i gymal 2(7) ar sail ymrwymadau anneddfwriaethol a wnaed gan Lywodraeth y DU yn ystod hynt Bil Masnach 2017-19, a oedd yn cynnwys ymrwymiad yn y blwch dogfennau i ymgysylltu â gweinyddiaethau datganoledig cyn ymestyn y cyfnod y gellir defnyddio pwerau cymal 2 o dan y</p>

	<p>Bil ynndo. Derbyniodd Senedd Cymru y safbwynt hwn, a rhoi cydsyniad deddfwriaethol ar y sail hon.</p> <p>Fel yr amlinellir yn yr ymateb i Argymhelliad 6, mae ymrwymadau yn y blwch dogfennau yn cael eu derbyn fel dyfais ddilys, ond nid delfrydol, y gall Llywodraethu datganoledig ei defnyddio i ddal Llywodraeth y DU i gyfrif mewn perthynas â Biliau'r DU. Felly, yn yr achos hwn, byddai dibynnu ar ymrwymiad yn y blwch dogfennau yn gyson â'r dull a fabwysiadwyd ar gyfer deddfwriaeth arall.</p> <p>Serch hynny, nodwyd bod yr ymrwymiad hwn wedi'i wneud ar 17 Gorffennaf 2018 ac nad yw wedi'i ailddatgan yn benodol gan y Gweinidog Gwladol dros Bolisi Masnach mewn perthynas ag ymestyn y cyfnod machlud. Felly, bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at Lywodraeth y DU gan ofyn a fyddai Gweinidogion yn ailddatgan yr ymrwymiad hwn yn benodol yn y blwch dogfennau yn ystod camau Tŷ'r Arglwyddi.</p> <p>Goblygiadau ariannol – Dim.</p>
<p>Argymhelliad 8</p> <p>Dylai'r Gweinidog geisio trafodaethau brys â Llywodraeth y DU ynghylch yr ymrwymadau a wnaed o ran gweithrediad yr Awdurdod Rhwymedïau Masnach, yn benodol o ran ymgynghori â Llywodraeth Cymru ar argymhellion yr Awdurdod, a cheisio newidiadau i'r ymrwymadau y cytunwyd arnynt er mwyn iddynt adlewyrchu'n briodol statws Llywodraeth Cymru fel y Llywodraeth yng Nghymru, ac nid fel adran o Lywodraeth y DU.</p>	<p>Penderfyniad – Gwrthod</p> <p>Nid yw materion sy'n ymwneud â'r Awdurdod Rhwymedïau Masnach o fewn cymhwysedd y Senedd, er bod hwn yn faes lle mae gan fusnesau a dinasyddion Cymru fuddiant clir. Mae Llywodraeth Cymru wedi argymhell cefnogi'r mesurau arfaethedig ar gyfer sefydlu corff annibynnol newydd, yr Awdurdod Rhwymedïau Masnach, i ymchwilio anghydfodau masnach ar y sail fod Llywodraeth Cymru yn rhan o'r broses ymchwilio, ond y bydd Llywodraeth y DU yn gweithredu ar ran y DU yn ei chyfanrwydd.</p> <p>Mae'n bwysig nodi y bydd rhwymedigaeth gyfreithiol ar y DU i sefydlu awdurdod i reoli a chyflawni rhwymedïau masnach pan fydd y DU yn cydsynio â Sefydliad Masnach y Byd. Oherwydd nad yw Cymru'n aelod o Sefydliad Masnach y Byd ei hun, ar Lywodraeth y DU mae'r rhwymedigaeth gyfreithiol, nid Llywodraeth Cymru.</p> <p>Safbwynt Llywodraeth Cymru yw na fyddwn yn disgwyl cymryd rhan yng ngweithgareddau gweithredol yr Awdurdod Rhwymedïau Masnach, gan ei fod yn gorff annibynnol. Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod gallu gweithredu fel cyfrannwr mewn unrhyw achos y mae'r Awdurdod yn ymchwilio iddo, ar yr un pryd ag adrannau eraill o Lywodraeth y DU, yn sicrhau bod ein safbwyntiau'n cael eu cyfrannu at y broses ar yr adeg fwyaf priodol, pan fo'r argymhellion yn cael eu hystyried a'u datblygu. Os ymgynghorir â ni ar yr argymhellion pan fyddant yn cael eu cyflwyno i'r Ysgrifennydd Gwladol, yn lle ein bod yn rhan o'r broses yng nghamau cynharaf yr ymchwiliad, byddai hyn yn achosi'r risg y gallai Llywodraeth y DU ffurfio barn sefydledig, gyfunol heb ein cyfraniad. Yn ymarferol, byddai hyn yn golygu mai siawns isel iawn fyddai gennym o ddylanwadu ar y</p>

	<p>canlyniad neu o aildechrau'r trafodaethau, pe baem yn dymuno gwneud hynny. Bydd cyfraniad yng nghramau cynharach y broses, ar adeg pan fydd gwahanol fuddiannau cydymgeisiol yn Llywodraeth y DU yn dod i'r amlwg ac yn cael eu datrys, yn fwy buddiol oherwydd bydd yn ein galluogi i gael rhagor o ddylanwad. Mae'r broses hon eisoes yn gweithio'n ymarferol oherwydd mae swyddogion wedi cael nifer o wahoddiadau i gyfrannu at ymchwiliadau gan Gyfarwyddiaeth yr Awdurdod Rhwymedïau Masnach yn Llywodraeth y DU, sy'n rheoli'r ymchwiliadau yn ystod y cyfnod pontio.</p> <p>Roedd Llywodraeth Cymru yn y gorffennol wedi sicrhau ymrwymadau anneddfwriaethol gan Lywodraeth y DU, ar 4 Chwefror 2019, ynghylch y ffyrdd y byddwn yn gallu rhyngweithio â'r Awdurdod a chynnal lefel o gyfraniad yn y broses ymchwilio. Cafodd Datganiad Ysgrifenedig, yn darparu rhagor o fanylion am ymrwymadau Llywodraeth y DU, ei gyhoeddi ar 30 Ebrill 2019.</p> <p>Barn Llywodraeth Cymru yw bod yr ymrwymadau hyn, ynghyd â'r wybodaeth fanwl a ddarparwyd yn y Datganiad Ysgrifenedig am sut bydd Llywodraeth y DU yn cynnwys Llywodraeth Cymru yn y gweithdrefnau, yn rhoi sicrwydd boddhaol y byddwn yn rhan o'r broses ymchwilio ar yr adeg fwyaf priodol, yn y ffordd fwyaf priodol. Y dystiolaeth hyd yma yw bod yr ymrwymadau'n cael eu gwireddu'n ymarferol.</p> <p>Goblygiadau ariannol – Dim</p>
<p>Argymhelliad 9</p> <p>Dylai'r Gweinidog geisio trafodaethau brys â Llywodraeth y DU ynghylch yr ymrwymadau a wnaed o ran gweithrediad yr Awdurdod Rhwymedïau Masnach, yn benodol o ran dyletswydd ar yr Awdurdod i roi cyngor i Weinidogion Cymru, a cheisio newidiadau i'r ymrwymadau y cytunwyd arnynt er mwyn iddynt adlewyrchu'n briodol rôl Llywodraeth Cymru yn rhoi cytundebau masnach ryngwladol ar waith.</p>	<p>Penderfyniad – Gwrthod</p> <p>Gweler yr ymateb a ddarparwyd i Argymhelliad 8, sy'n mynd i'r afael ag Argymhelliad 9 hefyd.</p> <p>Goblygiadau ariannol – Dim</p>

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon